# AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# DATGANIAD O GYFRIFON

# 2022/2023

## Tabl Cynnwys


ADRODDIAD NARATIF .... 3
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU .... 10
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN FIS MAWRTH 2023 .... 11
ADRODDIAD YR ARCHWILYDD .... 52
DATGANIAD GWARIANT AC INCWM CYNHWYSFAWR .... 57
DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD .... 58
Y FANTOLEN .... 60
DATGANIAD LLIF ARIAN .... 61
POLISÏAU CYFRIFYDDU .... 62
Nodyn 1 – DYFARNIADAU CRITIGOL WRTH GYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU .. 72
Nodyn 2 – RHAGDYBIAETHAU SYDD WEDI'U GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU AMCANGYFRIFO MAWR ERAILL .... 72
Nodyn 3 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU O DAN Y RHEOLIADAU .... 73
Nodyn 4 – DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID .... 75
Nodyn 5 – GWARIANT AC INCWM WEDI'U DADANSODDI YN ÔL EU NATUR .... 77
Nodyn 6 – GWARIANT AC INCWM GWEITHREDU ARALL .... 78
Nodyn 7 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI .... 78
Nodyn 8 – TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL .... 79
Nodyn 9 – EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR .... 79
Nodyn 10 – OFFERYNNAU ARIANNOL .... 82
Nodyn 11 – GWERTH TEG ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU WEDI'U CARIO AR GOST WEDI'I HAMORTEIDDIO .... 83
Nodyn 12 – BUDDSODDIADAU TYMOR BYR .... 84
Nodyn 13 – DYLEDWYR .... 84
Nodyn 14 – ARIAN PAROD A SYMIAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD .... 85
Nodyn 15 – CREDYDWYR .... 85
Nodyn 16 – DARPARIAETHAU .... 85
Nodyn 17 – CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO .... 87
Nodyn 18 – CRONFEYDD NA ELLIR EU DEFNYDDIO .... 88
Nodyn 19 – CRONFA AILBRISIO .... 89
Nodyn 20 – CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF .... 89
Nodyn 21 – Y GRONFA BENSIYNAU .... 90
Nodyn 22 – CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS .... 91
Nodyn 23 – DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU . 92
Nodyn 24 – LLIF ARIAN PAROD– GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI A CHYLLIDO .... 93
Nodyn 25 – LWFANSAU AELODAU .... 93
Nodyn 26 – TALIADAU CYDNABYDDIAETH I SWYDDOGION .... 94
Nodyn 27 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL .... 96
Nodyn 28 – GRANTIAU .... 96
Nodyn 29 – PARTÏON PERTHYNOL .... 97
Nodyn 30 – GWARIANT CYFALAF A CHYLLID CYFALAF .... 100
Nodyn 31 – CYLLIDO GWARIANT CYFALAF .... 100
Nodyn 32 – YMRWYMIADAU CYFALAF .... 101
Nodyn 33 – MENTER CYLLID PREIFAT (PFI) .... 101
Nodyn 34 – PENSIYNAU (SAFON CYFRIFYDDU RYNGWLADOL 19) .... 102
Nodyn 35 – RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL .... 110
Nodyn 36 – NATUR A GRADDAU'R RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL .... 111
CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN .... 113
NODIADAU I GYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN .... 114

# ADRODDIAD NARATIF

Diben y naratif hwn yw egluro strwythur y cyfrifon, disgrifio'n gryno weithgareddau a strwythur Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod), ac ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod yn y cyd-destun economaidd cyfredol.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol o dan y gyfraith; ei brif bwrpas yw rhoi gwybodaeth glir ynghylch safle ariannol, perfformiad ariannol ac atebolrwydd am adnoddau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2022/2023 yn cynnwys y canlynol:

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon
Mae hwn yn amlinellu cyfrifoldebau perthnasol yr Awdurdod a'i swyddogion am baratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys systemau rheoli a rheoli risg mewnol, er mwyn cynnig sicrwydd ar ei effeithiolrwydd a chynhyrchu cynllun gweithredu rheolaethol i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd.

Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – Mae'r datganiad hwn yn dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm a gyllidir gan drethiant. Mae awdurdodau lleol yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau, a all fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Er nad yw'r Awdurdod hwn yn codi incwm sy'n gysylltiedig â threth, mae rheoliadau cyfrifyddu awdurdodau lleol yn mynnu y paratoir y cyfrifon hyn yn unol â'r un egwyddorion.

Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd – Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd a gedwir gan yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rheini y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant), a chronfeydd eraill na ellir eu defnyddio. Mae llinell y Datganiad Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, ac mae rhagor o fanylion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn wahanol i'r symiau statudol y mae angen eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, ac mae'r llinell cynnydd / gostyngiad cyn trosglwyddiadau i gronfeydd a glustnodwyd yn dangos sefyllfa'r Gronfa Gyffredinol statudol cyn i unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgresiwn gael eu gwneud.

Y Fantolen – Mae'r fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau roedd yr Awdurdod yn eu cydnabod ar y dyddiad y lluniwyd y fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cael eu paru â'r cronfeydd a gedwir gan yr Awdurdod. Adroddir am gronfeydd mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd yn gronfeydd y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft, y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf, y gellir ei defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Mae'r ail gategori o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n

dal enillion a cholledion nad ydynt wedi cael eu gwireddu (e.e. y Gronfa Ailbrisio), lle na fyddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau oni werthir asedau, a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd fel 'addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan y rheoliadau'.

Y Datganiad Llif Arian Parod – Mae'r Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newid mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod drwy ddosbarthu llifoedd arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o'r graddau y cyllidir gweithredoedd yr Awdurdod drwy incwm grant neu gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido yn ddefnyddiol o ran darogan hawliadau ar lifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân – mae hwn yn dangos sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes arian yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru neu iddi er mwyn mantoli'r cyfrif, ynghyd â manylion ei asedau net. Mae'r cyfrif yn cyfuno Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992, 2006 a 2015 a'r Cynllun Pensiwn Addasedig Wrth Gefn.

Nodiadau i'r datganiadau cyfrifyddu – Mae'r nodiadau yn rhoi gwybodaeth am y sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn rhoi gwybodaeth nas cyflwynir mewn mannau eraill yn y datganiadau ariannol ond sy'n berthnasol er mwyn eu deall.

**Adrodd, Archwilio a Pherthnasedd**
Cynhyrchir y cyfrifon hyn ar ffurf ddrafft i gwrdd â'r dyddiad cau cychwynnol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol, sef 31 Mai, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn. O 1 Mehefin, bydd y cyfrifon yn cael eu harchwilio i benderfynu a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd a chymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig gan yr Awdurdod Tân ac Achub yw 31 Gorffennaf.

Mae'r broses archwilio yn bwysig o ran darparu barn wrthrychol ac arbenigol ar gyflwr y cyfrifon ac, wrth wneud hynny, mae archwilwyr yn defnyddio'r cysyniad o berthnasedd wrth adrodd am unrhyw wyriadau oddi wrth egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir a'r rheoliadau. Mae'r cysyniad o berthnasedd yn golygu bod gwybodaeth ariannol yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe bai'n newid barn neu safbwynt y darllenydd.

**Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**
Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub effeithlon ac effeithiol i gymunedau De Cymru. Mae'r

Awdurdod yn cwmpasu deg ardal awdurdod unedol ac yn cynnwys 24 aelod etholedig o'r awdurdodau hynny, yn gymesur â nifer yr etholwyr cofrestredig.

Mae’r Awdurdod yn gwario arian refeniw ar eitemau, a ddefnyddir fel rheol cyn pen y flwyddyn, a chyllidir hyn yn bennaf gan gyfraniadau’r deg awdurdod lleol cyfansoddol. Ar gyfer 2022/23, roedd y cyfrannau fel a ganlyn:

| | **Gwerthoedd £000** | **%** |
|---|---:|---:|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 3,548 | 4 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7,544 | 9 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 9,287 | 12 |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | 18,776 | 24 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3,107 | 4 |
| Cyngor Sir Fynwy | 4,871 | 6 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 8,067 | 10 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 12,385 | 16 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 4,801 | 6 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 6,918 | 9 |
| **Cyfanswm** (Nodyn 29) | **79,304** | **100** |


**Y perfformiad ariannol yn 2022/23**

Cyfyngodd yr Awdurdod y codiad yng nghyllideb 2022/23 i 2.29%, a oedd yn setliad heriol yn wyneb yr argyfwng chwyddiant yn y DU a ddigwyddodd rhwng gosod y gyllideb a dechrau'r flwyddyn ariannol. Fe wnaeth sawl ffactor ein galluogi i gynnal y setliad hwn h.y. incwm o ad-daliadau ardrethi, cydnerthedd ariannol a rheoli’r gyllideb yn effeithiol.

Mae'r perfformiad ariannol wedi'i nodi isod. Mae'r sefyllfa o ran refeniw a chyfalaf wedi'i chraffu gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a'r Grŵp Craffu ar Reoli Cyllid ac Asedau drwy gydol y flwyddyn.

| **Alldro’r gyllideb** | **Cyllideb £000** | **Gwirioneddol £000** | **Amrywiant £000** |
|---|---:|---:|---:|
| **Refeniw** | | | |
| Gwariant (Nodyn 5) | 83,537 | 87,856 | 4,319 |
| Incwm (Nodyn 5) | (4,233) | (8,657) | (4,424) |
| Gwariant net (Nodyn 5) | 79,304 | 79,199 | (105) |
| Awdurdod unedol (Nodyn 29) | 79,304 | 79,304 | 0 |
| (Gwarged) / diffyg | 0 | (105) | (105) |
| **Cyfalaf** (gan gynnwys llithriant) | | | |
| Gwariant cyfalaf (Nodyn 30) | 12,021 | 7,857 | (4,164) |

## Gwariant fesul math 2022/23





**DADANSODDIAD O WARIANT REFENIW AR GYFER 2022/23 (£000)**

Gwariant Cyfansymiol Gros 2022/23:
**87,856**

Incwm a dderbyniwyd 2022/23:
**(8,657)**

Gwariant Cyfansymiol Net 2022/23:
**79,199**

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn oedd £7.9 miliwn




**Benthyca**
Mae'r Cod Materion Ariannol yn caniatáu i'r Awdurdod bennu ei derfynau benthyca ei hun ar yr amod fod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn credu eu bod yn ddoeth, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae'r benthyciadau sy'n weddill yn ymwneud â chyllid a sicrhawyd gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys sydd ganddo, mae'r Awdurdod wedi parhau i ddefnyddio balansau arian parod i gyllido'r rhaglen gyfalaf, felly ni chafwyd unrhyw fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus eleni.

**Taliadau ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf**
Y tâl a godwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth i adlewyrchu costau'r asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau oedd £5.6 miliwn. Tâl tybiannol yw hwn am ddibrisiant ac amhariadau; gwneir addasiad i falans diwedd y flwyddyn i ddirymu'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol.

**Y perfformiad anariannol yn 2022/23**
Yn 2022/23, llwyddodd yr Awdurdod i ddarparu cydbwysedd rhwng gwasanaethau atal, amddiffyn ac ymateb brys, a pharhaodd yr amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn i ganolbwyntio ar leihau cynnau tanau'n fwriadol a gwella a sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth at y dyfodol.

Roedd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a dangosyddion y gwasanaeth, yn ogystal â chraffu ar y cardiau adrodd ar gynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion strategol.

Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi sylw i rai o'r gweithgareddau yr ymgerwyd â nhw wrth wneud De Cymru'n lle mwy diogel dros y deuddeg mis diwethaf - [Ystadegau perfformiad  Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru]

Mae mwy o wybodaeth ansoddol am wasanaethau ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn.

**Cynlluniau ariannol ar gyfer y dyfodol**
Ni fu'n bosibl ailadrodd y ffordd y gwnaed codiadau i'r gyllideb yn 2022/23 oherwydd yr argyfwng chwyddiant parhaus a'r ffaith bod amrywiol ffrydiau ariannu wedi dod i ben, h.y. y Cyfraniadau Pensiwn wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol (SCAPE) a Firelink. O ganlyniad, bu cynnydd cyfartalog o 12.70% i'r gyllideb refeniw a gafodd ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2023/24, gan godi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i £89.4 miliwn.

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio rhagor o bwysau ariannu, gan wneud yr her o gynhyrchu cyllideb gytbwys yn fwyfwy anodd wrth wynebu pwysau o ran chwyddiant a'r buddsoddi sy'n ofynnol i gynnal effeithiolrwydd gweithredol.

Mae'r rhaglen gyfalaf yn parhau i fuddsoddi yn ein portffolio asedau, yn enwedig adnewyddu gorsafoedd, adnewyddu cerbydau a buddsoddi mewn prosiectau offer gweithredol mawr, cyfarpar diogelu personol a TGCh. Mae ein buddsoddiad parhaus yn hanfodol i sicrhau bod gan ein personél yr offer gorau sydd ar gael a'u bod yn effeithiol wrth wasanaethu ein cymunedau.

**Rhwymedigaethau pensiwn**
Yn 2022/23, roedd 47 o ymddeoliadau system ar ddyletswydd amser llawn, 11 o ymddeoliadau gan aelodau o staff wrth gefn, ac 11 o ymddeoliadau a ohiriwyd.

O dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (Buddion Cyflogeion), mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu manylion yr asedau a'r rhwymedigaethau ar gyfer pensiynau sy'n daladwy yn y dyfodol i weithwyr – rhai cyfredol a rhai'r gorffennol. Amlinellir hyn mewn mwy o fanylder yn y datgeliadau i'r cyfrifon (Nodyn 34).

**Darpariaethau, hapddigwyddiadau a dileadau**
Mae'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau sy'n ddyledus i ddiffoddwyr tân ar alwad o ganlyniad i setliad amodau gweithwyr rhan amser yn parhau i fod mewn grym.

**Cyfrifyddu wrth gefn**
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos cronfeydd ariannol a ddygwyd ymlaen i 2022/23. Mae hyn yn gyson â thriniaeth gyfrifyddu'r blynyddoedd blaenorol, lle mae cynnal a defnyddio cronfeydd yn gonglfaen o ran sicrhau sefydlogrwydd ariannol corfforaethol a chynllunio gwasanaeth gweithredol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

**Effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol**
Mae gwahanol gadwyni cyflenwi yn parhau i fod yn heriol i'r Gwasanaeth ac nid ydynt wedi adfer i'r lefelau o sefydlogrwydd a welwyd cyn y pandemig a chyn Brexit. Rydym yn teimlo effeithiau'r rhyfel yn yr Wcráin a'r argyfwng chwyddiant yn yr economi, a'n gallu i ddenu cyflenwyr cystadleuol yn ein prosesau caffael, a hynny'n ogystal â phrofi mwy o anawsterau wrth reoli contractau. Rydym wedi mabwysiadu dulliau cyn-gontractio hyblyg yn ogystal â mabwysiadu dull cydweithredol o reoli contractau gydag adrannau y tu mewn i'r Gwasanaeth mewnol a chyda phartneriaid allanol. Mae gwaith dadansoddi effaith y gadwyn gyflenwi yn cael ei wneud yn rheolaidd, ac yn parhau, ac mae cysylltiadau â rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân yn hanfodol o ran rhannu gwybodaeth ar lefel genedlaethol er mwyn hybu dealltwriaeth.

Mae’r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi elusennau cenedlaethol, h.y. Fire Aid sydd, yn ei dro, yn darparu cefnogaeth i'n cymheiriaid ymladd tân yn Wcráin gyda rhoddion o gyfarpar diogelu personol diwedd oes ac offer gweithredol a chyfathrebu. Mae paratoadau wedi dechrau i gefnogi confoi rhoddion yn y flwyddyn ariannol newydd.

**Gwybodaeth ychwanegol**
Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo. Hefyd, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn y cwblheir yr archwiliad. Mae hysbysebion ar wefan yr Awdurdod yn nodi bod y cyfrifon ar gael i edrych arnynt (www.decymru-tan.gov.uk).

**Cydnabyddiaethau**
Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl staff yr adran Gyllid a'u cydweithwyr ar draws yr Awdurdod, a weithiodd i baratoi'r datganiadau hyn. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i'r Prif Swyddog Tân a'r cyfarwyddwyr corfforaethol am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol y broses hon.



**Chris Barton**
**Trysorydd**

**Dyddiedig: 31/5/2023**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei fusnes ariannol mewn modd priodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Trysorydd.
- rheoli ei fusnes i sicrhau y defnyddir adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol a diogelu ei asedau.
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Trysorydd**

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, gan gynnwys Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, yn unol â'r arferion priodol fel y'u hamlinellir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 ("y Cod").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- cydymffurfio â'r Cod ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Yn ogystal, mae'r Trysorydd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra

## TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD A CHADEIRYDD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

Tystiaf fod y cyfrifon yn rhoi argraff wir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.


**Llofnod: Trysorydd**



**Dyddiad:04/12/2023**

Cadarnhaf y cymeradwywyd y cyfrifon hyn gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

**Llofnod: Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**




**Dyddiad:04/12/2023**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN FIS MAWRTH 2023**

Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r cyfarwyddyd a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), sef y ‘Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da.” Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd ar gyfer llywodraethu da i sicrhau y cyfarwyddir adnoddau yn unol â pholisïau a blaenoriaethau cytunedig (Gweler Ffig. 1).

**Cysylltiadau rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da yn y sector cyhoeddus –** Cyflawni'r canlyniadau a fwriedir wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser.




Ffig. 1 Saith egwyddor llywodraethu da

## 1. Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (‘yr Awdurdod’) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a’r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol, a’i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae’n arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw i gymysgedd o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei fusnes a hwyluso'r gwaith o arfer ei swyddogaethau mewn modd effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Llywodraethu.

## 2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a’r prosesau, a’r diwylliant a’r gwerthoedd, y caiff yr Awdurdod ei arwain a’i reoli ganddynt, a’r gweithgareddau y mae’n atebol i’r gymuned, yn ymgysylltu â’r gymuned, ac yn arwain y gymuned drwyddynt. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae’r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o’r fframwaith hwnnw ac fe’i cynlluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd absoliwt o ran effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, i werthuso pa mor debygol ydyw y gwireddir y risgiau hynny, a'r effaith os ydynt yn cael eu gwireddu, ac i’w rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y Fframwaith Llywodraethu wedi bod ar waith yn yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.


## 3.Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn disgrifio elfennau allweddol o'r systemau a’r prosesau sy’n ffurfio trefniadau llywodraethu’r Awdurdod ac maent fel a ganlyn:

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n effeithiol, yn effeithlon ac yn atebol i'r cyhoedd.


Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau o’r deg awdurdod unedol a gwmpesir gan ardal wasanaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel y’i diffinnir yng Ngorchymyn Gwasanaethau Tân (Cynllun Cyfuno) 1995.

Mae’r Awdurdod wedi’i drefnu'n bwyllgorau sy'n cael eu penodi yn ystod y cyfarfod blynyddol. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl cynhwysfawr. Caiff gweithgorau eu pennu'n ad hoc pan fydd angen. (Gweler Ffig.2)




Ffig. 2 Pwyllgorau'r Awdurdod

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân, y cyfarwyddwyr a Thrysorydd yr Awdurdod, yn gyfrifol am yr arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a’r her gorfforaethol. Mae'r tîm uwch-reolwyr yn cynnwys yr un swyddogion a phenaethiaid gwasanaeth – gydag iwnifform a chorfforaethol – ac yn darparu arweinyddiaeth sefydliadol, her swyddogaethol a gwasanaethau.




Ffig. 3 Strwythur tîm uwch-reolwyr y gwasanaeth

Mae’r Prif Swyddog Tân hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, sy'n gyfrifol am sicrhau bod holl swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu cydlynu'n briodol yn ogystal â threfnu staff a phenodi rheolwyr priodol.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod mewn modd priodol, fel sy'n ofynnol gan adran 112 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac asesir trefniadau rheoli ariannol yr Awdurdod yn erbyn y gofynion llywodraethu a amlinellir yn Natganiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Sefydliadau Cyhoeddus (2009).

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yw'r Swyddog Monitro dynodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfedd â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig. Mae'n ofynnol iddo adrodd ar faterion y mae’n credu eu bod yn anghyfreithlon neu'n gyfystyr â chamweinyddu, i fod yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig a swyddogion, ac i fod yn gyfrifol am weithredu cyfansoddiad yr Awdurdod.

Dogfennau cyfansoddiadol – cafodd cyfansoddiad yr Awdurdod ei ailddrafftio yn 2022 a gellir ei weld ar ei wefan. Mae'r cyfansoddiad yn cynnwys rheolau sefydlog contractau, y cynllun dirprwyo i swyddogion a rheoliadau ariannol. Caiff y cyfansoddiad ei adolygu'n gyfnodol gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd, a bydd unrhyw newidiadau a nodir yn cael eu gwneud o dan awdurdod dirprwyedig neu'n cael eu hadrodd i'r Awdurdod i’w cymeradwyo.

Er mwyn darparu dull ymarferol o reolaeth weithredol a rheolaeth ariannol ar draws y sefydliad, mae’r Awdurdod wedi rhoi pwerau arbennig i swyddogion drwy ddirprwyo i swyddogion. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid cynnal rhestr o'r pwerau hyn, a chaiff hyn ei wneud gan y Swyddog Monitro, sy'n adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd. Mae unrhyw newidiadau angenrheidiol a nodir yn cael eu cyflawni o dan awdurdod dirprwyedig neu'n cael eu hadrodd i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Mae’r pwerau hyn yn rhan annatod o’r trefniadau llywodraethu ac fe’u hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2023. Gellir eu gweld ar dudalen 87 o’r ddogfen gysylltiedig hon.

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig cyfredol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2022/2023 a 2027/2028, ac mae'n gonglfaen i’r gwaith manwl o lunio’r gyllideb bob blwyddyn. Mae'n rhoi golwg ar gyllid posibl ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Cafodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei hadrodd i'r Awdurdod ar 26 Medi 2022, a gellir adolygu’r adroddiad ar y ddolen fideo hon. Fel arall, adroddwyd ar y papur hefyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ar 10 Hydref 2022, a gellir ei ddarllen ar dudalen 11 gan ddilyn y ddolen hon.

Mae'r strategaeth yn ystyried:

- Asesiad o setliadau grant posibl sydd heb eu neilltuo ac arenillion treth lleol ar gyfer cynghorau cyfansoddol ar sail y ffigurau gorau a gwaethaf a'r rhai a ragwelir.
- Gwybodaeth o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol a chyllideb refeniw'r flwyddyn gyfredol fel gwaelodlin.
- Safbwynt ar fynegeion perthnasol i'w cymhwyso i'r waelodlin.

- Cipolwg ar brosiectau trawsnewidiol a nodir ar hyn o bryd o fewn cyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Dull wedi'i gynllunio ar gyfer cronfeydd o ganlyniad i ragamcaniadau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Wrth Gefn.
- Safbwynt ar fylchau cyllido posib a dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer y rhain dros y cyfnod o dan sylw.
- Ystyrir hefyd yr hinsawdd economaidd bresennol a’r pwysau ariannol sydd ar bartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â'r amgylchedd ariannol cyffredinol y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu ynddo.

Y cynllun strategol – Mae'r diweddariad pedair blynedd ar y cynllun yn amlinellu'r cyfeiriad y mae'r sefydliad yn mynd iddo a sut yr ydym yn bwriadu ymdrin â'r heriau dros y cyfnod rhwng 2020 a 2030 er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau uchel eu hansawdd sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Mae perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y cynllun strategol a'r dangosyddion statudol yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ynghyd ag adroddiad cyffredinol sy'n cael ei adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod ac ar ein gwefan drwy'r ddogfen Cynllun Gwella Blynyddol: Beth wnaethom yn 2021-2022 a beth rydym yn cynllunio gwneud yn 2023-2024.

Y fframwaith cynllunio strategol – Ein gweledigaeth yw gwneud De Cymru'n mwy diogel drwy leihau risg. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy herio a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio, drwy weithlu diogel a chymwys, a thrwy reoli ein hadnoddau'n effeithiol, y gellir cyflawni cymunedau diogelach. Felly, gwnaethom osod cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad drwy ein cynllun strategol , sydd bellach yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd ac sy'n mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd â gofynion Dogfen Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2016, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, a chyfrifoldebau’r Gwasanaethau o fewn y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol 2021. Mae pob cyfarwyddiaeth ac adran yn ffurfio'i chynlluniau ei hun er mwyn ategu'r amcanion strategol, a adroddir yn chwarterol.

Y polisi rheoli risg – mae'r polisi yn amlinellu'r broses rydym yn ei defnyddio i nodi a rheoli'r ansicrwydd rydym yn ei wynebu, a all effeithio ar y gwaith o gyflawni ein hamcanion neu ein gweithgareddau. Mae uwch-reolwyr yn nodi, yn adolygu ac yn sgorio'r risgiau adrannol a strategol drwy asesu eu tebygolrwydd a’u heffaith, yn nodi unrhyw gamau gweithredu sydd ar waith ac unrhyw gamau eraill sydd y mae angen eu cymryd i atal y risg rhag digwydd neu i liniaru'r effaith os yw’n digwydd. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn a chânt eu monitro ac adroddir amdanynt yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd cynllunio'r tîm uwch-reolwyr. Caiff risgiau strategol eu hadrodd i Bwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yr Awdurdod. Mae risgiau ariannol penodol yn cael eu nodi a'u rheoli o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r gyfundrefn gyfrifo rheolaeth.

Mae'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a'r Grŵp Craffu yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr Awdurdod a gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol. Yn 2022-2023, ystyriodd y Grŵp Craffu risgiau strategol y Gwasanaeth yn y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2022, a gellir ei wylio drwy ddilyn y ddolen fideo hon. Bu’r

Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad hefyd yn ystyried risgiau adrannol ar 6 Chwefror 2022 a gellir gwylio'r cyfarfod drwy ddilyn y ddolen fideo hon. Adolygwyd y risgiau adrannol hefyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ar 13 Mawrth 2023, gellir gweld yr adroddiad ar y ddolen hon.

Mae trefniadau sefydlog ar waith ar gyfer rheoli arian yn effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Awdurdod, systemau ariannol allweddol a'r Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyllidebau sefydlog ac adrodd i aelodau'r Awdurdod yn rheolaidd, a chymharu refeniw a gwariant cyfalaf gwirioneddol â chyllidebau blynyddol. Mae trefniadau rheoli trysorlys yr Awdurdod yn dilyn arferion proffesiynol ac fe'u hadolygir yn flynyddol gan aelodau. Adolygir rheolaethau ariannol allweddol yn flynyddol fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol blynyddol. Yn ogystal, mae mabwysiadu cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r dadansoddiad o fylchau cysylltiedig a'r cynllun gweithredu yn gwella cadernid y rheolaethau hyn ymhellach.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau eraill wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau a dyfarnu contractau ar draws y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau gwrth-dwyll ar waith a threfniadau chwythu'r chwiban, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan swyddogion. Mae gweithdrefnau cytunedig i fodloni gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio, ac mae staff allweddol wedi cael hyfforddiant ar gymhwyso'r rheoliadau hyn yn ddiweddar.

Mae'r gwaith o gynnal archwiliadau mewnol wedi'i allanoli i sefydliad allanol yn y sector preifat, sy'n gweithio'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sy'n berthnasol i holl ddarparwyr gwasanaethau archwilio mewnol yng Nghymru. Cytunir ar y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, sy'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar yr archwiliadau a gynhaliwyd ynghyd ag adroddiad blynyddol gan y darparwr.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol yr Awdurdod, gyda'r archwiliad yn cael ei ddarparu gan Archwilio Cymru. Mae'n darparu her o dan Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio. Mae'n cyhoeddi adroddiadau neu ddatganiadau blynyddol ar berfformiad yr Awdurdod er mwyn gwneud y canlynol:

- Archwilio ac ardystio a yw'r datganiadau ariannol yn wir ac yn deg
- Asesu a wnaed trefniadau cywir i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- Archwilio ac asesu a yw dyletswyddau a gofynion y Mesur wedi cael eu bodloni.
- Ymgymryd ag astudiaethau i hwyluso argymhellion ystyriol ar gyfer gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru'n cyflwyno’u cynllun archwilio i aelodau yn flynyddol ac yn adrodd ar gynnydd a chanlyniadau iddynt yn rheolaidd. Cyhoeddir pob adroddiad ar wefan Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).

Mae'r Datganiad Polisi Cyflogau blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Cafodd hwn ei adolygu yn ystod y cyfarfod AD a Chydraddoldeb ar 27 Chwefror 2023 a gellir ei ddarllen drwy ddilyn y ddolen hon (tudalen 9). Cafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ystod y cyfarfod ar 27 Mawrth 2023 – tudalen 31 wrth ddilyn y ddolen hon. Yn dilyn adolygiad tâl annibynnol o dâl Prif Swyddogion (tudalen 57 wrth ddilyn y ddolen hon), cytunodd yr Awdurdod y byddai adolygiad o gyflog Prif Swyddogion yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan ymgynghorydd allanol am gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau yn 2022, ac y byddai adolygiad yn dilyn hynny.

Telir lwfansau aelodau yn unol ag argymhellion y Panel Annibynnol ar Daliadau Cydnabyddiaeth a chânt eu cyhoeddi yn unol â'i ofynion.

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017 (Rheoliadau'r Sector Cyhoeddus), mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy adrodd am y gwahaniaethau canrannol mewn cyflog rhwng ei gyflogeion gwrywaidd a benywaidd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi'r wybodaeth ofynnol, o fewn 12 mis, ar sail y cipolwg ar ddata a gasglwyd ar 31 Mawrth 2022. Yn unol â hyn, cyhoeddodd yr Awdurdod yr wybodaeth hon cyn y dyddiad cau. Gellir gweld Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yma.

Mae holl ddefnyddwyr offer TGCh yr Awdurdod yn defnyddio offeryn derbyn ar-lein y mae'n rhaid i unigolion fynd drwyddo cyn defnyddio cyfleusterau'r rhyngrwyd, gan gytuno i bolisïau TGCh y sefydliad.

Mae datganiadau partïon cysylltiedig yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gan aelodau ac uwch-swyddogion yr Awdurdod yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn helpu i ganfod trafodion a balansau fel sy'n ofynnol gan y safon gyfrifyddu berthnasol (Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig) ac yn helpu i nodi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig.

## 4. Sicrwydd Llywodraethu'r Awdurdod yn Cyd-fynd ag Egwyddorion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

Mae’r adran ganlynol yn rhoi trosolwg byr o’r sicrwydd llywodraethu a roddwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2022-2023. Er y gall maen prawf gael ei ddyrannu o dan egwyddor benodol, mae sawl achlysur pan fydd yr un meini prawf yn cyfrannu at fwy nag un maen prawf.

**Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.**

**Gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd** – Cyhoeddir gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y Gwasanaeth yn y Cynllun Strategol ac ar wefan y Gwasanaeth. Dyma sylfaen y prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y Gwasanaeth (dolen).

**Y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gwella** - Cafodd Cynllun Strategol deng mlynedd y Gwasanaeth (dolen) ei gyhoeddi yn 2019.Mae'n nodi nodau ac ymrwymiadau'r Gwasanaeth dros y tymor hwy, ac mae diweddariad iddo'n cael ei gyhoeddi yn flynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn (dolen) i Gam 1 y Cynllun Gwella). Mae hwn yn manylu ar yr Amcanion Gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyhoeddir y Cynllun Gwella bob mis Hydref ac mae'r Gwasanaeth yn cyhoeddi Cam 2 ei Gynllun Gwella dros gyfnod o 12 wythnos rhwng mis Hydref a mis Ionawr. Mae'r Gwasanaeth yn ymgynghori ar yr Amcanion Gwella a Llesiant arfaethedig (dolen).

**Y cyfansoddiad** – Mae cyfansoddiad yr Awdurdod ar gael ar wefan y Gwasanaeth (dolen) ac mae'n esbonio sut mae'r Awdurdod yn gweithredu a sut mae'n gwneud penderfyniadau. Mae'r cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub, a'i bwyllgorau, ac mae'n cynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (adran 11.7). Diwygiwyd y cyfansoddiad yn 2022 ar ôl cyhoeddi'r cyfansoddiad enghreifftiol terfynol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae canllaw cyfansoddiad hawdd ei ddarllen ar gael hefyd.

**Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau** – Mae'n cael ei gyhoeddi yn adran 16 y cyfansoddiad, ac yn amlinellu'r ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau. Mae hyn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau (dolen).

**Y Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion (Staff)** –Mae'n cael ei gyhoeddi yn adran 17 o'r cyfansoddiad ac mae'n amlinellu'r ymddygiadau a'r ffordd o ymddwyn a ddisgwylir gan swyddogion (pob aelod o staff dolen).

**Y broses gwyno** – mae gan y Gwasanaeth weithdrefn ar gyfer cyflwyno ac ymateb i unrhyw gwynion a wneir.

**Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig** – mae'r Prif Swyddog Tân yn gyfrifol am sicrhau bod holl swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu cydlynu'n briodol yn ogystal â threfnu staff a phenodi rheolwyr priodol.

**Swyddog Adran 112(2)** – Enwau eraill y swyddog hwn yw'r Prif Swyddog Ariannol neu'r Trysorydd, ac mae'n cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Adran. Mae Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol a phenodi Swyddog Adran 112(2) i fod yn gyfrifol am y trefniadau hynny. Mae'r Trysorydd yn aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o wneud penderfyniadau.

**Y Swyddog Monitro** – Mae gan y swyddog hwn ddyletswydd benodol i sicrhau bod yr Awdurdod, ei swyddogion ac aelodau etholedig yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf. Mae gan Swyddog Monitro'r Awdurdod hefyd ddyletswydd benodol i adrodd am faterion y mae'n credu eu bod, neu'n debygol o fod, yn anghyfreithlon neu'n

gyfystyr â chamweinyddu. Mae'r Swyddog Monitro felly yn sicrhau cyfreithlondeb a thegwch penderfyniadau'r Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng swyddogion ac aelodau, a chofnodi a chyhoeddi'n ffurfiol y broses o wneud penderfyniadau democrataidd.

**Lleihau'r risg o dwyll** – Mae polisïau allweddol ar waith i atal a lleihau'r risg o dwyll. Ymhlith y polisïau mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban, y Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd , y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contract. Pan amheuir camwedd, mae trefniadau ar waith i sicrhau y cynhelir ymchwiliad trylwyr iddo.

**Cyngor cyfreithiol** – Pan geisir cyngor cyfreithiol priodol yn ystod y prosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr Awdurdod a'r Gwasanaeth.
**Disgyblaeth** – Cynhelir ymchwiliad i bob honiad o gamwedd yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r Gwasanaeth sy'n cydymffurfio ag arferion gorau ACAS.

**Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol** – mae'r Gwasanaeth yn cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u monitro drwy gydol y flwyddyn (dolen).

**Moesegol** – Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd foesegol drwy ystyried ei werthoedd yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i gaffael mewn modd cynaliadwy a moesegol, gan brynu cynnyrch lleol pan fo hynny'n bosibl a sicrhau bod mesurau diogelu rhag caethwasiaeth fodern ar waith gyda'r holl gyflenwyr.

**Cyflogwr Cyflog Gwaith** – Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar hyn o bryd yn talu cyflog i weithwyr sydd uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac wedi ymrwymo i ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig.

**Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.**

**Y Fframwaith a'r Cylch Cynllunio Corfforaethol** – Mae gan y Gwasanaeth fframwaith a chylch cynllunio corfforaethol sefydledig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae rhan o'r cylch hwn yn cynnwys cyfnod cyn-ymgysylltu ynghylch yr amcanion gwella sydd i'w cynnig yn nogfen mis Hydref.

**Y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** – Mae'r strategaeth hon yn amlinellu dull y Gwasanaeth o gyfathrebu, gan gynnwys trosolwg o'r prif randdeiliaid a'r mecanwaith mwyaf priodol i sicrhau dulliau effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â grwpiau targed allweddol.

**Mynediad i gyfarfodydd a gwybodaeth** – Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cael eu hysbysebu ac ar agor i'r cyhoedd. Mae pob cyfarfod bellach ar gael mewn sawl lleoliad lle gall rhai cyfranogwyr fod yn lleoliad y cyfarfod yn gorfforol tra bod eraill yn ymuno o'u cartref neu leoliad anghysbell arall. Diffinnir hyn yn y cyfansoddiad (dolen). Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth (dolen). Mae agendâu a phapurau ar gael ar wefan y Gwasanaeth (dolen).

**Ymrwymiad i fod yn agored** – mae'r Gwasanaeth yn dangos hyn drwy'r canlynol:

- adroddiadau wedi'u cyhoeddi'n agored a'u darparu i'r Awdurdod Tân ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- cwblhau asesiadau o'r effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol
- proses gwyno'r Gwasanaeth
- ymgysylltu rheolaidd drwy gyfarfodydd wedi'u rhaglennu ac ymgysylltu ad hoc â holl grwpiau'r gynrychiolwyr gweithwyr
- polisi chwythu'r chwiban y Gwasanaeth

**Ymgysylltu â'r cyhoedd** – Mae'r dulliau y mae'r Gwasanaeth yn eu defnyddio yn cynnwys y canlynol:

- cyfathrebu cyfeiriedig gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar sawl platfform o'r cyfryngau cymdeithasol; ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Phoenix; cadetiaid tân ac ymweliadau ag ysgolion
- ymgysylltu â deiliaid tai a busnesau ynghylch diogelwch yn y gymuned
- digwyddiadau gweithredu cadarnhaol fel Fire Fit ar gyfer recriwtio diffoddwyr tân
- presenoldeb mewn diwrnodau / digwyddiadau agored – er enghraifft, yr Eisteddfod a phenwythnos 999

**Cyfathrebu mewnol** – Mae dulliau'n cynnwys y canlynol:

- cyhoeddiadau Routine Notice (wythnosol), Cylchlythyr Shout (misol), ac adolygiad blynyddol Spark
- Cyfleoedd i staff. Mae trafodaethau'n cynnwys fforymau ymgysylltu gweiddi, ymweliadau'r prif swyddogion â gorsafoedd ac adrannau, digwyddiadau uwch arweinwyr canol (a gynhelir gan y Prif Swyddog Tân) a digwyddiadau i arweinwyr canol er mwyn rhannu syniadau a dysgu ac i drafod materion cyfredol a pharhaus
- Negeseuon e-bost gyda'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth am y Gwasanaeth yn cael eu hanfon yn unigol at yr holl staff.

**Ymgyrchoedd yn y cyfryngau a chyfathrebu** – Mae ein hymgyrchoedd yn y cyfryngau cyhoeddus yn cael eu harwain gan y timau priodol ar draws y Gwasanaeth ac yn cael eu cyflawni ar y cyd â'n tîm Cyfryngau a Chyfathrebu. Rydym yn cydweithio'n rheolaidd â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru i ddatblygu a chyflawni ymgyrchoedd.

**Trefniadau partneriaeth** –Maent ar waith ar gyfer Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, a'u his-grwpiau dilynol, ac aelodaeth o'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd drefniadau partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus a brys eraill, gan gynnwys ymarferion hyfforddi ar y cyd.

**Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Ddeddf ac mae'n parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio'r holl Gynlluniau Llesiant Lleol, sy'n cynrychioli cymunedau De Cymru.

**Cynllunio strategol** – Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd proses cynllunio strategol y Gwasanaeth. Mae'r broses yn dechrau gyda dadansoddiad PESTLE (effaith ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol), ac yn cynnwys gwaith ymgysylltu sylweddol â staff, partneriaid, a'r cyhoedd i sicrhau bod blaenoriaethau'r Gwasanaeth yn cyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd, ac anghenion partneriaid a chymunedau, ac mae llesiant ein cymuned wrth eu gwraidd.

**Cynllunio ariannol** – Mae gan y Gwasanaeth Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Cyfalaf a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig cadarn sy'n cael eu hadolygu a'u craffu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a hwyllgorau llawn yr awdurdod tân. Mae rheolaethau ariannol allweddol y Gwasanaeth yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

**Cynaliadwyedd** – Mae'r Gwasanaeth wedi cyhoeddi ac adolygu ei Gynllun Bioamrywiaeth a Lleihau Carbon. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi ymrwymo i wella'i seilwaith cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni – o ddefnyddio cerbydau trydan gyda mannau gwefru addas ar safleoedd, i annog staff i ddatblygu ardaloedd llesiant bioamrywiol, gan wella bioamrywiaeth ein safleoedd mewn ffyrdd cynaliadwy.

**Parhad busnes** – Drwy gydol pandemig COVID-19 ac yn ystod y gwaith cynllunio diweddar ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl, mae'r Gwasanaeth wedi dangos ei ymrwymiad a'i gymhwysedd i ddatblygu a chynnal trefniadau parhad busnes addas.

**Diogelu** –Mae gan y Gwasanaeth bolisi a gweithdrefn diogelu ar waith i gyfeirio pobl agored i niwed y mae'r Gwasanaeth yn eu cyfarfod at asiantaethau eraill.

**Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.**

**Llywodraethu a chraffu** – Mae'r llywodraethu a'r craffu a ddarperir gan yr aelodau etholedig, y pwyllgorau cysylltiedig a gweithgorau'r Gwasanaeth yn sicrhau bod prosesau asesu argymhellion swyddogion, a'r perfformiad a'r canlyniadau y mae'r Gwasanaeth y wedi'u cyflawni, yn cael eu hasesu'n gadarn. Yn ogystal, mae aelod-hyrwyddwyr yn darparu craffu a her pwnc-benodol mewn sawl maes.

**Adrodd ar berfformiad** – Cyflwynir adroddiadau perfformiad a monitro i'r awdurdod tân yn rheolaidd. Mae gan yr Uwch-dîm Rheoli amserlen fisol o fesurau sicrwydd sy'n cael eu hadolygu a'u craffu'n fewnol. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau cynnydd a monitro perfformiad ar berfformiad gweithredol, dangosyddion strategol, a pherfformiad ariannol ymhlith eraill.

**Rhaglenni archwilio mewnol ac allanol** – mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn rhaglenni archwilio mewnol ac allanol rheolaidd. Drwy adrodd a chraffu'n rheolaidd ar berfformiad archwiliadau, a monitro cyflawniad yn erbyn amau

archwiliadau, sicrheir bod y Gwasanaeth yn parhau i wella'n. Ceir tystiolaeth o hyn mewn tystysgrifau cydymffurfedd gan Archwilio Cymru.

**Cynlluniau strategol** – Mae'r Gwasanaeth yn datblygu nifer o gynlluniau strategol, gan gynnwys y Cynllun Strategol, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Bioamrywiaeth a Lleihau Carbon, ac yn cyflawni yn eu herbyn. Defnyddir y system gwybodaeth rheoli busnes BMIS i fonitro a chofnodi cynnydd yn erbyn y cyflawniadau hyn.

**Egwyddor H: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn.**

**Y cyfansoddiad** – Fel y disgrifir yn Egwyddor A, defnyddir y cyfansoddiad fel y ddogfen arweiniol i lywio gwaith yr awdurdod yn ogystal â disgwyliadau o ran ymddygiad aelodau a swyddogion.

**Model arweinyddiaeth yr NFCC (Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân)** – Mae wedi'i fabwysiadu gan y Gwasanaeth fel sail i'r broses adolygu personol a'r fframwaith ar gyfer y llwybrau a datblygiad proffesiynol parhaus.

**Hyfforddiant, datblygiad a sefydlu** – Mae cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i aelodau a swyddogion fel ei gilydd drwy gydol eu hamser gyda'r Gwasanaeth. Mae rhaglenni sefydlu rhagweithiol ar gael i bawb, a rhaglenni llwybr yn ogystal â phecynnau dysgu a datblygu ar-lein.

**Iechyd a llesiant** – Mae'r Gwasanaeth yn deall pa mor bwysig yw iechyd a llesiant i staff gweithredol a chorfforaethol fel ei gilydd. Mae digwyddiadau heriol a fynychir gan staff gweithredol yn cael eu nodi, a chynhelir rhaglen ragweithiol o weithgareddau ar ôl y digwyddiad i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae gan y Gwasanaeth Grŵp Cyflawni Llesiant, sy'n benodol yn rhoi mesurau a rhaglenni cefnogol ac ataliol ar waith i gefnogi'r holl staff.

**Iechyd galwedigaethol** – Mae'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gynigir i'r holl staff yn cwmpasu darpariaethau iechyd corfforol a meddyliol drwy gydol eu gyrfa yn y Gwasanaeth. Mae hyn yn amrywio o archwiliadau meddygol cyn cyflogaeth, monitro cyflwr meddygol yn rheolaidd, archwiliadau meddygol LGV ar gyfer staff sydd eu hangen ar gyfer eu rôl. Mae gwasanaethau cwnsela ar gael i bawb sydd eu hangen hefyd, yn ogystal â gwasanaeth a dargedir er mwyn rhoi cymorth ar ôl digwyddiad argyfyngus, a gwasanaeth monitro ar ôl amlygiad i ddigwyddiad.

**Iechyd a ffitrwydd** –Yn ogystal â'r uchod, mae gan y Gwasanaeth gyfleusterau campfa ar bob safle fel y gall staff reoli eu lefelau ffitrwydd. Mae ymgynghorwyr iechyd a ffitrwydd y Gwasanaeth yn cefnogi'r holl staff gyda'u nodau ffitrwydd, o gynnal profion ffitrwydd rheolaidd ar gyfer staff gweithredol i gynnig cyngor ffitrwydd i staff corfforaethol. Maent hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad maeth yn ogystal â chynnal sesiynau ymarfer corff wythnosol a gyhoeddir mewn hysbysiadau arferol.

**Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.**

**Swyddogion statudol –** Fel y crybwyllwyd yn Egwyddor A, mae gan y swyddogion statudol (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro) rôl allweddol i'w chwarae mewn rheoli risgiau, perfformiad a sicrhau rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref. Mae trysorydd yr awdurdod yn annibynnol ar Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ac mae hynny'n gwella cadernid y broses o reoli cyfrifon.

**Adrodd ar berfformiad –** Fel y crybwyllwyd yn Egwyddor B.

**Llywodraethu a Chraffu –** Fel y crybwyllwyd yn Egwyddor D.

**Trefniadau archwilio mewnol ac allanol –** Fel y crybwyllwyd yn Egwyddor D, yn benodol o ran archwilio cyfrifon yn allanol.

**Hyfforddiant, datblygiad a sefydlu –** Fel y crybwyllwyd yn Egwyddor D. Sicrhau bod gan y Gwasanaeth staff hyfforddedig a chymwys.

**Rheoli risg** – Mae'r broses rheoli risg, sy'n nodi, monitro a rheoli risgiau ar sail strategol ac adrannol, yn galluogi'r Gwasanaeth i nodi problemau ymlaen llaw a rhoi strategaethau rheoli risg ar waith i reoli, lliniaru a monitro risgiau.

**Polisïau gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban –** Mae gan y Gwasanaeth Swyddog Twyll penodedig, yn ogystal â pholisïau gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban cadarn a sefydledig. Yn ogystal, mae disgwyliad a gofyniad ar swyddogion ac aelodau i gofrestru datganiadau o fuddiant, ffurflenni partïon cysylltiedig a phroses adrodd lletygarwch M10, yn ôl yr angen.

**Rheolau gweithdrefnau ariannol** – Mae'r rhain, gan gynnwys y fframweithiau caffael, y broses dendro a, pan fo angen, yr angen eithriadol i gymeradwyo eithriadau, yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn fanwl.

**Gwybodaeth a diogelu data –** mae gan y Gwasanaeth brosesau a pholisïau sydd wedi'u diffinio'n glir ar reoli gwybodaeth a diogelu data. Mae'r Grŵp Risg Diogelwch yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn asesu risgiau posibl i'r Gwasanaeth yn barhaus. Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn protocolau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

**Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

**Mynediad i wybodaeth** – Mae holl gyfarfodydd yr awdurdod tân yn cael eu dogfennu gydag agenda a chofnodion, yn ogystal â rhoi fideos o'r cyfarfodydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth er mwyn i'r cyhoedd allu craffu arnynt.

**Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol** – Mae'r datganiad hwn, ynddo'i hun, yn dystiolaeth o sut mae'r Gwasanaeth yn gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

**Llywodraethu a chraffu** – Fel y disgrifir yn Egwyddor D.

**Adrodd ar berfformiad** – Fel y disgrifir yn Egwyddor D.

**Rheolau gweithdrefnau ariannol –** Fel y disgrifir yn Egwyddor F.

**Polisïau Gwrth-dwyll, Gwrth-lwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban –** Fel y disgrifir yn Egwyddor F.

## 5. Adolygiad o effeithiolrwydd

Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith y Tîm Arwain Gweithredol o fewn y Gwasanaeth, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a gwaith ac adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol.

**Rhaglen archwilio ac adroddiadau archwilwyr allanol – Archwilio Cymru**

| Adroddiad | Dolen | Dyrannwyd |
|---|---|---|
| Cydnerthedd Seiber yn y Sector Cyhoeddus | DDIM I'W GYHOEDDI | Rhagfyr 2022 |
| Archwiliad o Asesiad Awdurdod Tân ac Achub De Cymru o Berfformiad 2021-22 | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dolen | Rhagfyr 2022 |
| Archwilio Cymru – Tystysgrif cydymffurfedd ar gyfer yr Archwiliad o Gynllun Gwella 2022-23 Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dolen | Gorffennaf 2022 |
| Llythyr Archwilio Terfynol Archwilio Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dolen | Gorffennaf 2022 |
| Lleihau Allyriadau Carbon | Archwilio Cymru dolen | Ebrill 2022 |
| Ymholiadau Archwilio Cymru i'r 'Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu' – Ymateb Drafft | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dolen | Chwefror 2022 |
| Crynodeb Archwilio Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2022 | dolen | Chwefror 2022 |
| Adroddiad Archwilio Cymru – Cydweithio rhwng Gwasanaethau Brys | Archwilio Cymru dolen<br>Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad<br>Fideo o gyflwyniad gan Archwilio Cymru dolen | Ionawr 2022 |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 | Archwilio Cymru dolen | Ionawr 2022 |

| Adroddiad | Dolen | Dyrannwyd |
|---|---|---|
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Adroddiad Cydnerthedd Corfforaethol | Archwilio Cymru dolen | Tachwedd 2021 |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2019 | Archwilio Cymru dolen | Mai 2021 |

**Rhaglen Archwilio ac Adroddiadau Archwilwyr Mewnol**

| Archwiliad | Asesiad cyffredinol | Dolen | Dyrannwyd |
|---|---|---|---|
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Sicrwydd rhesymol | dolen | Chwefror 2023 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reoli Adnoddau Dynol – Hyfforddiant | Sicrwydd sylweddol | dolen | Chwefror 2023 |
| Risg 203 – Risg Seiber – Mae ymosodiad seiber yn effeithio ar wasanaethau TGCh | Sicrwydd rhesymol | dolen | Chwefror 2023 |
| Rhestru | Sicrwydd rhesymol | dolen | Chwefror 2023 |
| Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol Dangosol 2022-2023 | Bodlon | dolen | Chwefror 2023 |
| Ymweliadau Gorsaf | Sicrwydd sylweddol | dolen | Mawrth 2022 |
| Rheolaethau Lliniarol | Sicrwydd sylweddol | dolen | Mawrth 2022 |
| Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-2022 | Bodlon | dolen | Mawrth 2022 |
| Adroddiad cryno ar Reolaethau Ariannol Allweddol | Sicrwydd rhesymol | dolen | Chwefror 2022 |
| Cynllun Buddion Marwolaeth Mewn Gwasanaeth | Sicrwydd rhesymol | dolen | Chwefror 2022 |
| Adolygiad Sicrwydd o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2021-22 | Sicrwydd Sylweddol | dolen | Chwefror 2022 |

**Adroddiadau'r Cynghorydd Tân**

| Adroddiad | Dolen | Dyrannwyd |
|---|---|---|
| Adolygiad Thematig o Hyfforddiant Gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru – Hydref 2022 | Adroddiad y Cynghorydd Tân dolen<br>Argymhellion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dolen | Hydref 2022<br>Mawrth 2023 |
| Ehangu Rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru – Gallu'r Gwasanaeth Tân ac Achub – Adolygiad Thematig. | Adroddiad y Cynghorydd Tân dolen<br>Argymhellion Awdurdod Tân ac Achub De Cymru dolen | Ebrill 2022<br>Mawrth 2023 |

Mae'r prosesau rheolaidd a pharhaus sydd wedi cael eu cymhwyso i gynnal, adolygu a gwella effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys:

- sicrhau bod y swyddog sy'n gyfrifol a'r Tîm Uwch-reolwyr yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd.
- Sicrhau bod y Swyddog Monitro a'r Trysorydd, yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu moesegol. Cafodd y rhain eu diweddaru ddiwethaf ym mis Mawrth 2023.
- Mae'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn craffu ar refeniw a gwariant cyfalaf yn rheolaidd yn erbyn y gyllideb ddyranedig ynghyd â chraffu'n rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Strategol.
- Mae uwch-swyddogion yn adolygu risgiau sefydliadol yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i aelodau drwy'r Awdurdod a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad.
- Mae'r Awdurdod yn cael adroddiadau blynyddol gan bob un o'i bwyllgorau, gan gynnwys y Grŵp Craffu, sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i'r aelodau herio a chraffu ar unrhyw faes sydd angen sylw yn eu barn nhw. Cyflwynir adroddiadau cyfarwyddiaeth hefyd i'r Grŵp Craffu.
- Mae'r archwilydd mewnol penodedig yn darparu barn i'r Awdurdod, drwy ei Bwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau risg y sefydliad. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cadarnhau'r canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

**Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol**

***"BARN FLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL TIAA yw ei fod yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru brosesau rhesymol ac effeithiol ar waith mewn perthynas â rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Barn ddangosol yw hon ac fe gaiff ei diweddaru p fydd yr holl adroddiadau archwilio wedi'u cyhoeddi fel rhai terfynol. Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig, ac nid yw'n farn ar yr holl elfennau o'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol, y mae'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru eu cael drwy ei wahanol ffynonellau sicrwydd."***

Gellir gweld hyn ar dudalen 68 o bapurau'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 13 Mawrth 2023, sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen hon.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod, drwy Lythyr Archwilio Terfynol Archwilio Cymru. Adroddwyd ar hyn i Bwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yr Awdurdod ar 10 Hydref, a gellir ei weld ar dudalen 123 drwy ddilyn y ddolen hon. Yn y ddogfen hon, dyddiedig 28 Gorffennaf 2022, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn datgan:

***"Rwy'n falch o allu rhoi gwybod ichi bod yr archwiliad o gyfrifon eich Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 wedi'i***

***gwblhau. Nid wyf wedi gorfod cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004."***

Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2022 Archwilio Cymru i'r Awdurdod Tân ar 13 Chwefror 2023, a gellir ei weld ar dudalen 199 drwy ddilyn y ddolen hon Mae'n datgan:

Ar gyfer 2021-22:

- ***y rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 26 Gorffennaf 2022, pum niwrnod cyn y terfyn amser statudol.***
- ***roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac yn gyson â'n gwybodaeth am yr Awdurdod.***
- ***roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 1 Mehefin 2022 yn dda.***
- ***o ganlyniad i'n gwaith archwilio, gwnaed nifer fach o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod, a chafodd y rhain eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Gorffennaf 2022.***
- ***cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi'i gwblhau."***

Yn ogystal, mewn perthynas â gwelliant parhaus, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

***"Tystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliant ac mae'n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2021-22."***

Mae prosesau llywodraethu corfforaethol wedi gweithredu fel y bwriadwyd drwy gydol y flwyddyn, a cheir crynodeb ohonynt isod:

| Materion a nodwyd | Perfformiad yn 2022-2023 |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol gan y Swyddog Adran 127 neu'r Swyddog Monitro | Dim wedi'u cyhoeddi. |
| Materion a nodwyd gan argymhellion yr Awdurdod neu'r Swyddog Monitro | Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol nac achosion o dorri ymddygiad swyddogion wedi digwydd. |
| Twyll profedig a gyflawnwyd gan aelodau o staff | Dim. |
| Defnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio | Nid oedd unrhyw geisiadau am awdurdodiadau RIPA yn 2022-2023, ac nid oedd unrhyw awdurdodiadau blaenorol yn parhau i 2022-2023. |
| Cwynion a chanmoliaeth a gafwyd gan aelodau'r cyhoedd | Cafwyd cyfanswm o 66 o gwynion yn 2022-2023 (hyd at 31 Mawrth 2023)<br>Cafwyd cyfanswm o 84 o lythyrau o ddiolch yn ystod 2022-2023 (hyd at 27 Mawrth 2023). |
| Nifer yr achosion chwythu'r chwiban | Roedd dau achos sy'n gymwys fel eitemau chwythu'r chwiban yn ystod 2022-2023. |
| Adolygiad annibynnol | Ar 12 a 13 Rhagfyr 2022, adroddodd erthygl newyddion ymchwiliol gan ITV ganlyniadau dau achos disgyblaeth hanesyddol yr oedd y Gwasanaeth wedi ymchwilio iddynt yn flaenorol. Mewn ymateb i'r erthygl newyddion annifyr hon, comisiynodd y Prif Swyddog Tân adolygiad annibynnol o'r canlynol:<br><br>• diwylliant y Gwasanaeth<br>• prosesau disgyblu<br>• achosion hanesyddol pan fo gweithwyr wedi methu â chynnal ein gwerthoedd a safonau proffesiynol<br><br>Mae panel annibynnol wedi penodi Fenella Morris KC yn gadeirydd annibynnol i arwain adolygiad y Gwasanaeth. Mae Fenella Morris KC yn rhagweld y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2023. |

## 6. Sut y Gwnaethom Ymdrin â Phroblemau a Heriau Llywodraethu Sylweddol ar gyfer 2022-2023

Cynhaliodd y Gwasanaeth ei ymateb i endemig COVID-19 drwy barhau i gynnal cyfarfodydd Adolygu COVID-19 rheolaidd. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi datblygu a chynnal amserlen gofalus o wneud penderfyniadau, gan ddogfennu a chofnodi'r newidiadau i reoliadau a chanllawiau'r llywodraeth a'r penderfyniadau dilynol a wnaed o fewn y Gwasanaeth i sicrhau cofnod cywir o weithgareddau hwyluso dysgu strwythuredig i'r hirdymor. Bydd hyn hefyd yn darparu sylfaen dystiolaeth sylweddol i gefnogi'r ymchwiliad cyhoeddus sydd ar y gweill.

Cynhaliwyd y cynllun risg COVID-19 strategol benodol a pharhaodd y Gwasanaeth i roi tasgau rheoli cysylltiedig ar waith, a'u monitro. Drwy'r camau a gymerwyd, gwnaethom sicrhau ein bod yn parhau i liniaru effeithiau'r endemig ar y gwasanaeth a pharhau a'i waith yn ein cymunedau ehangach. Pontiodd y Gwasanaeth tuag at ymateb a gweithredu mewn amgylchedd COVID-19

Roedd y buddsoddiad sylweddol a wnaed ym mhob lleoliad y Gwasanaeth i alluogi pobl i weithio o bell, ac i hwyluso gwell ymgysylltiad â gorsafoedd a phartneriaid drwy ddefnyddio offer fideo-gynadledda, wedi parhau i fod yn effeithiol. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn parhau i gyflawni gwelliannau a helpu'r Gwasanaeth i ddatblygu. Mae cyflwyno Office 365 wedi gwella trefniadau gweithio o bell, rheoli data a chydweithio mewnol ymhellach, gan wella'r gallu i gysylltu ymhlith holl leoliadau'r Gwasanaeth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yr Awdurdod mewn dull hybrid, gan gyfuno presenoldeb mewn person a phresenoldeb rhithwir gan ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda. Cawsant eu recordio er mwyn eu cyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth a gellir eu gweld drwy ddilyn y ddolen hon. Mae'n dal i fod yn wir bod gweithio o bell yn ffordd ddichonadwy, cost-effeithiol a chynaliadwy o weithredu'r Awdurdod. Yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, pennwyd y câi'r Awdurdod Tân ac Achub, yn barhaol, gynnal presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, a rhoddwyd caniatâd iddo gyhoeddi dogfennau cyfarfodydd penodol yn electronig. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithredu'r holl swyddogaethau llywodraethu mewn modd hybrid.

Dechreuodd y cynllun Rheoli Tân ar y Cyd ar 18 Hydref 2017, ar ôl i swyddogaethau rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
uno. Cafodd adolygiad o strwythur Rheoli Tân ar y Cyd ei gymeradwyo yn 2020. Cafodd adroddiad adolygiad terfynol y cynllun Rheoli Tân ar y Cyd ei gyhoeddi ym mis Medi 2021, a nodwyd y meysydd ffocws allweddol canlynol:

Cafodd y tîm adolygu y gwaith o ymdrin â'r meysydd ffocws allweddol canlynol:

- Maes Ffocws Allweddol 1 – Penodi Pennaeth Rheoli
- Maes Ffocws Allweddol 2 – Amodau Gwaith
- Maes Ffocws Allweddol 3 – Adolygu'r Strwythur
- Maes Ffocws Allweddol 4 – Rhoi Cymorth
- Maes Ffocws Allweddol 5 – Amserau shifft

- Maes Ffocws Allweddol 6 – Materion Amgylcheddol (Polisïau a Gweithdrefnau, Gwisg)

Mae'r tîm adolygu wedi bod yn llwyddo i gyflawni rhai o'r meysydd ffocws allweddol, gan gynnwys penodi'r Pennaeth Rheoli, gwella'r amgylchedd gwaith drwy gyflwyno PODau gorffwys, penodi arbenigwr TGCh i wella'r strwythur TGCh, rhoi cymorth i wasanaethau ar nifer o ffrydiau gwaith allweddol, a gwelliannau amgylcheddol eraill. Yn awr, argymhellir y dylid cynnal adolygiad canol tymor o'r cynllun gweithredu yn ogystal â chynnal archwiliad mewnol o'r broses o ymgorffori dysgu gweithredol o'r ymchwiliad i ddigwyddiad Tŵr Grenfell a digwyddiad Arena Manceinion yn 2017.

Mae gan y Gwasanaeth bedwar grŵp gwahanol o weithwyr: staff gweithredol (diffoddwyr tân), staff Rheoli Tân ar y Cyd, staff corfforaethol a staff ategol. Er mwyn darparu gwasanaethau i gymunedau De Cymru, mae'r Gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg a gweithdrefnau gweithio cadarn gan gymryd camau i alluogi staff i gynnal safonau hylendid da a gweithio'n ddiogel o fewn digwyddiadau gweithredol ac yn y gweithle cyffredinol.

Bu modd parhau i gynnal gweithgareddau megis gweithio gyda phobl ifanc, ymweld ag ysgolion a chynnal ymweliadau Diogel ac Iach ac archwiliadau diogelwch tân. Gwnaethom barhau i sicrhau bod y rheini sydd yn y perygl mwyaf mor ddiogel â phosib, wrth gynnal ffyrdd arloesol o gyflawni'n hymyriadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023-2024.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i adolygu prosesau parhad busnes, sy'n parhau'n gadarn, ac mae'r cynlluniau parhad busnes integredig yn parhau i gael eu gweithredu ar sail hirdymor. Parhaodd y Gwasanaeth i weithio gyda phartneriaid allanol i nodi risgiau ehangach ac ymarfer cynlluniau ymateb ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, a hynny ar sail aml-asiantaeth.

Mae'r Gwasanaeth wedi mynd ati i reoli ei baratoadau ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl gan ddiffoddwyr tân gweithredol a diffoddwyr tân rheoli, drwy gynnal cyfarfodydd parhad busnes rheolaidd, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau dyletswydd statudol yr Awdurdod. Addaswyd pa mor aml y cafodd y cyfarfodydd eu cynnal drwy gydol yr hydref a'r gaeaf, gan gyfarfod yn amlach pan oedd y tebygolrwydd o weithredu diwydiannol wedi cynyddu, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cadw i fyny â datblygiadau. Rhoddwyd darpariaethau ar waith i leihau risg, lliniaru effeithiau posibl ac ymateb yn ddiogel wrth wasanaethu cymunedau De Cymru. Yn ystod y streiciau diweddar yn y sector cyhoeddus, bu'r Gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid i darfu cyn lleied â phosibl ar ein cymunedau pan oedd y sectorau cyhoeddus partner yn arfer eu hawl i streicio

Bu i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddisodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac, fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae gan y Gymraeg statws cydraddol â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu cynlluniau'r Gymraeg mwyach ond, yn hytrach, mae'n rhaid iddynt bellach gydymffurfio â set o safonau Cymraeg cenedlaethol.

Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg nodi'r safonau sy'n gymwys i'r Awdurdod ym mis Medi 2016, ynghyd ag unrhyw eithriadau, a'u dyddiadau gweithredu. Cafodd yr Awdurdod yr adroddiad blynyddol mewnol ar gydymffurfedd yn erbyn y safonau yn

ystod cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb ar 27 Chwefror 2023. Gellir gweld yr adroddiad ar dudalen 81 drwy ddilyn y ddolen hon .

Parhaodd y Gwasanaeth i ddatblygu'r System Gwybodaeth Rheoli Busnes, sy'n galluogi'r Gwasanaeth i gysylltu ac arddangos perfformiad cyffredinol er mwyn helpu'r Gwasanaeth i wybod am ei gynnydd ac ysgogi'r broses o wneud penderfyniadau. Dros y 12 mis diwethaf, datblygwyd swyddogaethau pellach y system er mwyn sefydlu sicrwydd mewnol ychwanegol. Mae'r system bellach yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan orsafoedd, gan hwyluso mwy o ryngweithio a defnydd o'r system, yn enwedig y mesurau data ystadegol ychwanegol. Datblygwyd cyfresi pellach o ddangosfyrddau sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i roi gwybod i'r Gwasanaeth am ei berfformiad a'i hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Parhaodd y system i gyflawni ein cynlluniau busnes a Chynlluniau Rheoli Risg Gymunedol y gorsafoedd, yn ogystal â darparu data perfformiad ystadegol (gan gynnwys ystadegau ar ddigwyddiadau). Er mwyn gwella profiad y defnyddiwr, ymgysylltwyd yn sylweddol â rhanddeiliaid i gyd-greu'r ateb a ffefrir ar gyfer y defnyddwyr.

Llwyddodd system adnoddau dynol a chyflogres graidd integredig y Gwasanaeth i gynnal y modiwl digidol recriwtio ar-lein, gan alluogi darpar weithwyr i wneud cais am swyddi ymladdwyr tân llawnamser yn electronig, wrth barhau i alluogi darpar weithwyr i ymgeisio drwy ddulliau mwy traddodiadol. Mae'r tîm adnoddau dynol hefyd yn symud o ddefnyddio cynnyrch swyddfa gefn Core i ddefnyddio cynnyrch porth Core.

Yn ogystal, lansiwyd y broses Adolygiad Personol ar draws y Gwasanaeth gan ddefnyddio'r Modiwl Talent o fewn Core HR. Aeth y system Rheoli Dysgu a llwybrau dysgu ar gyfer rheolwyr goruchwylio yn fyw o 1 Mawrth 23. Bellach, gall staff gweithredol wneud cais am daliadau datblygiad roffesiynol parhaus drwy'r system Core, gan ddod yn awtomataidd drwy'r system Core HR.

Parhaodd y gwasanaeth i ymgorffori'r llwyddiannau Buddsoddwyr mewn Pobl a gyflawnodd yn 2020-2021, pan enillodd wobr aur yn y categori pobl a'r wobr arian yn y categori lles. Mae camau gweithredu o'r adolygiad 12 mis wedi cael eu cyflawni drwy brosesau cynllunio busnes arferol ac wedi'u cofnodi yn y system BMIS a ddefnyddir gan y Gwasanaeth. Mae Grŵp Cyflenwi Lles y Gwasanaeth yn weithgar wrth hybu a sicrhau gwelliannau lles ar gyfer pob grŵp staffio.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Cyhoeddir datganiad llesiant y Gwasanaeth yn niweddariad blwyddyn pedwar o'r Cynllun Strategol 2020-2030 sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen hon.

Gwnaethom hefyd barhau i weithio gyda byrddau iechyd lleol i rannu gwybodaeth i nodi nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau nas adroddwyd amdanynt, er mwyn nodi pobl y mae'n bosibl eu bod yn agored i niwed, neu nodi adeiladau risg uchel.

Fel un o'r partneriaid statudol ar y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gwnaethom barhau i gefnogi'r Cynlluniau Llesiant lleol. Rydym wedi sicrhau ein bod yn gallu cyflawni yn erbyn anghenion a disgwyliadau amcanion pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus heb amharu ar waith y sefydliad o ddarparu gwasanaeth

o ddydd i ddydd. Yng Nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 27 Mawrth 2023, adolygodd a chymeradwyodd yr Awdurdod Gynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd, Gwent a Bro Morgannwg ar gyfer 2023-2028. Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y ddolen hon.
Cynhaliodd ac ehangodd y Gwasanaeth ei brosiectau cydleoli mewn nifer o leoliadau ledled De Cymru. Mae gwaith adeiladu sylweddol wedi parhau eleni. Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal, ac mae'n archwilio opsiynau pellach, i ehangu ei ddarpariaeth cydleoli a gwella cysylltiadau gwaith gyda phartneriaid golau glas. Dechreuodd prosiect hefyd yn ystod y flwyddyn i ffurfioli ein dull o redeg ein safleoedd cydleoli o ddydd i ddydd, ac mae rhan o'r gwaith hwn yn golygu datblygu cyfres safonol o ddogfennau gyda thelerau ac amodau cyson i alluogi a gwella rheolaeth ar lefel leol.

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran diogelu portffolio adeiladau'r Gwasanaethau at y dyfodol a sicrhau bod buddsoddi nid yn unig yn bodloni gofynion gweithredol ond hefyd yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r ystâd. Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo i gyflwyno Gorsaf Dân New Inn fel yr orsaf ddi-garbon gyntaf yng Nghymru. Mae'r orsaf dân bresennol yn New Inn y tu hwnt i'w hatgyweirio ac nid yw bellach yn addas i'r diben, a chaiff adeilad cwbl newydd ei godi yn ei lle. Yn anffodus, nid yw buddsoddi mewn gosodiadau paneli solar ar safleoedd y Pencadlys a'r Barri wedi digwydd gan fod gwaith ymchwiliol wedi dangos nad yw mathau / amodau'r to yn ffafriol ar gyfer gosod paneli gan y byddai hynny'n peryglu strwythur y to. Bydd gwaith ymchwiliol ehangach yn parhau ar draws y portffolio i nodi cyfleoedd a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yng Ngwasanaeth Ynni Cymru i gyflawni hyn.

Yn 2022-2023 hefyd, cafodd y cyfleuster Chwilio ac Achub Trefol newydd ei gwblhau yn yr Eglwys Newydd. Mae'r cyfleuster hwn yn cynnwys asedau cenedlaethol ac mae wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi yn ei ddarpariaeth ar alwad ac mae gwaith wedi dechrau ar brosiect a fydd yn rhedeg am 4-5 mlynedd. Mae'r prosiect yn cynnwys naw gorsaf system dyletswydd ar alwad ac mae'n ceisio gwella mannau hyfforddi, dysgu a storio mewn modd cynaliadwy a mynd i'r afael â'r esblygiad a'r twf mewn offer / problemau cyfarpar diogelu personol diffodd tân. Dechreuodd y gwaith yng ngorsaf Pontycymer ym mis Ionawr ac mae ail safle, h.y. Treorci, i fod i ddechrau yn fuan. Mae cyllid grant wedi'i sicrhau i ariannu'n rhannol gostau dylunio elfennau cynaliadwy, h.y. pympiau gwres ffynhonnell aer, paneli solar, technoleg ystafelloedd sychu, ac ati.

Mae buddsoddiad ym Mhrosiect Tyrau Gorsafoedd Tân ar y gweill yn dilyn adolygiad strategol yn 2021-2022 a phwysigrwydd hyn ar gyfer hyfforddiant a chymhwysedd ar safleoedd gorsafoedd. Erbyn diwedd 2022-2023, bydd tyrau dur ag arddull newydd yn cael eu codi yn lle dau o'r chwe thŵr a nodwyd, bydd dau arall wedi'u cwblhau erbyn 31 Mai 2023 a chaiff y gweddill sylw yn 2023-2024 pan fydd caniatâd cynllunio unigol yn caniatáu.

Sicrhawyd grant o £169,000 gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i gynyddu cwmpas capasiti gwefru cerbydau trydan ar draws y portffolio eiddo. Roedd yn cynnwys 26 o safleoedd ychwanegol ac yn cwmpasu pob safle llawn-amser (ac eithrio'r rhai lle roedd gwaith adnewyddu / datblygu mawr ar fin dechrau) yn ogystal

ag 85% o safleoedd ar alwad. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol er bod y ffocws yn y maes hwn yn barhaus a bydd cynlluniau ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gyflwyno gwefrwyr cyflym i ategu'r ddarpariaeth 7kW bresennol.

Yn 2022-2023 hefyd, cynlluniwyd buddsoddi mewn cyfleusterau lles nad ydynt yn ymwneud â rhywedd penodol mewn gorsafoedd tân llawnamser, a hynny er mwyn sicrhau bod ein cyfleusterau'n gynhwysol i bawb ac yn addas ar gyfer y gwasanaeth tân modern. Mae buddsoddi wedi dechrau a bydd yn parhau drwy gydol 2023-2024.

Cwblhaodd y Gwasanaeth Gam 1 o'r Prosiect Gwerthuso Swyddi a daeth yr holl apeliadau i ben yn 2022. Mae hyn wedi sicrhau sylfaen dda i'r gweithdrefnau a'r polisïau i'w gwneud yn bosibl symud i Gam 2 y prosiect. Nid oedd y Gwasanaeth yn gallu cwblhau Cam 2 y Prosiect Gwerthuso Swyddi yn 2022-2023, a oedd wedi'i gynllunio i gynnwys adolygu teitlau swyddi a lwfansau ar gyfer staff llyfr gwyrdd sydd ar alwad neu sy'n gweithio y tu allan i oriau.

Roedd newidiadau i ddeddfwriaeth pensiynau a threth wedi parhau i gyflwyno heriau i'r sefydliad. Cafodd diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a materion sy'n dod i'r amlwg eu hadrodd i'r Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Awdurdod Tân ac Achub, a'u monitro. Rhoddwyd strwythur dros dro ar waith er mwyn creu'r gallu i ymdrin â'r problemau cymhleth gyda'r adnoddau presennol. Er mwyn gwella profiad staff gweithredol sy'n nesáu at ymddeol, a darparu amcangyfrifon mwy diweddar o fuddion ymddeol, mae gwefan y Gwasanaeth wedi cael ei diweddaru gyda Chyfrifiannell Adran Actwaraidd y Llywodraeth.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod y gofyniad i gymeradwyo a chyhoeddi'r cyfrifon erbyn 31 Mai a 31 Gorffennaf. Mae hyn bellach wedi'i drawsnewid yn arfer busnes safonol. Cafodd y cyhoedd gyfle i arfer ei hawl i archwilio'r cyfrifon o ddydd Llun 6 Mehefin i ddydd Gwener 1 Gorffennaf yn gynwysedig. Enwebwyd 4 Gorffennaf fel y dyddiad y gallai'r cyhoedd arfer ei hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol hyd nes i'r archwiliad gael ei gwblhau. Mabwysiadwyd Cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ym mis Mawrth 2022.

Er bod y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn datgymhwyso'r Mesur Llywodraeth Leol ('Mesur 2009') ar gyfer prif gynghorau, nid yw hyn wedi'i gychwyn eto mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub. Er mwyn datgymhwyso Mesur 2009, bydd angen datblygu trefniadau rheoli perfformiad newydd o dan adran 167 o'r Ddeddf, sydd yn ei dro yn dibynnu ar ddatblygu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau tân ac achub o dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae trafodaethau a gwaith i greu fframwaith cenedlaethol newydd a threfniadau perfformiad yn parhau i gael eu gohirio, ac mae'r Awdurdod yn aros i'r rhain ailddechrau. Hyd nes y bydd fframwaith cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno, bydd Mesur 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Parhaodd y Gwasanaeth i gydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (2016) wrth aros am ganllawiau neu ddeddfwriaeth newydd.

Parhaodd yr Awdurdod i ddilyn cynnydd y trafodaethau cenedlaethol ar dâl ac ehangu rôl diffoddwyr tân, a pharhawyd i asesu unrhyw effeithiau ar yr Awdurdod o'u herwydd. Cafodd yr Awdurdod adroddiad Cynghorydd Tân Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022 (dolen) ac yna cafodd adroddiad pellach ar argymhellion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (dolen).

Cafodd yr Awdurdod hefyd adroddiad gan Gynghorydd Tân Llywodraeth Cymru – Adolygiad Thematig o Hyfforddiant Gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru – ym mis Rhagfyr 2022 (dolen) ac ar ôl hynny fe gafodd a chymeradwyodd Argymhellion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (dolen) ym mis Mawrth 2023.

Yn 2022-2023, parhawyd â’r Cynllun Lleihau Carbon a’r Cynllun Bioamrywiaeth presennol. Cyhoeddodd y Gwasanaeth y Cynllun Lleihau Carbon ar ei wefan, sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen hon. Mae diweddariadau ar y Cynllun Lleihau Carbon a'r Cynllun Bioamrywiaeth wedi cael eu hadrodd i'r awdurdod tân llawn yn flynyddol ers hynny, ac adroddwyd ar y diweddariad ar 26 Medi 2022. Yn ystod 2023-24 caiff y diweddariad tair blynedd ei gyflawni ar gyfer y ddau gynllun, a fydd yn cyflwyno themâu, camau gweithredu, a metrigau callach i ddangos sut mae'r Gwasanaeth yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn ac o ganlyniad i roi elfennau o'r cynllun ar waith.

Cwblhaodd Archwilio Cymru Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon ac fe'i hanfonwyd i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ym mis Ebrill 2022. Gellir ei weld ar dudalen 41 drwy ddilyn y ddolen hon. Penderfynodd yr adolygiad fod yr awdurdod tân ac achub yn creu’r seilwaith cywir i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 ond mae angen iddo gyflawni ei dargedau uchelgeisiol a mynd i’r afael â nifer o risgiau mawr.

Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn adlewyrchu gweithrediad y Gwasanaeth yn ystod blwyddyn ariannol gyfan 2022-2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo cyhoeddi’r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyodd yr Awdurdod Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Lles 2021-2022 ar 26 Medi 2022 (y gellir ei weld ar dudalen 85 drwy ddilyn y ddolen hon). Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd, a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym maes iechyd, diogelwch a llesiant, a oedd yn dangos tystiolaeth o ddarparu amgylchedd a oedd yn gefnogol i iechyd, diogelwch a lles staff.

Ar 14 Chwefror 2022, cafodd yr Adroddiad Cynnydd ar Adolygiad Thematig Ymchwiliad Tŵr Grenfell ei gyflwyno i'r Awdurdod (y gellir ei weld ar dudalen 97 drwy ddilyn y ddolen hon). Yn dilyn yr adroddiad hwn, mae'r Adran Diogelwch Tân Busnes ar hyn o bryd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o weithredu archwiliadau Cam 3 a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch systemau adrannu mewnol a systemau waliau allanol. Mae'r Gwasanaeth yn cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r arolygon mewnol ac allanol a gynhaliwyd gan gontractwr Llywodraeth Cymru i gynnal arolygon mewnol Math-2 (adrannu) (Math-3 a Math-4 lle bo angen) ac asesiadau wal allanol.
Mae’r Adran Diogelwch Tân Busnes hefyd yn defnyddio data seiliedig ar risg ar gyfer adeiladau uchel iawn o System Gwybodaeth Rheoli'r Busnes ar y cyd â'r arolygon a

gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu rhaglen archwilio Cam 3 ar adeiladau preswyl uchel iawn. Mae tua 170 o adeiladau preswyl uchel iawn (risg cysgu) y gall fod angen cynnal archwiliad Cam ohonynt 3, a bydd hynny'n dibynnu ar y data uchod. Bydd yr adran Diogelwch Tân Busnes yn blaenoriaethu'r archwiliadau hyn wrth symud ymlaen.

Adolygwyd trefniadau'r Grŵp Craffu o fewn yr Awdurdod. Mae'r Grŵp Craffu newydd yn ymdrin â meysydd craffu sefydliadol ac adolygiadau thematig ehangach o fewn yr Awdurdod. Mae effaith y diwygiad hwn ar y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a'r Pwyllgor AD a Chydraddoldeb, ynghyd â newidiadau cysylltiedig i'r gwahanol gylchoedd gorchwyl, wedi'u cytuno a'u hymgorffori yn y cyfansoddiad diwygiedig.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfranogwr gweithredol yn y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys ac, ynghyd ag asiantaethau partner eraill, bydd yn parhau i gydweithio i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'n cymunedau a'r canlyniadau iddynt. Gellir gweld yr argymhellion o adroddiad "Gweithio ar y Cyd Rhwng Gwasanaethau Brys" Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022, drwy ddilyn y ddolenhon. Byddant yn cael eu hystyried gan y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol. Parhawyd i adrodd ar y trefniadau llywodraethu ynghylch yr argymhellion hyn i'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys drwy'r Bwrdd Cydweithio Strategol.

Parhawyd i fonitro'n fanwl broblemau yn y cadwyni cyflenwi ar gyfer contractau strategol allweddol er mwyn cyfyngu ar y risgiau a'r effeithiau i'r Gwasanaeth. Roedd defnyddio dulliau cryfach o reoli contractau er mwyn lleihau'r effaith ar y Gwasanaeth oherwydd naill ai prinder byd-eang, effeithiau COVID-19, neu wrthdaro byd-eang, yn effeithiol. Mae'r swyddogaeth gaffael, ar y cyd ag adrannau'r Gwasanaeth, yn parhau i reoli'r ergydion economaidd a ddaeth yn sgil y pandemig, Brexit, a goresgyniad Wcráinn. Mae materion mewn cadwyni cyflenwi wedi bod yn broblemus ar gyfer nifer o gontractau proffil uchel, h.y. offer anadlu, cyfarpar diogelu personol a gwiriadau trwyddedau gyrru.

## 7. Problemau a Heriau Llywodraethu Sylweddol ar gyfer 2023-2024

Yn dilyn adroddiad erthygl newyddion ymchwiliol ITV ar ganlyniadau dau achos disgyblaeth hanesyddol yr ymchwiliodd y Gwasanaeth iddynt yn flaenorol, bydd y Gwasanaeth yn cefnogi'n llawn yr Adolygiad Annibynnol o'r canlynol:

- diwylliant y Gwasanaeth
- prosesau disgyblu
- achosion hanesyddol pan fo gweithwyr wedi methu â chynnal ein gwerthoedd a'n safonau proffesiynol

Cafwyd cadarnhad mai Fenella Morris (KC) fydd cadeirydd annibynnol yr adolygiad o ddiwylliant. Mae Fenella Morris KC yn rhagweld y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2023.

Bydd y Gwasanaeth hefyd yn parhau i gefnogi gwaith y Rhuban Gwyn, gan barhau â'r holl gamau gweithredu a digwyddiadau ymgysylltu y mae'r Gwasanaeth wedi'u gwneud yn y gorffennol.

Bydd y Gwasanaeth hefyd yn parhau i ymgysylltu a pherfformio yn erbyn y cynlluniau gweithredu Buddsoddwyr mewn Pobl sydd ar waith ar hyn o bryd.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i baratoi ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl gan sicrhau bod y gwaith paratoi da a wnaed yn 2022-2023 wedi'i wreiddio ac yn dod yn arfer busnes safonol. Bydd hyn yn cynnwys ymarfer a phrofi cynlluniau gweithredu diwydiannol yn rheolaidd.

Er mwyn gwella trefniadau craffu o fewn yr Awdurdod, bydd Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Craffu yn cael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer pan fydd y Grŵp Craffu yn cymudo i Bwyllgor Craffu ym mlwyddyn newydd y Cyngor.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ystyried a gweithio tuag at yr argymhellion a dderbyniwyd gan ddau adolygiad Thematig Cynghorydd Tân Llywodraeth Cymru o ehangu rôl diffoddwyr tân a hyfforddiant gweithredol.

Cafodd tîm yr Adolygiad Rheoli Tân gyfle i ystyried y tîm Rheoli Tân ar y Cyd mewn ffordd gyfannol, ac maent hefyd wedi nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o COVID-19, gan sicrhau bod diwylliant dysgu parhaus yn rhan o ethos y tîm Rheoli Tân ar y Cyd wrth symud ymlaen. Mae'r y meysydd canlynol ymhlith y rhai a nodwyd eisoes:

- Symud deallus drwy feddalwedd fideo symudol, h.y. llygad 999.
- Gweithio o bell, e.e. ateb galwadau, symud a chynnal amodau llifeiriant
- Integreiddio meddalwedd allanol a mewnol i'r ddau Wasanaeth, h.y. rotâu swyddogion tactegol, what3words, Boss Mobile
- Meddylfryd system o ran yr holl brosesau ar gyfer effeithlonrwydd

Bydd cyfarfodydd yr Awdurdod yn parhau i gael eu cynnal mewn dull hybrid, sef wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, gan ddefnyddio meddalwedd fideogynadledda, ac yn cael eu recordio er mwyn eu cyhoeddi ar-lein. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at ymgorffori darpariaethau llawn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, gan gynnwys darlledu a chynnig mynediad at recordiadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu drwy ddefnyddio'r asesiadau risg cadarn, cynnal y gweithdrefnau ar gyfer systemau gwaith diogel, cynnal hylendid da, a gweithio'n ddiogel o fewn digwyddiadau gweithredol ac yn y gweithle cyffredinol. Galluogir staff sy'n gallu gweithio gartref i wneud hynny o hyd, gan sicrhau bod yr holl dimau'n cael eu cynrychioli'n effeithiol yn y gweithle. (Mae'r Gwasanaeth yn mabwysiadu dull hyblyg o gydnabod y bydd gan unigolion weithle dynodedig.) Bydd y ffyrdd mwy diogel a mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau a ddatblygwyd yn cael eu cynnal a byddwn yn adeiladu arnynt yn ystod 2023-2024.

Dros y 12 mis nesaf bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu System Gwybodaeth Rheoli'r Busnes i gefnogi'r gwaith o gasglu gwybodaeth effeithiol a gwneud penderfyniadau amser real ar adegau o weithredu diwydiannol ac i gefnogi busnes fel arfer.

Bydd system Core HR a chyflogres integredig y Gwasanaeth yn cael ei datblygu ymhellach i symleiddio prosesau cyflog a'r gwasanaethau a gynigiwn i gwsmeriaid mewnol. Bydd y drefn ymadael yn cael ei gwella gyda holiaduron wedi'u cynhyrchu'n awtomatig a bydd prosesau cynefino’r Gwasanaeth yn cael eu gwella.

Mae Grŵp Cyflenwi Lles y gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo a sicrhau gwelliannau lles ar gyfer pob grŵp o staff. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn adolygu ac yn adnewyddu gweithgareddau cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, gan sefydlu llinell sylfaen a nodi strategaeth ar gyfer y dyfodol.  Bydd meysydd lles gorsafoedd yn parhau i gael eu datblygu ar draws y Gwasanaeth o ganlyniad i'r prosiect iechyd meddwl llwyddiannus a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, a fydd yn parhau i fod yn ffocws i'r sefydliad yn y dyfodol.

Bydd y Gwasanaeth yn gwneud cynnydd yng Ngham 2 y Prosiect Gwerthuso Swyddi, a fydd yn cynnwys adolygu teitlau swyddi a lwfansau ar gyfer staff llyfr gwyrdd ar alwad / y tu allan i oriau.

Mae newidiadau i ddeddfwriaeth pensiynau a threthi yn parhau i gyflwyno heriau i'r sefydliad. Mae'r ailstrwythuro dros dro er mwyn darparu'r gallu i ymdrin â'r problemau cymhleth hyn gyda’r adnoddau presennol ar waith, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae cyllid y sector cyhoeddus yn her gynyddol i bawb. Mae effaith barhaus y galw cynyddol ar wasanaethau'r sector cyhoeddus a'r gostyngiadau o ran gwariant yn y sector cyhoeddus ochr yn ochr â'r argyfwng costau byw yn fater allweddol ar gyfer yr Awdurdod, ac mae'r setliadau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn cael eu hystyried bob amser pan fo'r Awdurdod yn gosod ei gyllideb flynyddol. Mae'r ffactorau hyn bob amser yn cael eu hystyried yn ofalus wrth bennu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Eir ar drywydd y cynllun gweithredu sy’n deillio o’r hunanasesiad, i werthuso i ba raddau y mae’r Gwasanaeth yn bodloni’r gofynion a nodir yng Nghod Rheolaeth Ariannol 2019 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, a’r camau gweithredu a’r argymhellion dilynol a gafwyd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ym mis Mawrth 2022.

Bydd yr Awdurdod yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod yr holl ofynion a osodir arno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a’r holl ddarpariaethau, yn cael eu gweithredu.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddilyn cynnydd y trafodaethau cenedlaethol ar gyflogau ac ehangu rôl diffoddwyr tân, ac yn asesu unrhyw effeithiau ar yr Awdurdod o'u herwydd, a'i drefniadau ariannol.

Gan edrych ar welliannau a datblygiadau tymor hwy, bydd y Gwasanaeth yn parhau i symud ymlaen gyda'r Cynllun Bioamrywiaeth a'r Cynllun Lleihau carbon. Bydd cyflwyno'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd, sydd â chynrychiolaeth o feysydd allweddol o'r sefydliad, h.y. eiddo, cyfleusterau, y fflyd, caffael, gwella gwasanaethau, ac sy'n darparu trosolwg o brosiectau cynaliadwy presennol a darpar brosiectau cynaliadwy, yn ogystal â monitro'r ôl troed carbon, yn fuddiol o ran gwreiddio'r newidiadau sydd eu hangen i fodloni'r her sylweddol hon.

Mae'r Swyddog Cynaliadwyedd wedi sefydlu grŵp cynaliadwyedd Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru gyfan sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc gan fod pob gwasanaeth tân ac achub ar bwynt gwahanol yn ei daith, a bydd y grŵp hwn yn helpu i gefnogi'r broses o rannu dysgu a dealltwriaeth mewn maes sy'n bwysig ac yn datblygu.

Bydd y grwpiau hyn yn cael eu hategu drwy gyflwyno hyrwyddwyr gwyrdd, h.y. aelodaeth mewn gorsafoedd, er mwyn cwblhau'r 'Rhwydwaith Gwyrdd' y Gwasanaeth a sicrhau bod llwybr ym mhob agwedd ar y Gwasanaeth er mwyn cyfrannu a gofyn cwestiynau am y Cynllun Lleihau Carbon a'r cynllun Bioamrywiaeth.

Yn ogystal, yn ystod chwarter olaf 2022-2023 bu cynnydd yn y gwaith paratoi a chynllunio i gyflwyno a gwreiddio 'caffael cynaliadwy' fel dull o ddeall ymhle y mae ein cyflenwyr ar hyd eu taith gynaliadwyedd ac i fonitro a chynorthwyo'n well y broses o wneud penderfyniadau ynghylch yr effaith y mae caffael yn ei chael ar fetrig ôl troed carbon y Gwasanaeth, Co2. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda WRAP Cymru i benderfynu ar offeryn caffael addas i adrannau'r Gwasanaeth a chyflenwyr ei ddefnyddio i helpu i gasglu data a monitro ein cynnydd. Bydd hyn yn parhau ar gyfer 2023-2024.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i gwreiddio wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Fel corff cyhoeddus sy'n destun y ddyletswydd, rydym yn ystyried sut y gall ein penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae datganiad ar sut rydym yn ystyried ac yn gweithredu ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i'w weld ar dudalen 7 o ddiweddariad blwyddyn 4 ein Cynllun Strategol, y gellir ei weld yma.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfranogwr gweithredol yn y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys ac, ynghyd ag asiantaethau partner eraill, bydd yn parhau i gydweithio i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'n cymunedau a'r canlyniadau iddynt.

# 8. Cynlluniau Gweithredu Llywodraethu

## Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Dyddiad Cwblhau** | **Cynnydd** |
| Dogfennau cyfansoddiadol<br><br>Swyddog arweiniol: Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Adolygu a diweddaru dogfennau cyfansoddiadol y Gwasanaeth. | Caiff y dogfennau cyfansoddiadol eu diweddaru i adlewyrchu canlyniadau:<br><br>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – cymryd y camau gweithredu dilynol angenrheidiol. | Mae'r cyfansoddiad enghreifftiol yn dal i gael ei ddatblygu gan weithio gyda'r Grŵp Swyddogion Monitro.<br><br>Medi 2022 | Wedi'i gwblhau<br>Cymeradwywyd y cyfansoddiad yng nghyfarfod yr awdurdod tân ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r gwaith o weithredu'r cyfansoddiad wedi'i ohirio tan flwyddyn nesaf y Cyngor er mwyn i'r Cynllun Dirprwyo gael ei ddiweddaru a'i weithredu fel un. |
| Hyfforddiant sefydlu a gloywi i aelodau<br><br>Swyddog arweiniol: Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol, bydd yr awdurdod tân newydd yn dilyn cyfnod sefydlu ar fecanweithiau llywodraethu Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. | Aelodau hyfforddedig yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswyddau statudol yr awdurdod tân a'r gwasanaeth. | Medi 2022 | Wedi'i gwblhau<br>Cwblhawyd cyfnod sefydlu aelodau wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau yn Haf 2022. Mae fersiwn all-lein wedi'i datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi i aelodau ym mis Chwefror 2023<br>Llawlyfr aelodau diwygiedig |

# Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023

| Pwnc | Cam gweithredu | Canlyniad | Dyddiad Cwblhau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Heriau cadwyn gyflenwi<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Darparu cyflenwadau digonol i gefnogi'r holl weithgareddau gweithredol ac atal. | Bydd y gwasanaeth yn parhau i gael eitemau cadwyn gyflenwi gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl. | Mawrth 2023 | Wedi'i gwblhau<br>Ychydig o darfu ar gadwyni cyflenwi, neu ddim o gwbl, oherwydd bod contractau'n cael eu rheoli'n gadarn. |
| Pensiynau diffoddwyr tân<br><br>Swyddog arweiniol apeliadau:<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Gweithredu penderfyniad y Tribiwnlys Cyflogaeth mewn perthynas â McCloud / Sargeant. | Pensiynau diffoddwyr tân wedi'u cywiro a'u cyfrifo'n briodol wrth symud ymlaen. | Yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol newydd. | Parhaus<br>Achosion Categori 1 – mae achosion y rhai nad ydynt wedi ymddeol ac sy'n dal yn gyflogedig, wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn.<br>Achosion Categori 2 – mae achosion pobl sydd eisoes yn derbyn pensiwn wedi'u hatal hyd nes y caiff rheoliadau eu cyhoeddi (disgwylir eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023). |

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Dyddiad Cwblhau** | **Cynnydd** |
| Gwerthuso swyddi<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Cam 2 y rhaglen i sefydlu dull mwy cydlynol o enwi confensiynau ar draws y Gwasanaeth ar gyfer rolau corfforaethol. Bydd adolygiad hefyd o'r lwfansau a ddefnyddir ar gyfer rolau corfforaethol penodol.<br><br>Nodi arferion gwaith y Gwasanaeth yn y dyfodol er mwyn galluogi gweithgarwch gwerthuso swyddi cyson. | Adolygu teitlau swyddi a lwfansau.<br><br>Proses sefydledig ar gyfer gweithgarwch gwerthuso swyddi yn y dyfodol. | Ch4 2022/23 | Gohiriwyd tan 2023-2024 Oherwydd absenoldebau staff hanfodol a blaenoriaethau cystadleuol, gohiriwyd y cam gweithredu hwn ac mae wedi'i drosglwyddo i 2023-2024 |
| Y Cynllun Bioamrywiaeth a'r Cynllun Lleihau Carbon<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a lleihau'r ôl troed carbon wrth arfer swyddogaethau'r Gwasanaeth mewn modd priodol, a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau wrth wneud hynny. | Datblygu a gweithredu'r cynllun tair blynedd cyntaf i leihau effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd a chefnogi amcanion amgylcheddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Ch4 2022-23 | Parhaus – yn parhau i 2023-2024. |

## Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023

| Pwnc | Cam gweithredu | Canlyniad | Dyddiad Cwblhau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Diogelwch Tân 2021<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau | Nodi gofynion o Ddeddf Diogelwch Tân 2021 ac ymgorffori'r camau gweithredu sydd eu hangen i alluogi'r Gwasanaeth i gefnogi'r Ddeddf yn llawn. | Gwasanaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol. | Ch3 2022-23 | Parhaus<br>Cynlluniau gweithredu ar waith a chynnydd sylweddol wedi'i wneud.<br>Bydd y cam gweithredu hwn yn parhau yn 2023-2024<br>Mae risg strategol yn cael ei rheoli'n weithredol. |
| Achrediad y Living Wage Foundation<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Cyflawni achrediad y Living Wage Foundation. | Dod yn gyflogwr cyflog byw achrededig. | Cariwyd ymlaen i 2023-2024 | Cymeradwywyd gan yr awdurdod tân ddydd Llun 20 Rhagfyr 2021.<br><br>Pob aelod o staff yn cael cyflog byw. Y cam nesaf yw'r adolygiad gyda chontractwyr.<br><br>Aros am benderfyniad achredu. |

# Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023

| Pwnc | Cam gweithredu | Canlyniad | Dyddiad Cwblhau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Byw gyda COVID-19 – trawsnewid o bandemig i glefyd sy’n endemig<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Tân | Parhau i adolygu a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o ymateb y gwasanaeth i bandemig COVID-19 a'r adferiad ohono. | Cynlluniau parhad busnes cadarn i ymateb i achosion yn y dyfodol ac adfer ar eu holau. | Ch4 2022-23 | Wedi’i gwblhau Cynlluniau parhad busnes cadarn ac integredig ar waith.<br>Dangosfwrdd System Gwybodaeth Rheoli'r Busnes wedi'i greu ac ar gael i'w ddefnyddio yn y dyfodol i hwyluso’r broses o wneud penderfyniadau amser real ar sail tystiolaeth.<br>Cynnal cyfarfodydd adolygu COVID-19 yn rheolaidd er mwyn asesu’r lefelau bygythiad cyfredol a chamau gweithredu priodol. |

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Dyddiad Cwblhau** | **Cynnydd** |
| Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Tân<br><br>Swyddog Arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Tân | Cynnal gweithle priodol sy'n ddiogel o ran COVID-19.<br><br>Parhau i gyflawni gwerth am arian a llywodraethu effeithiol mewn amgylchedd COVID-19. | Gwasanaeth cadarn sy'n gallu darparu gwasanaethau o fewn amgylchedd gwaith COVID-19.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal y safonau uchaf posibl o ymddygiad o ran gweinyddiaeth ariannol a llywodraethu corfforaethol. | | Wedi'i gwblhau<br>Gall y Gwasanaeth ymateb ac addasu i bob lefel o rybuddion COVID-19.<br><br>Wedi'i gwblhau<br>Gwariant COVID-19 y Gwasanaeth yn dangos rheolaeth ariannol gadarn. Mecanweithiau llywodraethu corfforaethol wedi'u haddasu ac yn hyblyg gyda chyfarfodydd hybrid yn arfer busnes safonol |
| Swyddog arweiniol:<br>Y Prif Swyddog Tân | Nodi ffyrdd newydd ac arloesol o gyflenwi gwasanaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn amgylchedd COVID-19. | Ffyrdd newydd o weithio i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel ac ymgysylltu â'n cymunedau yn bersonol, o bell ac yn rhithwir, i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i leihau risg ar draws y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. | Ch4 2022-2023 | Wedi'i gwblhau<br>Ymgysylltu digidol wedi gwella ac mae ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol. |

# Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2022-2023

| Pwnc | Cam gweithredu | Canlyniad | Dyddiad Cwblhau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Cod Rheolaeth Ariannol 2019 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth<br><br>Swyddog arweiniol:<br>Y Trysorydd | Ymgorffori camau gweithredu ac argymhellion o'r hunanasesiad o gydymffurfedd y gwasanaeth ag egwyddorion Cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. | Gwella gwytnwch ariannol y gwasanaeth drwy wreiddio safonau uwch o reolaeth ariannol.<br><br>Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu gyfyngiadau o ran cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol. | Ch4 2022-23 | Parhaus – wedi'i gynllunio i barhau yn 2023-2024 |

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2023-2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Swyddog arweiniol** | **Dyddiad Cwblhau** |
| Gweithredu diwydiannol | Parhau i brofi a gweithredu cynlluniau parhad busnes cadarn ac effeithiol er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ar adegau o weithredu diwydiannol. | Yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, gall y Gwasanaeth gyflawni ei ddyletswydd statudol i dderbyn digwyddiadau brys a gweithredu arnynt pan fo perygl i fywyd neu eiddo. | Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol | Mawrth 2024 |
| Adolygiad annibynnol | Rhoi mecanwaith a phroses ar waith, eu cefnogi a'u hyrwyddo ar gyfer adolygiad annibynnol i'r canlynol:<br>• diwylliant y Gwasanaeth<br>• prosesau disgyblu<br>• achosion hanesyddol pan fo gweithwyr wedi methu â chynnal ein gwerthoedd a'n safonau proffesiynol. | Dysgu a derbyn argymhellion o'r adolygiad annibynnol; a datblygu a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad. | Y Prif Swyddog Tân | Mawrth 2024<br>Medi 2024 |
| Cam 2 Gwerthuso Swyddi | Cam 2 y rhaglen i sefydlu dull mwy cydlynol ar gyfer confensiynau enwi ar draws y gwasanaeth ar gyfer rolau corfforaethol. Bydd adolygiad hefyd o'r lwfansau a ddefnyddir ar gyfer rolau corfforaethol penodol.<br><br>Nodi arferion gwaith y gwasanaeth yn y dyfodol er mwyn hwyluso gweithgareddau gwerthuso swyddi cyson. | Adolygu teitlau swyddi a lwfansau.<br><br>Proses wedi'i sefydlu ar gyfer gweithgareddau gwerthuso swyddi yn y dyfodol. | Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Mawrth 2024 |

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2023-2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Swyddog arweiniol** | **Dyddiad Cwblhau** |
| Pensiynau diffoddwyr tân | Gweithredu penderfyniad y Tribiwnlys Cyflogaeth mewn perthynas ag achos McCloud / Sargeant – oedran.<br>Rheoliadau gweithio rhan amser Matthews / Obrien | Pensiynau diffoddwyr tân wedi'u cywiro a'u cyfrifo'n briodol wrth symud ymlaen. | Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol newydd. |
| Achrediad Living Wage Foundation | Cael cadarnhad o achrediad cyflog byw. | Dod yn gyflogwr cyflog byw achrededig. | Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl | Medi 2024 |
| Y Cynllun Bioamrywiaeth a’r Cynllun Lleihau Carbon | Ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a lleihau'r ôl troed carbon wrth arfer swyddogaethau’r gwasanaeth mewn modd priodol, a hybu gwydnwch ecosystemau wrth wneud hynny. | Datblygu a gweithredu'r cynllun tair blynedd cyntaf i leihau effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd a chefnogi amcanion amgylcheddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Mawrth 2024 |

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2023-2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cam gweithredu** | **Canlyniad** | **Swyddog arweiniol** | **Dyddiad Cwblhau** |
| Cod Rheolaeth Ariannol 2019 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth | Ymgorffori camau gweithredu ac argymhellion o'r hunanasesiad o gydymffurfedd y gwasanaeth ag egwyddorion cod rheolaeth ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. | Gwella gwytnwch ariannol y Gwasanaeth drwy wreiddio safonau uwch o reolaeth ariannol.<br><br>Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu gyfyngiadau o ran cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol. | Y Trysorydd | Mawrth 2024 |
| Ymchwiliad COVID-19 | Paratoi i ymateb i ymchwiliad COVID-19 | | Y Prif Swyddog Tân | Mawrth 2024 |
| Cyfathrebu'n fewnol ynghylch y cyfansoddiad a'r cynnwys | Cwblhau a dangos tystiolaeth o gyfathrebu a dealltwriaeth o'r cyfansoddiad ar draws y Gwasanaeth – yn benodol yr adran ar y cod ymddygiad i swyddogion | Mae holl staff y Gwasanaeth wedi darllen a deall y cod ymddygiad i swyddogion | Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Rhagfyr 2023 |
| Yr adolygiad Rheoli Tân | Gweithredu ar adroddiad yr adolygiad Rheoli Tân ar y Cyd.<br>Pum Maes Tasg Allweddol<br>Wedi'i gyhoeddi ym mis Medi 2021. | Mae'r Gwasanaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol. Swyddogaeth yr ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn effeithlon, effeithiol a gwydn. | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Y Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau | Mawrth 2024 |

Gellir gweld y dogfennau mewnol y cyfeirir atynt yn y datganiad hwn ar ein gwefan yn https://www.southwales-fire.gov.uk/

## 9. Casgliad Cryno

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldeb fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y gymuned y mae’n ei gwasanaethu ac i arwain drwy esiampl wrth wneud penderfyniadau ac yn ei brosesau a chamau gweithredu eraill, gydag aelodau a swyddogion yn gweithredu yn unol â safonau ymddygiad uchel.  Mae'r sefydliad yn gweithredu mewn modd darbodus, effeithiol, effeithlon a moesegol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethu da yn darparu'r sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r Awdurdod o'r farn bod ei drefniadau llywodraethu ar gyfer 2022-2023 yn parhau i fod yn addas i'r diben.


Credir bod y prosesau craffu, archwilio mewnol ac allanol, yn ogystal â’r dulliau o reoli risg, wedi dangos bod llywodraethu corfforaethol y sefydliad hwn yn effeithiol, bod y trefniadau presennol yn addas i'r diben, a bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyflawni ei nodau a'i amcanion, er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ac mae’n parhau i fod yn ymrwymedig i wella'r rhain drwy roi'r cynllun gweithredu ar gyfer 2023-2024 ar waith.

## 10. Datganiad ar y Cyd gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Tân yr Awdurdod Tân ac Achub

Rydym yn cynnig ein bod yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r holl faterion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, fel yr amlinellir yn y cynllun uchod. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r angen am welliannau a gafodd ei nodi yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro'u gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Fodd bynnag, oherwydd dylanwadau allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai na fydd yn bosibl cyflawni popeth a nodwyd.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd yn Natganiad 2022-2023.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd:  | Llofnodwyd:  |
| **Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub** | **Y Prif Swyddog Tân** |
| Dyddiad:04/12/2023 | Dyddiad:04/12/2023 |

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd, y Datganiad Llif Arian a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa ac Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol..

Mae’r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y’u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi argraff wir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fel y maent ar 31 Mawrth 2023, ac o’i incwm a’i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno; ac
- wedi cael eu paratoi’n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

### Sail ar gyfer y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10, ‘Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio o fewn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn addas i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath, neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r wybodaeth a gynhwysir o fewn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a'i amgylchedd, a'r ddealltwriaeth

ohonynt, a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w gyflwyno ynghylch y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu na chafwyd x ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a datganiadau cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer y datganiadau ariannol**
Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- rheolaethau mewnol megis rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau cyfrifon nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyfrifol yn rhagweld na fydd gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, iddynt gael dylanwad ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, y trefniadau archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Ymladdwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll yr amheuir neu dwyll honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y postio cofnodion anarferol mewn dyddlyfrau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru; a
- Cael dealltwriaeth o gysylltiadau â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd ddeddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio a daliais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau yn fy ngalluogi i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Cewch hyd i ddisgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau archwilwyr eraill**

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a Chronfa Bensiwn Ymladdwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad:

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

*Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gynnal a chadw gwefan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.*

## DATGANIAD GWARIANT AC INCWM CYNHWYSFAWR

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £000** | **Incwm Gros £000** | **Gwariant Net £000** | | **Gwariant Gros £000** | **Incwm Gros £000** | **Gwariant Net £000** |
| 87,670 | -7,642 | 80,028 | Costau diffodd tân | 84,431 | -8,398 | 76,033 |
| 87,670 | -7,642 | 80,028 | **Cost gwasanaethau** | 84,431 | -8,398 | 76,033 |
| 0 | -58 | -58 | Incwm a gwariant gweithredol eraill (Nodyn 6) | 0 | 13 | 13 |
| 22,057 | -10 | 22,047 | Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi (Nodyn 7) | 27,564 | -260 | 27,304 |
| 0 | -78,926 | -78,926 | Trethiant ac incwm grant amhenodol (Nodyn 8) | 0 | -81,694 | -81,694 |
| | | **23,091** | **Diffyg wrth ddarparu gwasanaethau** | | | **21,656** |
| 420 | -5,319 | -4,899 | Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 0 | -5,995 | -5,995 |
| | | -60,670 | Ailfesuriad o'r budd (ased) / rhwymedigaeth net ddiffiniedig (nodiadau 21 a 34) | | | -324,600 |
| | | -65,569 | **(Incwm) a gwariant cynhwysfawr eraill (Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd)** | | | -330,595 |
| | | **-42,478** | **Cyfanswm (incwm) a gwariant cynhwysfawr eraill** | | | **-308,939** |

## DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Cyfanswm cronfeydd y gellir eu defnyddio £000 | Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio £000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | **-3,000** | **-14,174** | **0** | **-17,174** | **943,069** | **925,895** |
| **Cyfanswm Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | **21,656** | **0** | **0** | **21,656** | **-330,595** | **-308,939** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 3) | -21,761 | 312 | 0 | -21,449 | 21,449 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd** | **-105** | **312** | **0** | **207** | **-309,146** | **-308,939** |
| Trosglwyddiadau i / (oddi wrth) gronfeydd a glustnodwyd | 105 | -105 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | **0** | **207** | **0** | **207** | **-309,146** | **-308,939** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | **-3,000** | **-13,967** | **0** | **-16,967** | **633,923** | **616,956** |

| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Cyfanswm cronfeydd y gellir eu defnyddio £000 | Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio £000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen** | **-3,000** | **-10,526** | **-129** | **-13,655** | **982,028** | **968,373** |
| **Cyfanswm Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | **23,091** | **0** | **0** | **23,091** | **-65,569** | **-42,478** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau (Nodyn 3) | -26,918 | 179 | 129 | -26,610 | 26,610 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd** | **-3,827** | **179** | **129** | **-3,519** | **-38,959** | **-42,478** |
| Trosglwyddiadau i / (oddi wrth) gronfeydd a glustnodwyd | 3,827 | -3,827 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22** | **0** | **-3,648** | **129** | **-3,519** | **-38,959** | **-42,478** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | **-3,000** | **-14,174** | **0** | **-17,174** | **943,069** | **925,895** |

# Y FANTOLEN

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 85,235 | Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 93,414 | 9 |
| 111 | Asedau anniriaethol | 184 | |
| 200 | Dyledwyr hirdymor | 100 | 13 |
| **85,546** | **Asedau hirdymor** | **93,698** | |
| 962 | Stocrestrau | 1,073 | |
| 4,738 | Dyledwyr byrdymor | 6,071 | 13 |
| 7,158 | Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 2,163 | 14 |
| **12,858** | **Asedau cyfredol** | **9,307** | |
| -419 | Rhwymedigaethau byrdymor | -437 | 33 |
| -1,572 | Benthyca byrdymor | -1,535 | 10 |
| -4,783 | Credydwyr byrdymor | -5,425 | 15 |
| -38 | Darpariaethau | -38 | 16 |
| **-6,812** | **Rhwymedigaethau cyfredol** | **-7,435** | |
| -26,737 | Benthyca hirdymor | -25,354 | 10 |
| -3,677 | Rhwymedigaethau hirdymor eraill – Mentrau Cyllid Preifat | -3,240 | 33 |
| -987,073 | Rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio | -683,932 | 34 |
| **-1,017,487** | **Rhwymedigaethau hirdymor** | **-712,526** | |
| **-925,895** | **Asedau net** | **-616,956** | |
| -17,174 | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | -16,967 | 17 |
| 943,069 | Cronfeydd na ellir eu defnyddio | 633,923 | 18 |
| **925,895** | **Cyfanswm y cronfeydd** | **616,956** | |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **23,091** | **Diffyg net ar ddarparu gwasanaethau** (Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Nodyn 23) | **21,656** |
| -30,567 | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau heb fod yn arian parod (Nodyn 23) | -25,749 |
| -1,185 | Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu (Nodyn 23) | 161 |
| -8,661 | (Mewnlif)/all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol | -3,932 |
| 1,837 | Gweithgareddau buddsoddi (Nodyn 24) | 5,792 |
| 2,864 | Gweithgareddau ariannu (Nodyn 24) | 3,135 |
| -3,960 | (Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 4,995 |
| 3,198 | Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar gychwyn y cyfnod adrodd | 7,158 |
| 7,158 | **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd (Nodyn 14)** | 2,163 |

**Noder**

Darperir dadansoddiad manwl o'r uchod yn Nodyn 23 a Nodyn 24.

## POLISÏAU CYFRIFYDDU

### CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ynghyd â'i sefyllfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae’n ofynnol i’r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (‘y Cod’), a ategwyd gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd o dan adran 12 o Ddeddf 2003.

Yn bennaf, yr arfer cyfrifyddu a fabwysiedir yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol, a addaswyd gan ailbrisiad o rai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### INCWM A GWARIANT CRONIADAU

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant, net TAW adferadwy, yn y flwyddyn y maent yn deillio ohoni, nid wrth wneud neu dderbyn taliadau arian parod yn unig. Yn benodol:

- Cyfrifir am ffioedd, taliadau a rhenti sy’n ddyledus fel incwm ar y dyddiad y mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu wasanaethau perthnasol.

- Caiff cyflenwadau eu cofnodi fel gwariant pan fyddant yn cael eu defnyddio. Lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir y cyflenwadau a’r dyddiad y maent yn cael eu defnyddio, cânt eu nodi fel stocrestrau yn y Fantolen.

- Cyfrifir llog sy’n daladwy ar fenthyciadau ac sy’n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na’r llifoedd arian parod a benodwyd neu a bennwyd gan y contract.

- Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond ni dderbyniwyd na thalwyd yr arian, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Os oes amheuaeth y caiff dyledion eu talu, nodir balans y dyledwyr a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

### ARIAN PAROD A SYMIAU SY’N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod drwy arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy’n ad-daladwy yn ddi-gosb ar rybudd heb fod yn fwy na 24 awr. Mae symiau sy’n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol y mae modd eu troi'n symiau arian parod hysbys mewn llai na thri mis gyda risg ddibwys o newid mewn gwerth.

### COSTAU I REFENIW AM ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Debydir costau gwasanaethau â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth

- Colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus o fewn y Gronfa Ailbrisio y gellir dileu’r colledion yn eu herbyn
- Amorteiddio asedau anniriaethol y gellir eu priodoli i'r Gwasanaeth

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi cyfraniadau i ariannu colledion dibrisiant, ailbrisio ac amhariad neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r refeniw tuag at ostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, disodlir colledion dibrisiant, ailbrisio ac amhariad ac amorteiddio â chyfraniadau a wnaed o falansau’r Gronfa Gyffredinol, h.y. isafswm y ddarpariaeth refeniw a’r cyfrif gwariant cyfalaf i refeniw, drwy gyfrwng trosglwyddiad addasu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd.

## BUDDIANNAU GWEITHWYR

### Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y cyfnod lle derbynnir y gwasanaeth gan weithwyr. Cydnabyddir cost hawliadau gwyliau blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd gan weithwyr ar ddiwedd y cyfnod (‘absenoldebau cronnol’) yn y datganiadau ariannol i'r graddau y caniateir i weithwyr gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod canlynol.

### Buddiannau terfynu

Buddiannau terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad arferol ymddeol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad / ymddeoliad gwirfoddol. Caiff y costau hyn eu codi ar sail croniadau lle y gellir dangos bod yr Awdurdod yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu’n gwneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu yn cynnwys gwelliannau i bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol priodoli’r swm sy'n daladwy i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr o fewn y flwyddyn gan yr Awdurdod i Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd, mae angen dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn ac oddi wrthi er mwyn dileu’r credydau a debydau tybiannol i fuddiannau terfynu pensiynau uwch a'u cyfnewid â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o’r fath sy’n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## BUDDIANNAU ÔL-GYFLOGAETH

### Pensiynau

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn penodol ar gyfer diffoddwyr tân ac aelodau staff corfforaethol. Mae’r cynlluniau fel a ganlyn:

1. <u>**Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân**</u>
   Cynlluniau buddion diffiniedig heb eu hariannu yw cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, sy’n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu rhwymedigaethau’r pensiynau a bod yn rhaid cynhyrchu arian i fodloni’r gwir daliadau pensiwn wrth iddynt ddod yn daladwy. Mae cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan

Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn destun ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Caiff y gronfa bensiwn ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân o fewn y Datganiad o Gyfrifon ac fe'i diogelir i sicrhau eglurdeb cyfrifeg – gweler nodiadau 21 a 34 a 'Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân' am fwy o fanylion. Drwy'r Gronfa Bensiwn y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb dros dalu pensiynau swyddogion sydd wedi ymddeol, eu goroeswyr, ac eraill sy'n gymwys ar gyfer buddiannau o dan y cynllun.

Datgelir amcangyfrif o rwymedigaethau hirdymor yr Awdurdod i dalu am y costau hyn mewn nodyn i'r cyfrifon, fel sy'n ofynnol gan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19.

2. **<u>Staff Corfforaethol ac Ystafell Reoli</u>**
Mae hwn yn gynllun sydd wedi'i ariannu gyda phensiynau a dalwyd gan gronfeydd buddsoddi sylfaenol a reolir gan Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y gronfa'), sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae actwariaid yn pennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr. Telir costau pellach, sy'n codi o ran rhai pensiynau a delir i weithwyr sydd wedi ymddeol, ar sail heb ei hariannu. Gweler Nodyn 34 am fwy o wybodaeth.

**DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD**
Mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ddigwyddiadau, boed yn ffafriol neu'n anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol er mwyn eu cyhoeddi. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

a) Y rheini sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau addasu), a'r
b) Rheini sy'n nodweddiadol o'r amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (nad ydynt yn addasu).

**ADDASIADAU CYFNODAU BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU, AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU**
Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd cyfredol a'r blynyddoedd i ddod sy'n cael eu heffeithio gan y newid a phan nad ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ond pan fydd hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu pan fydd y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion a digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod neu ei berfformiad ariannol. Pan wneir newid, caiff ei gymhwyso yn ôl-weithredol (oni bai y nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol, fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso o'r cychwyn.

Cywirir gwallau perthnasol a ganfuwyd o fewn ffigurau'r cyfnod blaenorol yn ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod.

**OFFERYNNAU ARIANNOL**

**Rhwymedigaethau ariannol**
Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac maent yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg a'u cario ar eu cost a amorteiddiwyd. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â chyfradd llog wirioneddol yr offeryn. Y gyfradd llog wirioneddol yw'r gyfradd sy'n didynnu'n union daliadau arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn ystod oes yr offeryn hyd at y swm a gydnabuwyd fel ei werth yn wreiddiol.

Mae hyn yn golygu, ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, mai'r swm ar y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill sy'n ad-daladwy (yn ogystal â llog cronedig os yw'n briodol), a llog a briodolwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

**Asedau ariannol**
Dosbarthir asedau ariannol ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae yna dri phrif ddosbarth o asedau ariannol wedi'u mesur ar y canlynol:

- cost amorteiddio
- gwerth teg drwy enillion neu golledion
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llif arian parod contractiol. Felly, caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel cost wedi'i hamorteiddio.

**Asedau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio**
Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol, a chânt eu mesur ar werth teg i ddechrau. Yna cânt eu mesur ar eu cost a amorteiddiwyd. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â chyfradd llog wirioneddol yr offeryn. Ar gyfer yr asedau ariannol a ddelir gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a llog a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi o ganlyniad i ddileu cydnabyddiaeth ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Model colli credyd disgwyliedig**
Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull syml ar gyfer amhariadau ac yn mesur colli dyledwyr masnach a benthyciadau i drydydd partïon ar swm sydd gyfwerth â cholli oes gyfan disgwyliedig gan ddefnyddio darpariaeth sy'n seiliedig yn bennaf ar oedran y ddyled. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod amhariad asedau ariannol yn cael ei gydnabod yn gynnar.

**GRANTIAU A CHYFRANIADAU'R LLYWODRAETH**
Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti fel incwm ar y dyddiad pan fydd yr Awdurdod yn bodloni amodau'r hawl i dderbyn y grant / cyfraniad, bod sicrwydd rhesymol y derbynnir yr arian, a bod y gwariant y rhoddir y grant ar ei gyfer naill ai wedi'i gyflawni neu fod disgwyliad rhesymol y bydd yn cael ei gyflawni. Cyfatebir grantiau refeniw yng nghyfrifon refeniw'r gwasanaeth â'r gwariant gwasanaeth y maent yn gysylltiedig ag ef. Caiff grantiau i dalu am wariant cyffredinol eu credydu i waelod y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ôl Gwariant Gweithredu Net.

**STOCRESTRAU A CHONTRACTAU HIRDYMOR**
Cynhwysir stocrestrau yn y Fantolen ar yr isafswm cost neu werth gwireddadwy net. Mae cost stocrestrau yn cael ei phennu drwy ddefnyddio dull y gost gyfartalog.

**LESOEDD**

**Lesoedd cyllid**
Lle'r ysgwyddir holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased ar les gan yr Awdurdod i bob pwrpas, cofnodir yr ased fel eiddo, peiriannau a chyfarpar a chofnodir rhwymedigaeth gyfatebol. Y gwerth y cydnabyddir y ddau yw'r isaf o werth teg yr ased neu werth presennol y taliadau les lleiaf, a ostyngir drwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les. Y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les yw'r hon sy'n creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar y rhwymedigaethau sydd heb eu talu. Cydnabyddir yr ased a'r rhwymedigaethau ar gychwyn y les, ac maent yn peidio â chael eu cydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei rhyddhau neu ei diddymu neu pan fydd yn dod i ben. Rhennir y rhent blynyddol rhwng ad-daliad y rhwymedigaeth a chost gyllid. Cyfrifir y gost gyllid flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg i'r rhwymedigaeth sy'n weddill ac fe'i nodir o dan gostau 'Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi' yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Lesoedd gweithredol**
Pan fydd asedau ar gael i'w defnyddio fel rhan o drefniadau les, priodolir y rhenti sy'n daladwy i gost y gwasanaeth ar sail linol ni waeth beth fo'r trefniadau talu. Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid yw'r gost yn ymddangos yn y Fantolen.

**EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR**

**Cydnabyddiaeth**
Cyfalafir y gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail gronnus, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased ond sydd heb ychwanegu ato i gyflawni buddiannau economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth (h.y. atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw) ei nodi fel treuliau pan fydd yn digwydd.

Cyfalafir eiddo, peiriannau a chyfarpar lle:
- maent yn cael eu cadw at ddefnydd cyflenwi gwasanaethau;
- mae'n debygol y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod, neu bydd gwasanaeth o bosib yn cael ei ddarparu iddo;

- disgwylir eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;
- y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy;
- mae cost yr ased unigol yn werth £15,000 o leiaf;
- mae'r eitemau yn ffurfio grŵp o asedau y mae eu cost unigol yn werth £500 o leiaf, y maent yn werth o leiaf £60,000 gyda'i gilydd, pan fo'r asedau yn weithredol gyd-ddibynnol, mae ganddynt ddyddiadau pryniant cydamserol bras, rhagdybir iddynt gael dyddiadau gwaredu cydamserol, ac maent o dan reolaeth sengl; ac
- mae'r eitemau'n ffurfio rhan o'r gost cyfarparu a sefydlu cychwynnol ar gyfer adeilad newydd neu waith adnewyddu gorsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth yw eu cost unigol neu gyfunol. Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau ag oesoedd ased sy'n sylweddol wahanol, e.e. peiriannau a chyfarpar, yna mae'r cydrannau hyn yn cael eu trin fel asedau ar wahân ac fe'u dibrisir dros gyfnod eu bywydau economaidd defnyddiol eu hunain.
- Pan fydd caffael neu greu systemau TG yn ymgorffori caledwedd ffisegol a thrwyddedau i ddefnyddio'r system, penderfynir a fydd hyn yn cael ei ddosbarthu'n gyfan gwbl fel Eiddo, Peiriannau ac Offer neu Asedau Anniriaethol, yn unol â Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfrifo llywodraeth leol.

**Mesuriad (sail prisiad)**

Mae'r holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu mesur yn wreiddiol ar gost, gan gynrychioli'r costau sy'n uniongyrchol briodoladwy i gaffael neu adeiladu'r ased a'i gludo i'r lleoliad ac mewn cyflwr sy'n angenrheidiol iddo allu gweithredu yn y modd y bwriadwyd gan reolwyr.

Prisir eiddo ar ôl hyn ar gyfer y datganiadau ariannol ar sail 'gwerth teg' a, lle bo'r eiddo o natur arbenigol, h.y. yn weithredol ac nad oes marchnad weithredol, mae Cost Adnewyddu Ddibrisiedig wedi'i chymhwyso.

Prisir asedau tir ac adeiladau bob pum mlynedd gan brisiwr cymwys proffesiynol yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cynhelir adolygiadau amhariad blynyddol yn ystod blynyddoedd eraill yn fewnol. Cynhelir yr adolygiadau blynyddol gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf priodol sydd ar gael ar ddyddiad yr adolygiad. Cynhaliwyd ailbrisiad llawn ddiwethaf ar 31 Mawrth 2020 a chynhaliwyd prisiad bwrdd gwaith ar 31 Mawrth 2022 i adlewyrchu cynnydd yng ngwerth eiddo ar gyfer adeiladau a ddelir ar Gost Adnewyddu Ddibrisiedig.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n codi wrth i asedau gael eu hadeiladu. Tybir mai cost asedau a gafaelwyd heblaw am drwy bryniant yw eu gwerth teg, oni bai nad oes gan y caffaeliad sylwedd masnachol (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llifoedd arian parod yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, lle caffaelir ased drwy gyfnewidiad, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddwyd gan yr Awdurdod.

I ddechrau, mesurir pob ased a roddir ar ei werth teg. Credydir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd i linell Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai y gwnaed y rhodd yn amodol. Nes y bodlonir yr amodau, delir yr enillion o fewn y Cyfrif Asedau a Roddwyd.

Lle credydir enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu hailsymud o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad Symud Cronfeydd. Caiff yr asedau eu cario yn y Fantolen wedyn gan ddefnyddio'r sylfeini mesur canlynol:

- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Asedau dros ben – gwerth teg
- Pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased fel y mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd

Lle nad oes tystiolaeth ar sail y farchnad o'r gwerth cyfredol o ganlyniad i natur arbenigol ased, defnyddir Cost Adnewyddu Ddibrisiedig fel amcan bris o'r gwerth cyfredol. Lle bydd gan asedau nad ydynt yn eiddo oesoedd defnyddiol byr a/neu werthoedd isel, defnyddir sail cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol. Ailbrisir asedau a gynhwyswyd yn y Fantolen ar werth cyfredol yn ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd.
Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 31 Mawrth 2010 yn unig, sef ei dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cydgrynhoi i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Gwariant dilynol**
Lle bydd gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, ychwanegir y gost uniongyrchol briodoladwy at werth cario'r ased. Lle bydd gwariant dilynol yn adfer yr ased i'r fanyleb a dybiwyd gan ei oes ddefnyddiol economaidd yn unig, priodolir y gwariant i gostau gweithredu.

**Ailbrisio ac amhariad**
Cydnabyddir cynnydd mewn gwerthoedd asedau sy'n deillio o ailbrisiadau yn y gronfa ailbrisio, ac eithrio lle maent yn gwrthdroi amhariad mewn costau gweithredu a gydnabuwyd yn flaenorol, ac i'r graddau y maent yn gwneud hyn, ac yn yr achos hwn maent yn cael eu cydnabod o fewn incwm gweithredu.

Priodolir gostyngiadau mewn gwerthoedd asedau ac amhariadau i'r gronfa ailbrisio i'r graddau y bydd balans ar gael i'r ased dan sylw, ac wedi hynny fe'u priodolir i gostau gweithredu.

Mae enillion a cholledion a gydnabyddir yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu hadrodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac 'incwm a gwariant cynhwysfawr eraill'.

**Dibrisiant**
Cyfrifir dibrisiant bob eiddo, peiriant a chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol mewn modd systematig. Asedau heb oes ddefnyddiol bendant y gellir ei phennu yw'r eithriad (h.y. tir rhydd-ddaliadol ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu). Cyfrifir dibrisiant fel a ganlyn:

- Adeiladau – dyraniad llinell syth dros yr oes sy'n weddill gan yr eiddo, yn unol â'r hyn a amcangyfrifir gan y prisiwr

- Cerbydau, peiriannau a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros yr oes ddefnyddiol sy'n weddill (os prynwyd nhw cyn 31 Rhagfyr ym mlwyddyn y cyfrifon)
- Tir – ni chaiff dibrisiant ei gyfrifo ar dir
- Caiff meddalwedd ei dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnodau o hyd at bum mlynedd
- Nid ystyrir unrhyw werth gweddilliol

Caiff enillion ailbrisio hefyd eu dibrisio, gyda swm sy'n gyfartal â'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd dibrisiant cyfredol a godwyd ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

**Gwarediadau**
Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff y swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yr ased yn eiddo, yn beiriant a chyfarpar neu'n ased a gedwir i'w werthu) ei ddileu a'i symud i'r llinell Incwm a Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golledion pan gaiff ei waredu. Caiff derbyniadau gwarediadau (os yw'r rhain ar gael) hefyd eu gosod ar yr un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golledion gwaredu (h.y. gwerth net y gwerth a osodwyd ar yr ased ar adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio wrth gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwaredu asedau eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf a'u rhoi yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn i'w defnyddio ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd yn unig neu eu rhoi i un ochr i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca. Dyrennir derbyniadau o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd. Ni chyfrifir gwerth y derbyniadau a ddilëwyd yn erbyn cyfraniadau, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau anghyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Dyrennir symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

**Menter Cyllido Preifat (PFI)**
Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb contractiol hirdymor o dan y PFI i ddarparu canolfan hyfforddi ym Mhorth Caerdydd. O dan y cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn darparu ychydig o gymorth refeniw i'r prosiect ar ffurf grant blynyddol (credydau Menter Cyllid Preifat) ac mae'r Awdurdod yn ariannu'r hyn sy'n weddill drwy wneud cyfraniadau o'r gyllideb refeniw flynyddol.

Er mwyn gwasgaru'r cyfraniadau'n gyfartal dros oes y contract, mae cronfa gydraddoli ar waith, lle caiff credydau a chyfraniadau dros ben eu buddsoddi a'u defnyddio i leihau'r cyfraniadau mewn blynyddoedd i ddod. Bydd y gronfa'n cael ei hadolygu bob blwyddyn a'r cyfraniadau eu haddasu gyda'r nod o gael balans o sero ar y gronfa erbyn diwedd y contract.

**Darpariaethau**
Gwneir darpariaethau pan fydd rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod a fydd siŵr o fod yn gofyn iddo setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle y mae amseru'r trosglwyddiad yn ansicr.

Cyflwynir y darpariaethau i'r cyfrif refeniw priodol pan ddaw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan gaiff taliadau eu gwneud yn y pen draw, cânt eu cyflwyno i'r ddarpariaeth a osodwyd yn y Fantolen. Adolygir setliadau amcangyfrifol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – pan ddaw hi'n fwy tebygol na pheidio na fydd angen trosglwyddo buddion economaidd, caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i dychwelyd i'r cyfrif refeniw perthnasol.

**Rhwymedigaethau wrth gefn**
Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 yn diffinio rhwymedigaethau wrth gefn fel un o'r canlynol:

- rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol, a lle bydd ei bodolaeth dim ond yn cael ei chadarnhau pan fydd un digwyddiad ansicr neu ragor yn digwydd yn y dyfodol nad yw'n gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod,
- neu rwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol ond na chaiff ei chydnabod oherwydd:

  a) nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, neu
  b) ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Pan fydd rhwymedigaeth wrth gefn yn bodoli, ni fydd yn cael ei nodi fel eitem o wariant yn y cyfrifon. Yn hytrach, bydd yn cael ei datgelu mewn nodyn ar y Fantolen, a fydd yn disgrifio natur y rhwymedigaeth wrth gefn a, lle y bo'n ymarferol, amcangyfrif o'i heffaith ariannol a syniad o'r ansicrwydd sy'n berthnasol i swm unrhyw all-lif.

**Cronfeydd wrth gefn**
Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd wrth gefn er mwyn talu am wariant yn y dyfodol. Datgelir y rhain yn y Fantolen a chaiff eu dibenion eu hegluro yn y nodiadau ar y Fantolen.

**Treth ar werth (TAW)**
Mae'r Awdurdod yn cael ei ad-dalu am TAW a godir, felly mae'r cyfrifon refeniw wedi'u paratoi heb gynnwys y dreth hon.

## SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI'U CYFLWYNO OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r safonau newydd a diwygiadau i safonau presennol sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu gan y cod tan 2023/24 fel a ganlyn:

- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 8)
- Datgelu Polisïau Cyfrifyddu (Diwygiadau i Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 1 a chyfrif ymarfer Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 2)
- Treth ohiriedig sy'n ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Drafodiad Unigol (Diwygiadau i Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 12)
- Diweddaru Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 3)

Ni ragwelir y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar yr wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

### Nodyn 1 – DYFARNIADAU CRITIGOL WRTH GYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud dyfarniadau penodol ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai hynny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau i ddod. Mae'r dyfarniadau critigol yn y datganiad o gyfrifon yn cynnwys y canlynol:

- Mae ansicrwydd mawr ynghylch y lefelau ariannu ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi pennu nad oes digon o ansicrwydd eto i ddangos y gallai asedau'r Awdurdod gael eu hamharu o ganlyniad i'r angen i leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir.

### Nodyn 2 – RHAGDYBIAETHAU SYDD WEDI'U GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU AMCANGYFRIFO MAWR ERAILL

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau bras sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol neu ffigurau sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon drwy ystyried profiad blaenorol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, am na ellir pennu balansau â sicrwydd, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym mantolen yr Awdurdod, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023, lle mae risg sylweddol o addasiadau mawr yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau pensiwn<br><br>(Nodyn 34) | Mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud yn y cyfrifon o ran gwerth costau ac incwm pensiynau yn y dyfodol, h.y. rhwymedigaethau ac asedau. Diben hyn yw rhoi dealltwriaeth o'r rhwymedigaethau posibl a wynebir gan yr Awdurdod. | Bydd newidiadau i ragdybiaethau pensiwn yn effeithio ar werth asedau a rhwymedigaethau a bydd yn effeithio ar y prif ddatganiadau ariannol, h.y. y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Llif Arian. |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar<br><br>(Nodyn 9) | Mae'r Awdurdod yn ailbrisio'i asedau bob pum mlynedd. Cynhaliwyd yr ailbrisiad diwethaf yn 2019/20. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, oes ddefnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Ers y dyddiad prisio, bu cynnydd sylweddol yn nata adeiladu'r Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS), felly, ar 31 Mawrth 2022, cwblhawyd ymarfer ailbrisio bwrdd gwaith o eiddo gweithredol a | Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd a ddelir yn y Fantolen ac ar y tâl dibrisiant cyfatebol. |

| | | |
|---|---|---|
| | fesurwyd ar Gostau Adnewyddu Dibrisiedig gan briswyr yr Awdurdod. | |

## Nodyn 3 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU O DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r addasiadau sy'n cael eu gwneud i Gyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol, i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod er mwyn talu am wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

# Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau

| 2021/22 | | | | | 2022/23 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Symudiadau mewn cronfeydd na ellir eu defnyddio £000 | | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Symudiadau mewn cronfeydd na ellir eu defnyddio £000 |
| | | | | **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:** | | | | |
| | | | | **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| **-4,375** | **0** | **0** | **4,375** | Ffioedd ar gyfer dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | **-5,564** | **0** | **0** | **5,564** |
| | | | | Colledion ailbrisio ar eiddo, peiriannau a chyfarpar | | | | |
| **392** | **0** | **0** | **-392** | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd | **1,425** | **0** | **0** | **-1,425** |
| **-179** | **179** | **0** | **0** | Trafodion Menter Cyllid Preifat i gronfeydd a glustnodwyd | **-312** | **312** | **0** | **0** |
| **0** | **0** | **0** | **0** | Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion / colledion wrth waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **-4,162** | **179** | **0** | **3,983** | | **-4,451** | **312** | **0** | **4,139** |
| | | | | **Mewnosod eitemau na ddebydwyd neu na chredydwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| **3,066** | **0** | **0** | **-3,066** | **Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf** | **3,630** | **0** | **0** | **-3,630** |
| **200** | **0** | **0** | **-200** | Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | **200** | **0** | **0** | **-200** |
| | | | | **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | |
| **58** | **0** | **-60** | **2** | Elw ar werthiannau arian parod a drosglwyddwyd, a gredydwyd fel rhan o'r enillion / colledion wrth waredu | **-13** | **0** | **-24** | **37** |
| **0** | **0** | **189** | **-189** | Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | **0** | **0** | **24** | **-24** |
| **3,324** | **0** | **129** | **-3,453** | | **3,817** | **0** | **0** | **-3,817** |
| | | | | **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiwn:** | | | | |
| **-37,525** | **0** | **0** | **37,525** | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **-33,226** | **0** | **0** | **33,226** |
| **11,275** | **0** | **0** | **-11,275** | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | **11,767** | **0** | **0** | **-11,767** |
| **-26,250** | **0** | **0** | **26,250** | | **-21,459** | **0** | **0** | **21,459** |
| | | | | **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | |
| **170** | **0** | **0** | **-170** | Y swm sy'n wahanol rhwng y taliadau cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnus a'r taliadau cydnabyddiaeth y gellir eu codi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol (Nodyn 22) | **332** | **0** | **0** | **-332** |
| **-26,918** | **179** | **129** | **26,610** | **Cyfanswm yr addasiadau:** | **-21,761** | **312** | **0** | **21,449** |

## Nodyn 4 – DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| Gwariant net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu | 2021/22 Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | Gwariant net sy'n daladwy i'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu | 2022/23 Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** |
| 73,703 | 5,933 | 79,636 | Gwasanaethau diffodd tân | 79,199 | -4,591 | 74,608 |
| **73,703** | **5,933** | **79,636** | Cost net gwasanaethau | **79,199** | **-4,591** | **74,608** |
| -77,530 | 20,985 | -56,545 | Incwm a gwariant eraill | -79,304 | 26,352 | -52,952 |
| **-3,827** | **26,918** | **23,091** | (Gwarged) / Diffyg (Nodyn 4 a Nodyn 5) | **-105** | **21,761** | **21,656** |
| -3,000 | | | Balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol | -3,000 | | |
| -3,827 | | | +/- (Gwarged) / Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol | -105 | | |
| **3,827** | | | Trosglwyddiadau i / (o) gronfeydd a glustnodwyd | **105** | | |
| **-3,000** | | | **Balans terfynol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth** | **-3,000** | | |

| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod at symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at ddibenion cyfalaf £000 | Newid net ar gyfer addasiadau i bensiynau £000 | Gwahaniaethau eraill £000 | 2022/23 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau diffodd tân | 2,152 | -4,581 | -2,162 | -4,591 |
| **Cost net gwasanaethau** | **2,152** | **-4,581** | **-2,162** | **-4,591** |
| **Incwm a gwariant eraill o'r dadansoddiad o wariant a chyllido** | 13 | 26,040 | 299 | 26,352 |
| **Y gwahaniaeth rhwng gwarged / diffyg y Gronfa Gyffredinol a gwarged / diffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y gwasanaethau a ddarperir** | **2,165** | **21,459** | **-1,863** | **21,761** |

| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod at symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau at ddibenion cyfalaf £000 | Newid net ar gyfer yr addasiadau i bensiynau £000 | Gwahaniaethau eraill £000 | 2021/22 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau diffodd tân | 1,474 | 5,780 | -1,321 | 5,933 |
| **Cost net gwasanaethau** | **1,474** | **5,780** | **-1,321** | **5,933** |
| **Incwm a gwariant eraill o'r dadansoddiad o wariant a chyllido** | -58 | 20,470 | 573 | 20,985 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y gwahaniaeth rhwng gwarged / diffyg y Gronfa Gyffredinol a gwarged / diffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y gwasanaethau a ddarperir** | **1,416** | **26,250** | **-748** | **26,918** |

## Nodyn 5 – GWARIANT AC INCWM WEDI'U DADANSODDI YN ÔL EU NATUR

Mae incwm a gwariant yr Awdurdod wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

| | **2021/22 £000** | **2022/23 £000** |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Cyflogau, Yswiriant Gwladol a blwydd-daliadau | 61,251 | 65,537 |
| Pensiynau (anhwylder) | 975 | 982 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 242 | 464 |
| **Cyfanswm costau cyflogeion** | **62,468** | **66,983** |
| Treuliau sy'n ymwneud ag eiddo | 5,324 | 5,642 |
| Treuliau hyfforddi | 1,549 | 1,668 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 5,522 | 6,247 |
| Treuliau sy'n ymwneud â chludiant | 1,433 | 1,601 |
| Gwasanaethau dan gontract | 958 | 1,159 |
| Costau cyfalaf / lesoedd | 4,101 | 4,556 |
| Gwariant gros | 81,355 | 87,856 |
| Incwm | -7,652 | -8,657 |
| **(Gwarged)/diffyg ar gyfer y flwyddyn** | **73,703** | **79,199** |

### Cysoni incwm a gwariant â'r gwasanaethau a ddarperir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

| | | |
|---|---|---|
| **Symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr na adroddwyd yn yr incwm a gwariant** | | |
| Absenoldebau cronnus | -170 | -332 |
| Addasiadau Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 | 26,250 | 21,459 |
| Costau gweithredu Menter Cyllid Preifat | 1,331 | 1,420 |
| Addasiad cyllido ynghylch: Menter Cyllid Preifat / lesoedd | 491 | 482 |
| Dibrisiant (gan gynnwys amhariadau) | 4,375 | 5,564 |
| Grant cyfalaf | -392 | -1,425 |
| Asedau anghyfredol a waredwyd | -60 | 13 |
| Cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol | -77,530 | -79,304 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Menter Cyllid Preifat | -1,004 | -965 |
| **Symiau sydd wedi'u cynnwys yn yr incwm a gwariant nad ydynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| Cyfrif gwariant cyfalaf i refeniw | -200 | -200 |
| Darpariaeth isafswm refeniw (heb gynnwys Menter Cyllid Preifat a lesoedd) | -2,699 | -3,211 |
| Cyfraniad at Fenter Cyllid Preifat | -1,004 | -1,044 |
| **(Gwarged) / diffyg ar y gwasanaethau a ddarperir** | **23,091** | **21,656** |

## Nodyn 6 – GWARIANT AC INCWM GWEITHREDU ARALL

| **2021/22 £000** | | **2022/23 £000** |
|---|---|---|
| -58 | (Enillion) / colledion net wrth waredu asedau anghyfredol | 13 |
| **-58** | **Cyfanswm** | **13** |

## Nodyn 7 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

| **2021/22 £000** | | **2022/23 £000** |
|---|---|---|
| 1,587 | Llog sy'n daladwy a ffioedd tebyg | 1,524 |
| 20,470 | Cost llog pensiynau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau pensiynau | 26,040 |
| -10 | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | -260 |
| **22,047** | **Cyfanswm** | **27,304** |

## Nodyn 8 – TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| 77,530 | Cyfraniadau awdurdodau lleol (Nodyn 29) | 79,304 |
| 392 | Grantiau gyfalaf a chyfraniadau | 1,425 |
| 1,004 | Grantiau llywodraeth – Menter Cyllid Preifat (Nodyn 33) | 965 |
| **78,926** | **Cyfanswm** | **81,694** |

## Nodyn 9 – EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

**Asedau sefydlog 2022/23**

| | Tir ac adeiladau | Cerbydau a chyfarpar | Canolfan hyfforddi / Menter Cyllid Preifat | Asedau ar waith | Cyfanswm eiddo, peiriannau a chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost/prisiad** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gwerth cyfrifon gros fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 66,390 | 37,475 | 6,405 | 0 | 110,270 |
| Ychwanegiadau | 1,631 | 5,313 | 0 | 156 | 7,100 |
| Ailbrisio | 3,679 | 0 | 506 | 0 | 4,185 |
| Asedau a waredwyd | -37 | -286 | 0 | 0 | -323 |
| Gwerth cyfrifon gros fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 | 71,663 | 42,502 | 6,911 | 156 | 121,232 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | | | |
| Dibrisiant cronnus fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 303 | 24,732 | 0 | 0 | 25,035 |
| Dibrisiant blynyddol | 1,732 | 2,937 | 210 | 0 | 4,879 |
| Ailbrisio | -1,600 | 0 | -210 | 0 | -1,810 |
| Asedau a waredwyd | 0 | -286 | 0 | 0 | -286 |
| Dibrisiant cronnus fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 | 435 | 27,383 | 0 | 0 | 27,818 |
| Gwerth cyfrifon net fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 66,087 | 12,743 | 6,405 | 0 | 85,235 |
| Gwerth cyfrifon net fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 | 71,228 | 15,119 | 6,911 | 156 | 93,414 |

Noder: mae'r holl eiddo'n rhydd-ddaliadol heblaw am y rhai o dan y Fenter Cyllid Preifat.

Mae asedau sy’n cael eu hadeiladu yn ymwneud â gwefrwyr cerbydau trydan a gyflenwyd gennym cyn 31 Mawrth 2023 ond na chawsant eu gosod.

Canfu asesiad o oblygiadau newidiadau yn nata’r Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu yn ystod 2022/23 newid sylweddol mewn costau adeiladu ac effaith ganlyniadol ar asedau a brisiwyd yn y cyfrifon ar sail Cost Adnewyddu Ddibrisiedig. Mae gwerthoedd cario ased y Gost Adnewyddu Ddibrisiedig wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn ers ein hailbrisiad bwrdd gwaith diwethaf ar 31.3.2022.

## Asedau sefydlog 2021/22

| Cost / prisiad | Tir ac adeiladau £000 | Cerbydau a chyfarpar £000 | Canolfan hyfforddi / Menter Cyllid Preifat £000 | Cyfanswm Eiddo, peiriannau a chyfarpar £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth cyfrifon gros fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 | 63,814 | 36,932 | 5,890 | 106,636 |
| Ychwanegiadau | 1,164 | 1,072 | 0 | 2,236 |
| Asedau a waredwyd | 0 | -529 | 0 | -529 |
| Amhariadau | 1,412 | 0 | 515 | 1,927 |
| Gwerth cyfrifon gros fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 66,390 | 37,475 | 6,405 | 110,270 |
| **Dibrisiant ac amhariadau** | | | | |
| Dibrisiant cronnus fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 | 1,485 | 22,728 | 180 | 24,393 |
| Dibrisiant blynyddol | 1,542 | 2,531 | 180 | 4,253 |
| Ailbrisio | -2,724 | | -360 | -3084 |
| Asedau a waredwyd | 0 | -527 | 0 | -527 |
| Dibrisiant cronnus fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 303 | 24,732 | 0 | 25,035 |
| Gwerth cyfrifon net fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 | 62,329 | 14,204 | 5,710 | 82,243 |
| Gwerth cyfrifon net fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2022 | 66,087 | 12,743 | 6,405 | 85,235 |

Noder: mae'r holl eiddo'n rhydd-ddaliadol heblaw am y rhai o dan Fenter Cyllid Preifat.

## Nodyn 10 – OFFERYNNAU ARIANNOL

### 1. Balansau offerynnau ariannol

Mae'r benthyciadau a'r buddsoddiadau a ddatgelir yn y Fantolen wedi'u rhannu yn ôl y categorïau canlynol o offerynnau ariannol.

| | Hirdymor | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
| **Benthyca** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Rhwymedigaethau ariannol (prifswm) | 26,737 | 25,354 | 1,409 | 1,383 |
| + Llog cronnus (tymor byr yw llog cronnus) | 0 | 0 | 163 | 152 |
| **Cyfanswm y benthyciadau** | **26,737** | **25,354** | **1,572** | **1,535** |
| **Rhwymedigaethau Menter Cyllid Preifat** | **3,677** | **3,240** | **419** | **437** |
| **Credydwyr** | | | | |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | 0 | 0 | **4,783** | **5,425** |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| **Benthyciadau a derbyniadau (prifswm)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| + Llog cronnus | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm dyledwyr** | **200** | **100** | **4,738** | **6,071** |

**Nodyn** – O dan ofynion cyfrifyddu, dangosir gwerth cario'r offeryn ariannol ar y Fantolen, sy'n cynnwys y prifswm a fenthycwyd neu a fuddsoddwyd. Dangosir llog cronnus ar wahân yn yr asedau / rhwymedigaethau cyfredol lle mae'r taliadau / derbyniadau yn ddyledus o fewn blwyddyn.

### 2. Enillion / colledion offerynnau ariannol

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o ran offerynnau ariannol wedi'u rhannu fel a ganlyn:

| Enillion a cholledion offerynnau ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | | 2022/23 | |
| | Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio £000 | Asedau ariannol, benthyciadau a derbyniadau £000 | Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio £000 | Asedau ariannol, benthyciadau a derbyniadau £000 |
| Gwariant llog mewn gwarged neu ddiffyg o ran y gwasanaethau a ddarperir | **1,587** | **0** | **1,524** | **0** |
| Incwm llog mewn gwarged neu ddiffyg o ran y gwasanaethau a ddarperir | **0** | **10** | **0** | **260** |
| Enillion / (colled) net ar gyfer y flwyddyn | **1,587** | **10** | **1,524** | **260** |

Mae'r dadansoddiad o aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn, gyda'r terfynau mwyaf a lleiaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod:

| Cyfnod / tymor | Terfynau lleiaf cymeradwy | Terfynau mwyaf cymeradwy | Gwirioneddol 31 Mawrth 2022 £000 | Gwirioneddol 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Llai nag un flwyddyn | 0% | 25% | 1,409 | 1,383 |
| Rhwng un a dwy flynedd | 0% | 30% | 1,383 | 1,395 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 0% | 50% | 4,616 | 4,525 |
| Rhwng pump a deng mlynedd | 0% | 70% | 8,638 | 9,334 |
| Mwy na deng mlynedd | 0% | 95% | 12,100 | 10,100 |
| **Cyfanswm** | | | **28,146** | **26,737** |

Mae'r portffolio dyled yn cynnwys rhandaliad cyfartal o brifswm a benthyciadau aeddfedrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Gwerth y benthyciadau sy'n ddyledus ar ddyddiad y Fantolen yw £26.7 miliwn, gyda chyfradd dyled gyfartalog sy'n cyfateb i 3.80%.

## Nodyn 11 – GWERTH TEG ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU WEDI'U CARIO AR GOST WEDI'I HAMORTEIDDIO

Caiff rhwymedigaethau ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio ar y Fantolen (o ran asedau / rhwymedigaethau hirdymor, gyda llog cronnus mewn asedau / rhwymedigaethau

cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llifoedd arian sy'n bodoli dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- ✓ Ar gyfer benthyciadau sy'n daladwy o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, gellir cynnwys y gwerth teg o dan weithdrefnau adbrynu dyledion
- ✓ Ar gyfer benthyciadau sy’n dderbyniadwy (nid oes unrhyw fenthyciad o'r fath), byddai prif gyfraddau meincnod y farchnad yn cael eu defnyddio i ddarparu'r gwerth teg
- ✓ Ni chaiff ad-daliadau cynnar nac amhariadau eu cydnabod
- ✓ Pan fydd gan offeryn aeddfedrwydd o lai na 12 mis neu pan fydd yn fasnach neu'n dderbyniad arall, y gwerth teg fydd y swm cario neu'r swm ar y bil
- ✓ Gwerth teg masnach a symiau derbyniadwy eraill fydd y swm ar yr anfoneb neu'r swm ar y bil

Pan nodir amhariadau ar asedau oherwydd tebygolrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau o dan y contract yn cael eu talu, nodir yr ased hwn a chodir ffi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n codi yn sgil dileu cydnabyddiaeth o'r ased eu credydu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a/neu eu debydu oddi arno.

Mae'r gwerthoedd teg sy'n berthnasol i fenthyciadau fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2022** | | **31 Mawrth 2023** | |
|---|---|---|---|---|
| **£000** | **Swm cario** | **Gwerth teg** | **Swm cario** | **Gwerth teg** |
| Dyled y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 28,139 | 30,834 | 26,737 | 25,500 |
| Dyled nad yw'n ymwneud â'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 7 | 7 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y ddyled** | **28,146** | **30,841** | **26,737** | **25,500** |

Mae'r gwerth teg yn llai na'r swm cario am fod portffolio benthyciadau’r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau ar gyfradd sefydlog lle mae cyfradd y llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael yn y farchnad ar ddyddiad y Fantolen.

## Nodyn 12 – BUDDSODDIADAU TYMOR BYR

Yn unol â strategaeth rheoli'r trysorlys, nid oes unrhyw fuddsoddiadau tymor byr heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## Nodyn 13 – DYLEDWYR

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| 2,638 | Cyrff llywodraeth ganolog | 3,168 |
| 1,058 | Awdurdodau lleol eraill* | 1,415 |
| 20 | Cyrff y GIG | 63 |
| 1,222 | Endidau ac unigolion eraill | 1,525 |
| **4,938** | **Cyfanswm** | **6,171** |

* Yn cynnwys swm dyledwyr hirdymor o £200,000 ar gyfer 21/22 a £100,000 ar gyfer 22/23.

## Nodyn 14 – ARIAN PAROD A SYMIAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| 7,158 | Cyfrifon cyfredol mewn banciau | 2,163 |
| **7,158** | **Cyfanswm** | **2,163** |

## Nodyn 15 – CREDYDWYR

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| 1,463 | Cyrff llywodraeth ganolog | 1,482 |
| 595 | Awdurdodau lleol eraill | 333 |
| 15 | Cyrff y GIG | 22 |
| 34 | Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 |
| 1,302 | Endidau ac unigolion eraill | 2,805 |
| 259 | Derbyniadau ymlaen llaw | 0 |
| 1,115 | Absenoldebau cronnus (Nodyn 22) | 783 |
| **4,783** | **Cyfanswm** | **5,425** |

## Nodyn 16 – DARPARIAETHAU

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| 38 | Rheoliadau gweithwyr rhan-amser | 38 |
| **38** | **Cyfanswm** | **38** |

## Nodyn 17 – CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO

| **Balans ar 1 Ebrill 2021 £000** | Trosglwyddiadau allan 2021/22 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2021/22 £000 | **Balans ar 31 Mawrth 2022 £000** | | Trosglwyddiadau allan 2022/23 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2022/23 £000 | **Balans fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2023 £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6,400** | -72 | 3,927 | **10,255** | Cronfa Rheoli Newid | -7,437 | 276 | **3,094** |
| **400** | -100 | 0 | **300** | Cronfa Lesoedd dan Reolaeth ar y Cyd | -100 | 0 | **200** |
| **3,683** | -179 | 0 | **3,504** | Cronfa Cydraddoli Menter Cyllid Preifat | -312 | 0 | **3,192** |
| **43** | 0 | 72 | **115** | Cronfa Tanwariant a Reolir | -71 | 97 | **141** |
| **0** | 0 | 0 | **0** | Cronfa Adolygiad Diwylliant | 0 | 340 | **340** |
| **0** | 0 | 0 | **0** | Cronfa Lleihau Carbon | 0 | 3,000 | **3,000** |
| **0** | 0 | 0 | **0** | Cronfa Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 0 | 2,000 | **2,000** |
| **0** | 0 | 0 | **0** | Cronfa Adnewyddu Cyfarpar | 0 | 2,000 | **2,000** |
| **129** | -189 | 60 | **0** | Derbyniadau cyfalaf | -24 | 24 | **0** |
| **3,000** | -3,827 | 3,827 | **3,000** | Cronfa Gyffredinol | -105 | 105 | **3,000** |
| **13,655** | **-4,367** | **7,886** | **17,174** | **Cyfanswm y cronfeydd y gellir eu defnyddio** | **-8,049** | **7,842** | **16,967** |

Yn ystod y flwyddyn, bu’r symudiadau canlynol mewn cronfeydd a glustnodwyd:

- Mae'r tanwariant refeniw a chostau les blynyddol y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Rheoli Newid. Yn ogystal, mae unrhyw brosiectau a gwblhawyd yn ystod 2022/23, ynghyd â'r rhai y rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod 2023/24, wedi cael eu trosglwyddo o'r Gronfa Tanwariant a Reolir ac iddi, yn y drefn honno. Mae balansau hefyd wedi cael eu trosglwyddo o'r Gronfa Rheoli Newid i'r cronfeydd sydd newydd eu sefydlu i gefnogi'r strategaethau a amlinellwyd ym mhob maes.
- Dangosir y balans sy’n weddill ar les flynyddol y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n daladwy dros gyfnod o wyth mlynedd, gan ddechrau o 2017/18, fel cronfa ar wahân.
- Mae'r Gronfa Cydraddoli Menter Cyllid Preifat yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr arian angenrheidiol ar gael i wneud y taliadau i'r darparwr Menter Cyllid Preifat yn y dyfodol.
- Mae £97,000 wedi cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Rheoli Newid i'r Gronfa Tanwariant a Reolir fel y manylir uchod, gyda £71,000 yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Rheoli Newid ar gyfer prosiectau a gwblhawyd yn 2022/23.
- Mae'r Gronfa Adolygu Diwylliant wedi'i sefydlu i dalu am gostau a nodir fel rhan o'r broses Adolygu Diwylliant annibynnol ar draws y gwasanaeth.
- Mae’r Gronfa Lleihau Carbon wedi’i sefydlu i gyflawni’r nodau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Carbon 2020-2030.
- Mae'r Gronfa Cdraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i sefydlu i gefnogi'r fframwaith i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth ac arferion da mewnol.
- Mae'r Gronfa Adnewyddu Cyfarpar wedi'i sefydlu i esmwytho’r amrywiadau yn y darpariaethau blynyddol gofynnol ar gyfer adnewyddu cyfarpar.
- Mae derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ariannu buddsoddiadau cyfalaf, gyda £24,000 wedi’i dderbyn yn ystod y flwyddyn a’i ddefnyddio yn erbyn gwariant cyfalaf.

**Y Gronfa Gyffredinol**

Yn ogystal â'r cronfeydd uchod a glustnodwyd, cedwir balans y Gronfa Gyffredinol ar y lefel leiaf yr ystyrir ei bod yn ddigonol i ddarparu lefel o wytnwch gweithredol o ran digwyddiadau mawr / trychinebau.

## Nodyn 18 – CRONFEYDD NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2022 £000 | | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---:|---|---:|
| -18,492 | Cronfa Ailbrisio (Nodyn 19) | -24,142 |
| -26,627 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf (Nodyn 20) | -26,650 |
| 987,073 | Cronfa Bensiynau (Nodyn 21) | 683,932 |
| 1,115 | Cronfa Absenoldebau Cronnus (Nodyn 22) | 783 |
| **943,069** | **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio** | **633,923** |

## Nodyn 19 – CRONFA AILBRISIO

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a gafodd yr Awdurdod yn sgil cynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei beiriannau a’i gyfarpar. Mae'r balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion cronnus yn:

- cael eu hailbrisio ar i lawr neu'n cael eu hamharu, gan golli'r enillion
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac mae'r enillion yn cael eu llyncu drwy ddibrisiant
- cael eu gwaredu ac mae’r enillion yn cael eu realeiddio

| **2021/22 £000** | | **2022/23 £000** |
|---:|:---:|---:|
| **-13,770** | **Balans ar 1 Ebrill** | **-18,492** |
| -5,319 | Addasiad ailbrisio | -5,995 |
| 420 | Addasiad oherwydd amhariadau | 0 |
| 177 | Y gwahaniaeth mewn gwerth teg a dibrisiant o ran y gost hanesyddol | 345 |
| **-18,492** | **Balans ar 31 Mawrth** | **-24,142** |

## Nodyn 20 – CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r amseru gwahanol sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer cyfrifyddu ar gyfer y defnydd o asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r gwaith o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Caiff y gost o gaffael, adeiladu neu wella ei thynnu o'r cyfrif a chaiff dibrisiant, colledion amharu ac amorteiddio eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda throsglwyddiadau cysoni o'r Gronfa Ailbrisio er mwyn trosi ffigurau gwerth teg yn gostau hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i ariannu'r gost o gaffael, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio sydd wedi cronni ar eiddo, peiriannau a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2010, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisio i gadw enillion o'r fath.

| 2021/22 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **-26,980** | **Balans ar 1 Ebrill** | **-26,627** |
| -3,066 | Darpariaeth isafswm refeniw (Nodyn 30) | -3,630 |
| 4,123 | Dibrisiant (ailbrisiad net) | 4,617 |
| -627 | Ailbrisio | 0 |
| 702 | Gwariant nad yw'n ymwneud â gwella | 602 |
| -200 | Gwariant cyfalaf a ariannwyd o adnoddau refeniw (cyfrif gwariant cyfalaf i refeniw) (Nodyn 30) | -200 |
| -392 | Grantiau cyfalaf (Nodyn 30) | -1,425 |
| 2 | Gwerth net gwaredu asedau anghyfredol | 37 |
| -189 | Asedau a ariannwyd o dderbyniadau cyfalaf | -24 |
| **-26,627** | | **-26,650** |

## Nodyn 21 – Y GRONFA BENSIYNAU

Mae'r Gronfa Bensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau ar gyfer cyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu budd-daliadau yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn ystyried budd-daliadau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Enillir y budd-daliadau gan gyflogeion am gronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn dangos chwyddiant, rhagdybiaethau newidiol ac elw buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fudd-daliadau a enillir gael eu cyllido am fod yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu, yn y pendraw, yn talu am bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiynau felly'n dangos prinder sylweddol yn y budd-daliadau a enillwyd gan gyflogeion blaenorol a phresennol ac yn yr adnoddau y mae'r Awdurdod wedi'u neilltuo i dalu amdanynt. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi ei roi o’r neilltu erbyn y bydd angen talu'r budd-daliadau.

| 2021/22<br>£000 | | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| **1,021,493** | **Balans ar 1 Ebrill** | **987,073** |
| -60,670 | Ailfesuriadau o'r rhwymedigaeth net o ran budd-daliadau diffiniedig (ased) | -324,600 |
| 37,525 | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r gwarged neu'r diffyg ar y gwasanaethau a ddarperir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 33,226 |
| -11,275 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | -11,767 |
| **987,073** | **Balans ar 31 Mawrth** | **683,932** |

## Nodyn 22 – CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar falans y Gronfa Gyffredinol yn sgil cronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chafodd eu cymryd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawliau gwyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddo symiau i mewn i'r cyfrif neu allan ohono.

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **-1,285** | **Balans ar 1 Ebrill** | **-1,115** |
| 1,285 | Setlio neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 1,115 |
| 1,115 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol (Nodyn 15) | 783 |
| 170 | Y swm sy'n wahanol rhwng y taliadau cydnabyddiaeth i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronnus a'r taliadau cydnabyddiaeth y gellir eu codi yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r gofynion statudol (Nodyn 3) | 332 |
| **-1,115** | **Balans ar 31 Mawrth** | **-783** |

## Nodyn 23 – DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2021/22<br>£000 | | 2022/23<br>£000 |
|---|---|---|
| **23,091** | **Diffyg net o ran y gwasanaethau a ddarperir** | **21,656** |
| | **Addasiadau i ddiffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| -83 | Cynnydd / (gostyngiad) mewn stoc | 111 |
| -2,379 | Cynnydd / (gostyngiad) mewn dyledwyr | 1,233 |
| 2,292 | (Cynnydd) / gostyngiad mewn credydwyr | -389 |
| -4,375 | Tâl dibrisiant (gan gynnwys amhariadau) | -5,564 |
| 58 | Enillion ar waredu asedau | -13 |
| -26,250 | Addasiadau Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 | -21,459 |
| 170 | Eitemau anariannol eraill a godwyd ar y diffyg net o ran y gwasanaethau a ddarperir | 332 |
| **-30,567** | **Llai’r cyfanswm** | **-25,749** |
| | **Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y diffyg net o ran y gwasanaethau a ddarperir sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido** | |
| -1,587 | Llog sy'n daladwy | -1,524 |
| 10 | Llog sy'n dderbyniadwy | 260 |
| 392 | Grantiau cyfalaf | 1,425 |
| **-1,185** | **Llai’r cyfanswm** | **161** |
| **-8,661** | **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | **-3,932** |

## Nodyn 24 – LLIF ARIAN PAROD– GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI A CHYLLIDO

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| 2,289 | Eiddo, peiriannau a chyfarpar a brynwyd, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 7,274 |
| -60 | Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | -24 |
| -392 | Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | -1,458 |
| **1,837** | **Llif arian net (i mewn) / allan o weithgareddau buddsoddi** | **5,792** |
| 0 | Derbyniadau arian parod o fenthyciadau tymor byr a hirdymor | 0 |
| -8 | Derbyniadau eraill o weithgareddau cyllido | -227 |
| 365 | Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sydd heb eu talu mewn perthynas â lesi cyllid a chontractau Menter Cyllid Preifat ar y Fantolen | 419 |
| 916 | Ad-dalu benthyciadau tymor byr a hirdymor | 1,409 |
| 1,591 | Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau cyllido | 1,534 |
| **2,864** | **Llif arian net (i mewn) / allan o weithgareddau cyllido** | **3,135** |

## Nodyn 25 – LWFANSAU AELODAU

Yn ystod 2022/23, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004, roedd y cyfraddau blynyddol canlynol yn daladwy:

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| 69 | Cyfanswm lwfansau aelodau | 74 |
| 0 | Cyfanswm gwariant yr aelodau | 2 |
| **69** | **Cyfanswm** | **76** |

Mae’r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 24 o gynghorwyr o'r deg awdurdod lleol a ddaeth ynghyd i'w ffurfio. Talwyd holl dreuliau'r aelodau fel ad-daliad o gostau wrth gyflawni eu dyletswyddau.

## Nodyn 26 – TALIADAU CYDNABYDDIAETH I SWYDDOGION

Mae'r taliadau cydnabyddiaeth a dalwyd i uwch-gyflogeion yr awdurdod fel a ganlyn:

| Teitl | **Blwyddyn** | Cyflog £000 | Trethadwy Treuliau £000 | *Buddiannau mewn nwyddau £000 | Cyfanswm heb gynnwys pensiwn £000 | Pensiwn cyflogwyr £000 | **Tâl cydnabyddiaeth gros £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Prif Swyddog Tân | **2022/23** | **145** | **0** | **0** | **145** | **39** | **184** |
| | **2021/22** | **140** | **0** | **0** | **140** | **38** | **178** |
| Y Dirprwy Brif Swyddog** | **2022/23** | **33** | **0** | **0** | **33** | **2** | **35** |
| | **2021/22** | **106** | **0** | **0** | **106** | **16** | **122** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (A) / Dirprwy Brif Swyddog Tân (B) ****** | **2022/23** | **114** | **0** | **0** | **114** | **30** | **144** |
| | **2021/22** | **105** | **0** | **0** | **105** | **31** | **136** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (B) / Gwasanaethau Technegol (C)****** | **2022/23** | **39** | **0** | **0** | **39** | **9** | **48** |
| | **2021/22** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Gwasanaethau Corfforaethol**** | **2022/23** | **90** | **0** | **0** | **90** | **14** | **104** |
| | **2021/22** | **71** | **0** | **2** | **73** | **11** | **84** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol (A) / Dirprwy Brif Swyddog Tân (A)*** | **2022/23** | **97** | **0** | **0** | **97** | **27** | **124** |
| | **2021/22** | **109** | **0** | **0** | **109** | **29** | **138** |
| Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Gwasanaethau Pobl | **2022/23** | **90** | **0** | **5** | **95** | **14** | **109** |
| | **2021/22** | **87** | **0** | **5** | **92** | **13** | **105** |
| Y Trysorydd | **2022/23** | **29** | **0** | **0** | **29** | **4** | **33** |
| | **2021/22** | **28** | **0** | **0** | **28** | **4** | **32** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Gwasanaethau Technegol (B) / Gweithredu Diwydiannol***** | **2022/23** | **92** | **0** | **0** | **92** | **19** | **111** |
| | **2021/22** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

* Mae buddion mewn nwyddau'n ymwneud â lwfans ar gyfer cerbyd ar gynllun hurio car y gwasanaeth.

** Ymddeolodd y Dirprwy Brif Swyddog ar 16/5/22 oherwydd afiechyd, – yn cynnwys tâl yn lle rhybudd.
Yn 2021, tra bod y Dirprwy Brif Swyddog ar absenoldeb salwch hirdymor, cafodd rôl y Dirprwy Brif Swyddog ei chyflawni dros dro drwy rannu'r swydd yn gyfrifoldebau gweithredol (lifrai / Dirprwy Brif Swyddog Tân) a chorfforaethol (di-lifrai / Prif Swyddog Tân Cynorthwyol). Cafodd penodiadau i'r rolau hyn eu gwneud ar 6/9/21 a 7/6/21, yn y drefn honno. Cadwodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân dros dro ei gyfrifoldebau rôl presennol ochr yn ochr â chyfrifoldebau ychwanegol y Dirprwy Brif Swyddog Tân. Ar 10/10/22, gwnaed rôl y Prif Swyddog Cynorthwyol yn barhaol a chafodd y rôl Prif Swyddog Cynorthwyol - Gwasanaethau Corfforaethol ei chyflwyno i'r strwythur yn lle rôl y Dirprwy Brif Swyddog .

*** Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol / Dirprwy Brif Swyddog Tân (A)

– cyflawnodd ddyletswyddau'r Dirprwy Brif Swyddog Tân rhwng 6/9/21 a 5/7/22
- dechreuodd yr absenoldeb salwch rhwng 23/5/22 a 6/7/22, a chafodd swydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei chyflawni gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Darparu Gwasanaethau (A) / Dirprwy Brif Swyddog Tân (B).
– Dychwelodd i rôl y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol ar 6/7/23 ond parhaodd yr absenoldeb salwch tan 8/11/22
– Cychwynnodd ail absenoldeb salwch o 22/12/22 hyd at y presennol. Cafodd y rôl ei chyflawni gan **B**rif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol (B) ar y dyddiadau isod ac mae'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol (C)

**** Y Prif Swyddog Cynorthwyol – Gwasanaethau Corfforaethol
– Rhwng 7/6/21 a 9/10/22, cyflawnodd gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Corfforaethol) a oedd yn rhan o rôl y Dirprwy Brif Swyddog.
Gwnaed rôl y Prif Swyddog Cynorthwyol yn barhaol ar 10/10/22

***** Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol (B)
– Wedi cyflawni, dros dro, ddyletswyddau Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gwasanaethau Technegol (A) rhwng 1/6/22 a 15/1/23
–Trosglwyddodd, dros dro, i swydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Gweithredu Diwydiannol rhwng 16/1/23 a'r presennol

****** Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (B) / Gwasanaethau Technegol (C)
– Cyflawnodd rôl Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (A) rhwng 19/4/22 a 14/6/22
– Yn ystod y cyfnod o salwch, cyflawnodd rôl Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (A) rhwng 16/1/23 a'r presennol

******* Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Darparu Gwasanaethau (A) / Dirprwy Brif Swyddog Tân (B)
– Dechreuodd gyflawni, dros dro, rôl y Dirprwy Brif Swyddog Tân rhwng 7/7/22 a'r presennol.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion yr Awdurdod sy'n derbyn taliad cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 y flwyddyn:

| **Dosbarth cyflog** | **Nifer 2021/22** | **Nifer 2022/23** |
|---|---|---|
| £60,000 i £64,999 | 12 | 13 |
| £65,000 i £69,999 | 11 | 11 |
| £70,000 i £74,999 | 1 | 2 |
| £75,000 i £79,999 | 1 | 0 |
| £80,000 i £84,999 | 2 | 1 |
| £85,000 i £89,999 | 3 | 1 |
| £90,000 i £94,999 | 0 | 2 |
| £95,000 i £99,999 | 0 | 2 |
| £100,000 i £104,999 | 0 | 0 |
| £105,000 i £109,999 | 3 | 1 |
| £110,000 i £114,999 | 0 | 0 |
| £115,000 i £119,999 | 0 | 1 |
| £120,000 i £124,999 | 0 | 0 |
| £125,000 i £129,999 | 0 | 0 |
| £130,000 i £134,999 | 0 | 0 |
| £135,000 i £139,999 | 0 | 0 |
| £140,000 i £144,999 | 1 | 0 |
| £145,000 i £149,999 | 0 | 1 |

Mae taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys pob swm a dalwyd / a dderbyniwyd gan gyflogai, taliadau treuliau sy'n drethadwy, a gwerth ariannol buddion. Nid yw'r data uchod yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr nac ôl-ddyledion cyflog. Mae'r unigolion yr adroddwyd amdanynt yn y dosbarthiadau cyflog uchod hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl taliadau cydnabyddiaeth i uwch-swyddogion uchod.

Y taliad cydnabyddiaeth canolrifol ar draws y gwasanaeth ar gyfer 2022/23 yw £33, a chymhareb taliad cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Tân i'r taliad cydnabyddiaeth canolrifol yw 4.46:1.

Ar gyfer 2021/22, y taliad cydnabyddiaeth canolrifol ar draws y gwasanaeth oedd £30, a chymhareb taliad cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Tân i'r taliad cydnabyddiaeth canolrifol oedd 4.65:1.

Mae'r taliad cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar y cyflog sy'n gyfwerth ag amser llawn ac nid yw'n cynnwys lwfansau treuliau trethadwy. Mae hyn yn golygu y gall y cyfrifiad gysylltu'n ôl â gradd cyflog benodol.

**2021/22 Pecynnau ymadael 2022/23**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael ym mhob band cost | Cyfanswm cost pecynnau ym mhob band cost £000 | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael ym mhob band cost | Cyfanswm cost pecynnau ym mhob band cost £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£0 - £20,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 20 |
| **£20,001 - £40,000** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 28 |
| **Cyfanswm y gost** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 48 |

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006.
Cyfrifir costau gadael yn llawn yn y flwyddyn y cytunir arnynt. Telir costau ymddeoliad oherwydd salwch gan refeniw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

## Nodyn 27 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

| 2020/2021 £000 | | 2022/2023 £000 |
|---|---|---|
| 75 | Ffïoedd y flwyddyn gyfredol a dalwyd / sy'n ddyledus i Archwilydd Cyffredinol Cymru | 84 |
| **75** | **Cyfanswm** | **84** |

## Nodyn 28 – GRANTIAU

Mae enillion sy'n ymwneud â grantiau ac asedau a roddwyd yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae incwm yn cael ei gredydu ar y pwynt pan fo'r Awdurdod wedi bodloni pob amodiad, amod a chyfyngiad y cytunwyd arnynt gyda'r endid sy'n darparu'r enillion. (Mae grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi'u nodi gydag 'LIC'.)

| 2021/22 | Refeniw | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 618 | Lleihau Risgiau Cymunedol (LIC) | 606 |
| 1,637 | Dimensiynau Newydd a Chyllid Chwilio ac Achub Trefol (LIC) | 1,353 |
| 110 | Ymosodiad Difaol gan Derfysgwyr (LIC) | 265 |
| 374 | Arall* | 122 |
| 632 | Firelink (LIC) | 632 |
| 28 | Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 31 |
| 0 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 22 |
| 4 | Economi Gylchol (LIC) | 4 |
| 2,950 | SCAPE (LIC) | 2,947 |
| 42 | Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans | 0 |
| 207 | COVID-19 (LIC) | 0 |
| 232 | Prentisiaid Diffodd Tân | 350 |
| 14 | Prosiect AFAN | 3 |
| 12 | Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân | 21 |
| 17 | Pwysau D20, COVID-19 a'r Gaeaf | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 0 |
| 6 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 1 |
| 0 | Wales & West Utilities | 2 |
| 0 | Hafod | 13 |
| **6,888** | | **6,372** |

| **2021/22** | **Cyfalaf** | **2022/23** |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 308 | NR – Adeiladu Eiddo Chwilio ac Achub Trefol (LIC) | 990 |
| 0 | Cerbydau Trydan Canfod, Nodi a Monitro (LIC) | 102 |
| 0 | Offer Canfod, Nodi a Monitro (LIC) | 165 |
| 21 | NR – Cerbyd (LIC) | 0 |
| 63 | Effeithlonrwydd Ynni (LIC) | 156 |
| 0 | Datblygu Gwres Carbon Isel (LIC) | 12 |
| **392** | | **1,425** |

* Mae grantiau eraill (cyllid allanol) yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau bach anghylchol.

## Nodyn 29 – PARTÏON PERTHYNOL

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion perthnasol â phartïon (cyrff) neu unigolion perthynol sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn ei gwneud yn bosibl i ddarllenwyr asesu'r graddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu o ran ei allu i fargeinio mewn ffordd agored.

### TRAFODION PARTÏON PERTHYNOL

Mae gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru nifer o gysylltiadau ag awdurdodau cyfansoddol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr incwm a fanylir isod, sy'n cynrychioli'r 'lwfans tân' sy'n daladwy i'r Gwasanaeth er mwyn cyllido costau cynnal bob blwyddyn.

Mae pob aelod o'r awdurdod tân ac achub hefyd yn aelod o un o'r awdurdodau llywodraethu cyfansoddol lleol.

Yn ystod y flwyddyn, cododd trafodion gyda phartïon perthynol, fel y dangosir isod.

| | Trafodion yn ystod y flwyddyn | | Balansau sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Gwariant | Yn ddyledus i'r Awdurdod (dyledwr) | Yn ddyledus gan yr Awdurdod (credydwr) |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 3,548 | 6 | 0 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7,544 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 9,287 | 7 | 0 | 0 |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd | 18,776 | 39 | 0 | 2 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3,107 | 3 | 0 | 0 |
| Cyngor Sir Fynwy | 4,871 | 9 | 0 | 0 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 8,067 | 126 | 0 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 12,385 | 193 | 0 | 9 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 4,801 | 4 | 0 | 0 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 6,918 | 12 | 0 | 0 |
| | **79,304** | **399** | **0** | **11** |

Mae'r taliadau yn cynnwys y costau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau. Mae costau cysylltiedig pensiynau heb eu hariannu, diwygiadau pensiwn y gwasanaeth tân a thaliadau'r gyflogres wedi'u cynnwys hefyd. Mae ardrethi annomestig cenedlaethol a didyniadau cyflog wedi cael eu heithrio o'r uchod.

Gofynnwyd i aelodau ac uwch-swyddogion yr Awdurdod ddatgan unrhyw drafodion trydydd parti yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y datganiadau ddatgelu amrywiaeth o bartïon perthynol posibl, gyda'r tabl canlynol yn cynnwys dim ond y perthnasau lle y cafodd taliadau eu gwneud.

| | | | Trafodion yn ystod y flwyddyn | | Balansau sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad y parti perthynol** | **Natur y cysylltiad** | **Nifer o drafodion** | **Incwm £** | **Gwariant £** | **Yn ddyledus i'r Awdurdod (dyledwr) £** | **Yn ddyledus gan yr Awdurdod (credydwr) £** |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad – Enwebai | 19 | 0 | 60,444 | 0 | 0 |
| Heddlu Gwent | Dirprwy Brif Swyddog – Priod | 3 | 0 | 38,464 | 0 | 0 |
| Miss Tilleys | Dirprwy Brif Swyddog – | 48 | 0 | 2,554 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfaill | | | | | |
| Sant Ioan | Dirprwy Brif Swyddog – Priod | 3 | 0 | 936 | 0 | 0 |
| Prifysgol Caerdydd | Cyn-aelod | 1 | 0 | 250 | 0 | 0 |
| Garnic Farm | Deiliad Cyllideb – Cyfaill | 7 | 0 | 4,000 | 0 | 0 |

Caiff Llywodraeth Cymru ei hystyried fel parti perthynol yn sgil ei rheolaeth o ddeddfwriaeth a chyllid perthnasol. Mae trafodion pellach gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â grant atodol ar gyfer cyllid i bensiynau diffoddwyr tân (gweler Nodyn 34, Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân) a grantiau (gweler Nodyn 28).

Cafodd y nodyn hwn ei lunio yn unol â'r dehongliad a dealltwriaeth gyfredol o Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 24 fel y bo'n berthnasol i'r sector cyhoeddus.

**Gweithrediadau ar y cyd**

Ym mis Ebrill 2014, ymrwymodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym mis Hydref 2017, aeth y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn "fyw". Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gydreolaeth o'r gweithrediad ac mae'r dull cytunedig wedi'i nodi mewn cytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth yn amlinellu set o egwyddorion lefel uchel cytunedig mewn perthynas â rheoli'r tîm o ddydd i ddydd. Mae'r ddau Brif Swyddog Tân yn disgwyl y bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn cydweithio er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y cytundeb lefel gwasanaeth.

Darparodd y cytundeb lefel gwasanaeth, o'r adeg pan ddaeth y tîm yn weithredol (Hydref 2017), y byddai'r gyllideb staff (costau uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar gyfer y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei rhannu ar sail 50%. Ar gyfer 2018/19 ac ymlaen, cafodd y cytundeb lefel gwasanaeth ei ail-drafod, gan arwain at sail ddiwygiedig – costau staff uniongyrchol o 60% ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a 40% ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a 50% yr un ar gyfer costau staff anuniongyrchol.

Dangosir cyfran yr Awdurdod o Gyfrif a Mantolen Incwm a Gwariant y Trefniant ar y Cyd yn y tabl isod.

| Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus o fis Hydref 2017 | **2021/22** | | **2022/23** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm y gweithrediad ar y cyd** | **Cyfran Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** | **Cyfanswm y gweithrediad ar y cyd** | **Cyfran Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | |
| Gwariant staff | 2,531 | 1,519 | 2,690 | 1,614 |
| Gwariant nad yw'n wariant staff | 110 | 55 | 128 | 64 |
| **Cyfanswm gwariant** | **2,641** | **1,574** | **2,818** | **1,678** |
| **Ased anniriaethol –** System gorchymyn a rheoli | | | | |
| Gwerth cyfrifon gros | 308 | 154 | 308 | 154 |
| Amorteiddio cronedig | (258) | (129) | (308) | (154) |
| **Gwerth cyfrifon net** | **50** | **25** | **0** | **0** |

Mae gan yr awdurdod hefyd swm dyledwr hirdymor o £100,000 a swm dyledwr tymor byr o £100,000 gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Nodyn 30 – GWARIANT CYFALAF A CHYLLID CYFALAF

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **41,630** | *Gofyniad cyllido cyfalaf agoriadol* | **40,226** |
| 2,443 | Buddsoddi mewn eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7,857 |
| **2,443** | ***Cyfanswm yr ychwanegiadau*** | **7,857** |
| | *Ffynonellau cyllid* | |
| -392 | Grantiau a chyfraniadau eraill gan y llywodraeth (Nodyn 28) | -1,425 |
| 0 | Symiau a osodwyd i'r naill ochr o'r refeniw (Nodyn 20) | 0 |
| -200 | Cyfraniadau refeniw uniongyrchol (Nodyn 20) | -200 |
| -189 | Derbyniadau cyfalaf | -24 |
| -3,066 | Darpariaeth isafswm refeniw / prif gronfa fenthyciadau (Nodyn 20) | -3,630 |
| **40,226** | *Gofyniad cyllido cyfalaf terfynol* | **42,804** |
| | *Cynnydd o ran yr angen sylfaenol i fenthyca* | |
| **-1,404** | ***Cynnydd / (gostyngiad) yn y gofyniad cyllido cyfalaf*** | **2,578** |

Ceir gwariant cyfalaf ar gynlluniau sydd ag oes sy’n fwy na blwyddyn, ac mae'n cael ei ariannu'n bennaf drwy gymysgedd o fenthyciadau a chyfraniadau refeniw, er y gall derbyniadau cyfalaf gael eu defnyddio a byddant yn cael eu defnyddio.

## Nodyn 31 – CYLLIDO GWARIANT CYFALAF

Ariannwyd gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

**2021/22** **2022/23**

| £000 | | £000 |
|---|---|---|
| 200 | Cyfraniad refeniw (Nodyn 30) | 200 |
| 392 | Cyllid grant (Nodyn 28) | 1,425 |
| 1,662 | Benthyca mewnol | 6,208 |
| 189 | Derbyniadau cyfalaf | 24 |
| **2,443** | **Cyfanswm** | **7,857** |

## Nodyn 32 – YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau yr oedd wedi ymrwymo iddynt ar ddyddiad y Fantolen. Mae gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £5.083 miliwn (2021/22: £5.668 miliwn). Mae'r ymrwymiadau yn gysylltiedig ag adnewyddu eiddo, a'r rhaglenni cerbydau, TGCh a chyfarpar.

## Nodyn 33 – MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2005/06, gwnaeth yr Awdurdod ymrwymo i drefniant Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer darparu canolfan hyfforddi ym Mhorth Caerdydd. Bydd y trefniant hwn yn parhau tan fis Medi 2030. Mae ymrwymiad o £15.8 miliwn (gwerth net cyfredol) dros gyfnod y contract, a fydd yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o gredydau PFI, a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru, ac adnoddau'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae'r Awdurdod yn talu costau'r tâl unedol o'i adnoddau ei hun ac mae'n derbyn grant blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae proffil y cyllid oddi wrth y Llywodraeth yn lleihau'n flynyddol tan fod tymor y contract yn dod i ben, tra bo'r tâl unedol sy'n daladwy gan yr Awdurdod yn cynyddu'n flynyddol dros yr un cyfnod. Mae hyn yn arwain at “warged” o adnoddau ar gyfer PFI pan gaiff ei gymharu â thaliadau ar gyfer cyfnod cychwynnol y contract. Mae'r symiau gwarged hyn wedi'u neilltuo mewn cronfa a glustnodwyd i ariannu rhan ddiweddarach cyfnod y contract pan fo'r taliadau blynyddol yn fwy na'r adnoddau blynyddol.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y balans ar y gronfa gydraddoli PFI a glustnodwyd yn £3.192 miliwn. Mae cyfanswm y taliad unedol wedi'i rannu’n elfen tâl gwasanaeth, elfen ad-dalu'r rhwymedigaeth a'r elfen llog, a bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud dros oes y contract PFI. Mae cyllid blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi cael ei dderbyn a bydd yn cael ei dderbyn ar gyfer oes y contract. Bydd gwerth rhwymedigaeth y les cyllid PFI yn cael ei ostwng dros oes y contract PFI.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y symudiad a grybwyllwyd uchod:

| PFI Element | | 2021/22 £'000 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Unitary Charge | | | |
| | Service Charge | 1,331 | 1,420 |
| | Interest | 491 | 482 |
| | Finance Lease | 365 | 419 |
| | | 2,187 | 2,321 |
| Grant Funding | | -1,004 | -965 |
| Fire Authority Contribution | | -1,004 | -1,044 |
| Net contribution to equalisation | | 179 | 312 |
| Equalisation Account | | | |
| | O/balance | -3,683 | -3,504 |

## Nodyn 34 – PENSIYNAU (SAFON CYFRIFYDDU RYNGWLADOL 19)

**(i) Gwasanaethau llywodraeth leol a staff rheoli**

Yn 2022/23, gwnaeth yr Awdurdod dalu cyfraniadau pensiwn o £1.47 miliwn i'r ‘gronfa'', sy'n darparu buddion diffiniedig i aelodau sy'n gysylltiedig â thâl a gwasanaeth. O dan reoliadau pensiwn cyfredol, mae cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i ddiwallu 100% o rwymedigaethau cyffredinol ‘y gronfa’.

Amcangyfrifir y bydd y cyfraniadau pensiwn sydd i'w talu i'r cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn cyfateb i £1.533 miliwn ar gyfer y cyflogwr.

Mae’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig a ariannwyd (ond mae hefyd yn cynnwys pensiynau penodol heb eu hariannu), gyda buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu cysylltu â chyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa sydd wedi’i adbrisio (CARE).

Mae'r trefniadau pensiwn heb eu hariannu (blynyddoedd digolledol ychwanegol) yn gysylltiedig â buddion terfynu a wneir yn ôl disgresiwn wrth ymddeol yn gynnar.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Bensiwn, sydd ar gael ar gais gan yr Adran Pensiynau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Tŷ Bronwydd, Porth, Rhondda, CF39 9DL, neu ar y wefan www.rctpensions.org.uk/Cy/Home.aspx.

**(ii) Diffoddwyr tân**

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun heb ei ariannu gyda buddion diffiniedig Yn 2022/23, gwnaeth yr Awdurdod dalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £9.274 miliwn. Roedd pensiynau a dalwyd o arian refeniw yn cyfateb i £982,000. Ar gyfer 2023/24, amcangyfrifir y bydd cyfraniad y cyflogwr i'r cynllun yn £9.859 miliwn, a’r amcangyfrif cyfredol yw y bydd £856,000 o arian refeniw yn cael ei dalu i bensiynau . Telir mwyafrif o'r taliadau pensiwn i ddiffoddwyr tân sydd wedi ymddeol o gyfrif cronfa bensiwn ar wahân a weinyddir gan yr Awdurdod. Darperir manylion y gronfa a sut y

mae'n gweithredu gan Gyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a datgeliadau cysylltiedig.

Ar 1 Ebrill 2015, cafodd cynllun pensiwn 2015 ei gyflwyno, yn ychwanegol at y Cynllun Pensiwn Tân gwreiddiol yn 1992 a'r Cynllun Pensiwn Tân Cenedlaethol (newydd) yn 2006. Gwnaeth cynllun 2015 gyflwyno cyfraddau cyfrannu newydd ar gyfer cyflogwyr a chyflogeion, a'r buddion yn sgil hyn ar gyfer pensiynwyr, mewn ymgais i wella fforddiadwyedd. Gwnaeth aelodau o gynlluniau 1992 a 2006 na wnaethant fodloni'r meini prawf rhagnodedig i drosglwyddo i gynllun 2015 o dan drefniant meinhau. Mae'r tri chynllun wedi'u cyfuno yn y tablau canlynol.

Ar 1 Ebrill 2016, cyflwynwyd y Cynllun Pensiwn Addasedig Wrth Gefn. Roedd y cynllun yn caniatáu i unigolion a gyflogwyd fel aelodau o staff wrth gefn rhwng 2000 a 2006 gael y cyfle i brynu gwasanaeth yn ôl. Pe bai'r unigolion yn dal i fod yn gyflogeion, yna gallent ymuno â'r Cynllun Pensiwn Addasedig Wrth Gefn, sy'n elwa ar yr un cyfraddau cyfrannu â chynllun 1992.

Ar 1 Ebrill 2022, yn dilyn dyfarniad llys, caewyd cynlluniau gwaddol gan gynnwys cynllun 1992, cynllun 2006 a'r cynlluniau pensiwn addasedig ar gyfer croniadau yn y dyfodol, a throsglwyddwyd pob aelod gweithredol i gynllun pensiwn 2015.

**<u>Trafodion yn ymwneud â buddion ar ôl cyflogaeth</u>**

Yn unol â gofynion Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 – Buddion Ymddeol, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth benodol mewn perthynas ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn ar gyfer ei gyflogeion. Fel yr eglurwyd yn y 'Polisïau Cyfrifyddu', mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun: Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer diffoddwyr tân llawnamser, sydd heb ei ariannu, a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf) ar gyfer cyflogeion eraill, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau ar gyfer talu blynyddoedd ychwanegol i gyflogeion penodol sydd wedi ymddeol, a hynny y tu allan i ddarpariaethau'r cynlluniau.

Er mwyn cydymffurfio â Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19, mae'r Awdurdod yn penodi actiwarïaid yn flynyddol i asesu asedau a rhwymedigaethau'r ddau gynllun. Penodwyd Aon Hewitt i asesu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac Adran Actiwari'r Llywodraeth i asesu Cynllun y Diffoddwyr Tân o ran sut maent yn ymwneud â chyflogeion Awdurdod Tân De Cymru y gorffennol a'r presennol. Ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, daeth asesiad yr actiwari i'r casgliad fod rhwymedigaeth net yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023 yn £2.7 miliwn (*£24 miliwn o atebolrwydd net* ar *31 Mawrth 2022,*) a'i bod yn £687 miliwn ar gyfer cynlluniau'r diffoddwyr tân (*£963 miliwn* ar (*31 Mawrth 2022,* ). Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r ddau gynllun a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiadau'r actiwari ar y dudalen drosodd.

Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad a chydraddoliad pellach ar gyfer yr Isafswm Pensiynau Gwarantedig, gyda'r cynnig i estyn yr 'ateb interim' i'r aelodau hynny sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth yn y gorffennol ei chynnwys ar gyfer 2021/22 ar gyfer estyn y broses gydraddoli i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol.

Roedd dyfarniad llys arall hefyd ar 20 Tachwedd ynghylch cydraddoli'r Isafswm Pensiynau Gwarantedig. Dyfarnodd y llys ei bod yn ofynnol i ymddiriedolwyr cynllun ailedrych ar Werthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETVs) y gorffennol er mwyn sicrhau cydraddoli'r Isafswm Pensiynau Gwarantedig. Gall hyn arwain at ychwanegiadau ychwanegol lle mae cydraddoli'r Isafswm Pensiynau Gwarantedig yn golygu na chafodd aelodau eu hawl lawn. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar sail traws-gynllun a bydd angen mewnbwn cyfreithiol. Gall hyn olygu bod angen ailedrych ar achosion CETV y gorffennol ar gyfer aelodau o oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i'r CETVs gael eu cydraddoli. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'u pennu eto ond disgwylir iddo fod yn gynnydd cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau.

Yn dilyn y Llys Apêl, daeth dyfarniad McCloud, a roddwyd ym mis Rhagfyr 2018, i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn wahaniaethol ar sail oedran. Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU, gan gynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â chynlluniau manwl i roi'r rhwymedi ar waith yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod 2020. Rhoddwyd deddfwriaeth unioni arfaethedig ar waith ym mis Ebrill 2022, a ddeddfodd y dylid cau'r holl gynlluniau gwaddol ar gyfer pob croniad yn y dyfodol, a throsglwyddo aelodau gweithredol a warchodwyd yn flaenorol i Gynllun Diwygiedig 2015. Mae deddfwriaeth unioni ôl-weithredol yn cael ei llunio ar hyn o bryd a bydd angen iddi gael ei deddfu erbyn 1 Hydref 2023, fan bellaf. Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd yr awdurdod tân y taliad o fuddion niwed di-oed, ar gyfer y rhai a ystyrir eu bod yn achosion Categori 1 – felly'r rhai sy'n aelodau gweithredol cyfredol ac sydd wedi rhoi eu hysbysiad ymddeol i'r gwasanaeth yn ffurfiol. Bydd y dull hwn yn parhau tan fis Hydref 2023 ar gyfer y rhai sy'n bodloni'r meini prawf.

Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net a adroddir yn y cyfrifon yn cynnwys rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig â dyfarniad McCloud. Mae actiwarïaid y gronfa bensiwn wedi seilio'r amcangyfrif ar brif ddarpariaethau'r rhwymedi.

| 2021/22<br>£000 | Symudiadau ar y Gronfa Bensiwn | 2022/23<br>£000 |
|---:|---|---:|
| | Cyfrif Incwm a Gwariant | |
| | | |
| | **Cost net y gwasanaeth** | |
| | Cost gyfredol y gwasanaeth | |
| -25,870 | - Diffoddwyr tân | -18,210 |
| -4,520 | - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | -4,290 |
| | Cost gwasanaeth yn y gorffennol | |
| 0 | - Diffoddwyr tân | 0 |
| 0 | - * Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 0 |
| 13,335 | Grant atodol | 15,320 |
| | **Gwariant gweithredu net** | |
| | Cost llog | |
| -19,830 | - Diffoddwyr tân | -25,410 |
| -2,450 | - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | -3,040 |
| | Enillion disgwyliedig ar asedau pensiwn | |
| 0 | - Diffoddwyr tân | 0 |
| 1,810 | - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 2,404 |
| **-37,525** | **Cyfanswm buddion ôl-gyflogaeth a godir ar y gwarged neu ddiffyg ar y gwasanaethau a ddarperir** | **-33,226** |
| | Ailfesuriadau o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) | |
| 50,110 | - Diffoddwyr tân | 294,200 |
| 10,560 | - * Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 30,400 |
| **23,145** | **Cyfanswm buddion ôl- gyflogaeth (a godwyd ar) / a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **291,374** |
| | | |
| | **Symudiad ar y Datganiad Cronfa** | |
| 1,021,493 | Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 987,073 |
| -23,145 | Gwrthdroi taliadau net ar gyfer Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 | -291,374 |
| | | |
| | Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | |
| | Balans ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn | |
| | Cyfraniadau'r cyflogwr | |
| -9,224 | Diffoddwyr tân | -9,607 |
| -1,420 | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | -1,510 |
| -631 | Buddion ymddeol a dalwyd i ddiffoddwyr tân | -650 |
| 0 | Trosglwyddiadau i mewn | 0 |
| **-34,420** | **Symudiad ar y Gronfa Bensiwn** | **-303,141** |
| | | |
| **987,073** | **Balans terfynol** | **683,932** |

*Mae symudiadau ar gronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys trefniadau buddion pensiwn heb eu hariannu.
2022/23 – cost llog o £10,000, enillion actwaraidd o £60,000 a buddion net a dalwyd allan o £40,000.

Cynlluniau pensiwn – asedau / rhwymedigaethau

Roedd cyfran amcangyfrifedig yr Awdurdod o asedau a rhwymedigaethau o 31 Mawrth 2019 hyd at 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
| Cyfran amcangyfrifedig o rwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | -947,849 | -885,690 | -990,340 | -962,740 | -686,590 |
| Cyfran amcangyfrifedig o rwymedigaethau yng Nghronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf | -91,335 | -91,164 | -117,564 | -113,865 | -79,995 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **-1,039,184** | **-976,854** | **-1,107,904** | **-1,076,605** | **-766,585** |
| Cyfran o'r asedau yng Nghronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf | 67,310 | 65,230 | 86,411 | 89,532 | 82,653 |
| **Diffyg pensiwn net** | **-971,874** | **-911,624** | **-1,021,493** | **-987,073** | **-683,932** |

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân | -947,849 | -885,690 | -990,340 | -962,740 | -686,590 |
| Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf | -24,025 | -25,934 | -31,153 | -24,333 | 2,658 |
| **Diffyg pensiwn net** | **-971,874** | **-911,624** | **-1,021,493** | **-987,073** | **-683,932** |

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu prisio ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, sy'n asesu rhwymedigaethau'r gronfa yn y dyfodol wedi'u disgowntio i'w gwerth cyfredol. Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi'i brisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ac mae rhwymedigaethau Cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'u prisio gan Aon Hewitt, cwmni actwaraidd annibynnol. Mae'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau fel a ganlyn:

**Y sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau**

| | **Cynllun y Diffoddwyr Tân** | | **Cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | **2022 %** | **2023 %** | **2022 %** | **2023 %** |
| Mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) | 3 | 2.6 | 3 | 2.7 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4.75 | 3.85 | 4.25 | 3.95 |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 3 | 2.6 | 3 | 2.7 |
| Cyfradd y cynllun disgowntio Rhwymedigaethau | 2.65 | 4.65 | 2.7 | 4.7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgwyliad oes yn y dyfodol yn 65 oed | | | | |
| Dynion | | | | |
| Pensiynwyr cyfredol | 21.5 | 21.2 | 21.6 | 21.6 |
| Pensiynwyr y dyfodol | 23.2 | 22.9 | 22.6 | 22.9 |
| Menywod | | | | |
| Pensiynwyr cyfredol | 21.5 | 21.2 | 23.9 | 24.2 |
| Pensiynwyr y dyfodol | 23.2 | 22.9 | 25.4 | 25.7 |

**Dadansoddiad sensitifrwydd**

Mae actiwari'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi rhoi brasamcan o effaith newid y rhagdybiaethau allweddol ar werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a ariannwyd. Ymhob achos, dim ond y rhagdybiaeth a grybwyllwyd sy'n cael ei haddasu, ac mae'r holl ragdybiaethau eraill uchod yn parhau'r un peth.

Rhagdybiaeth cyfradd ddisgownt

| **Addasiad i'r gyfradd ddisgownt** | **+0.1% y flwyddyn** | **-0.1% y flwyddyn** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£ miliwn) | 78.10 | 80.96 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | -1.8% | 1.8% |
| Cost ragamcanol y gwasanaeth (£ miliwn) | 1.88 | 2.04 |
| Brasamcan o % newid yng nghost ragamcanol y gwasanaeth | -3.9% | 4.0% |

Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau

| **Addasiad i gyfradd cynnydd cyflog** | **+0.1% y flwyddyn** | **-0.1% y flwyddyn** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£ miliwn) | 79.69 | 79.37 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 0.2% | -0.2% |
| Cost ragamcanol y gwasanaeth (£ miliwn) | 1.96 | 1.96 |
| Brasamcan o % newid yng nghost ragamcanol y gwasanaeth | 0.0% | 0.0% |

Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a chyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn

| **Addasiad i'r gyfradd ddisgownt** | **+0.1% y flwyddyn** | **-0.1% y flwyddyn** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£ miliwn) | 80.80 | 78.34 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 1.6% | -1.5% |
| Cost ragamcanol y gwasanaeth (£ miliwn) | 2.04 | 1.88 |
| Brasamcan o % newid yng nghost ragamcanol y gwasanaeth | 4.0% | -3.9% |

Rhagdybiaeth marwolaethau ar ôl ymddeol

| **Addasiad i'r gyfradd ddisgownt** | **-1 flwyddyn** | **+1 flwyddyn** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£ miliwn) | 81.60 | 77.46 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y | 2.6% | -2.6% |

| | | |
|---|---|---|
| rhwymedigaeth | | |
| Cost ragamcanol y gwasanaeth (£ miliwn) | 2.03 | 1.89 |
| Brasamcan o % newid yng nghost ragamcanol y gwasanaeth | 3.5% | -3.5% |

Mae actiwari Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân wedi rhoi brasamcan o effaith newid y rhagdybiaethau allweddol ar werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig.

| **Effaith ar rwymedigaeth buddion diffiniedig** | **%** | **£ miliwn** |
|---|---|---|
| Cyfradd rhwymedigaethau'r cynllun disgowntio +0.5% y flwyddyn | -7.5% | -51 |
| Cyfradd y cynnydd hirdymor mewn cyflogau +0.5% y flwyddyn | 1.0% | 8 |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau / ailbrisiad gohiriedig +0.5% y flwyddyn | 7.0% | 47 |
| Disgwyliad oes: pob pensiynwr yn destun hirhoedledd unigolyn un flwyddyn yn iau na'r hyn a ragdybiwyd | 2.5% | 17 |

**Asedau**

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun pensiwn heb ei ariannu ac felly nid oes ganddo unrhyw asedau i gynhyrchu incwm i ddiwallu rhwymedigaethau'r cynllun. Mae cyllid ar gyfer y taliadau a wneir o'r cynllun yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau gan gyflogwyr a chyflogeion yn ystod y flwyddyn a grant blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun sydd wedi'i ariannu ac felly mae wedi sefydlu asedau dros y blynyddoedd i greu incwm i ddiwallu rhwymedigaethau yn y dyfodol. Mae asedau yng Nghronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u prisio ar werth teg, gwerth cais buddsoddiadau yn bennaf, ac yn cynnwys:

| **Rhaniad asedau'r cynllun** | **%** |
|---|---|
| **2023** | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 68.1 |
| Bondiau | 22.9 |
| Eiddo | 7.8 |
| Arian parod | 0.7 |
| Asedau eraill | 0.5 |
| **Cyfanswm** | **100.0** |
| **2022** | |
| Buddsoddiadau ecwiti | 67.4 |
| Bondiau | 24.9 |
| Eiddo | 7.3 |
| Arian parod | 0.4 |
| Asedau eraill | 0 |
| **Cyfanswm** | **100.0** |

Roedd yr enillion cyffredinol ar asedau pensiwn yn 6.2% ar gyfer 22/23 (2021/22: 3.9%).
Gellir dadansoddi'r symudiad yn y diffyg pensiwn ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn, ar sail gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun.

| **2021/22 £000** Diffoddwyr tân | **2021/22 £000** Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | **Rhwymedigaethau** | **2022/23 £000** Diffoddwyr tân | **2022/23 £000** Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
|---|---|---|---|---|
| **-990,340** | **-117,564** | **Balans ar 1 Ebrill** | **-962,740** | **-113,865** |
| -25,870 | -4,520 | Cost gyfredol y gwasanaeth | -18,210 | -4,290 |
| -19,830 | -2,450 | Llog | -25,410 | -3,040 |
| -4,290 | -610 | Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | -4,520 | -640 |
| 50,110 | 8,989 | Enillion a cholledion actwaraidd | 294,200 | 39,240 |
| 28,480 | 2,290 | Buddion a dalwyd | 30,390 | 2,600 |
| 0 | 0 | Cost gwasanaeth yn y gorffennol | 0 | 0 |
| -1,000 | 0 | Trosglwyddiadau i mewn | -300 | 0 |
| **-962,740** | **-113,865** | **Rhwymedigaethau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn** | **-686,590** | **-79,995** |

**Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y cyfnod cyfrifyddu**

| **2021/22 £000 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | **Asedau** | **2022/23 £000 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** |
|---|---|---|
| **86,411** | **Balans ar 1 Ebrill** | **89,532** |
| 1,810 | Enillion ar asedau pensiwn | 2,404 |
| 1,571 | Enillion / colledion actwaraidd ar asedau | -8,833 |
| 1,420 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 1,510 |
| 610 | Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 640 |
| -2,290 | Buddion net a dalwyd allan* | -2,600 |
| **89,532** | **Asedau pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn** | **82,653** |

* Yn cynnwys buddion llif arian net allan o'r gronfa o ran y cyflogwr, gan gynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau marw yn y swydd a chostau gweinyddu'r gronfa. Gan eithrio £40 o daliadau pensiwn heb eu hariannu.

**Enillion gwirioneddol ar asedau**

| | 31 Mawrth 2022<br>£ miliwn | 31 Mawrth 2023<br>£ miliwn |
|---|---|---|
| Incwm llog ar asedau | 1.81 | 2.41 |
| Enillion / (colledion) ail-fesur ar asedau | 1.57 | -8.84 |
| Enillion gwirioneddol ar asedau | 3.38 | -6.43 |

## Nodyn 35 – RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi wynebu her o ran achosion yn ymwneud â 'Rheol B5C' y Cynllun Pensiwn Tân a lwfansau Chwilio ac Achub Trefol (USAR). Yn fwy diweddar, rydym wedi cael cadarnhad bod nifer o unigolion wedi mynd â'u hachosion i'r Ombwdsmon Pensiynau ar sail newidiadau Rheol B5C, a hefyd rydym ar hyn o bryd yn cymryd cyngor cyfreithiol ynghylch a ddylid ystyried bod contractau eilaidd yn bensiynadwy ai peidio ac, os felly, eu cynnwys fel rhan o restr cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ni wyddys ar hyn o bryd a fydd unrhyw oblygiadau ariannol i'r naill na'r llall o'r datblygiadau diweddar hyn ond mae'n debygol y bydd hyn yn hysbys yn ystod 2023/23.

Ceir hefyd nifer o faterion cenedlaethol parhaus o ran y cynlluniau pensiwn ac nid yw gwerth unrhyw rwymedigaethau posibl wedi'i benderfynu eto.Un achos o'r fath yw achos O'Brien, sef bod y llysoedd wedi dyfarnu bod penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod y gallai gweithwyr rhan-amser brynu gwasanaeth pensiynadwy yn y gorffennol yn ôl-weithredol yn anghywir ac na ddylid gosod terfyn o'r fath. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod yr hawl i ddiffoddwyr tân rhan-amser a gyflogwyd cyn 1 Gorffennaf 2000 ddewis dod yn aelod arbennig o ddechrau eu cyflogaeth. Bydd hyn yn golygu bod angen ail ymarfer opsiynau, y mae trafodaethau cyfreithiol wedi cychwyn yn ei gylch, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio yn ystod mis Chwefror 2023. Bydd ymarfer i gywiro hyn yn cychwyn yn dilyn newidiadau deddfwriaethol ym mis Hydref 2023. Bydd canlyniad ariannol i'r Awdurdod o ran y rhai sy'n dymuno prynu gwasanaeth hanesyddol, ond ni ellir rhagweld y costau hyn ar hyn o bryd.

Yn dilyn gwrandawiad y Llys Apêl, daeth dyfarniad McCloud, a roddwyd ym mis Rhagfyr 2018, i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn wahaniaethol ar sail oedran.

Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU, gan gynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Rhoddwyd deddfwriaeth unioni arfaethedig ar waith ym mis Ebrill 2022, a ddeddfodd y dylid cau'r holl gynlluniau gwaddol ar gyfer pob croniad yn y dyfodol, a throsglwyddo aelodau gweithredol a warchodwyd yn flaenorol i Gynllun Diwygiedig 2015. Mae deddfwriaeth unioni ôl-weithredol yn cael ei llunio ar hyn o bryd a bydd angen iddi gael ei deddfu erbyn 1 Hydref 2023, fan bellaf.

Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd yr awdurdod tân y taliad o fuddion niwed di-oed, ar gyfer y rhai a ystyrir eu bod yn achosion Categori 1, felly'r rhai sy'n aelodau gweithredol cyfredol ac sydd wedi rhoi eu hysbysiad ymddeol i'r gwasanaeth yn ffurfiol. Bydd y dull hwn yn parhau, ar gyfer y rhai sy'n bodloni'r meini prawf, hyd nes y

bydd Datganiadau Gwasanaeth Rhwymedïol wedi'u darparu i bob aelod. Mae gan y Gwasanaeth 18 mis ar ôl Hydref 2023 i sicrhau bod y rhain wedi cael eu cyfathrebu.

Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net a adroddir yn y cyfrifon yn cynnwys rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig â dyfarniad McCloud. Mae actiwarïaid y gronfa bensiwn wedi seilio'r amcangyfrif ar brif ddarpariaethau'r rhwymedi.

Yn dilyn sylw anffafriol diweddar yn y wasg i nifer o achosion disgyblu hanesyddol, mae'r Awdurdod wedi lansio adolygiad annibynnol o ddiwylliant. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw unrhyw un o'r rhain yn peri risg o ran camau cyfreithiol neu rwymedigaeth ariannol.

## Nodyn 36 – NATUR A GRADDAU'R RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risg credyd – y posibilrwydd efallai y gallai partïon eraill fethu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod
- Risg hylifedd – y posibilrwydd efallai na fydd gan yr Awdurdod y cyllid ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau
- Risg y farchnad – y posibilrwydd efallai y bydd colledion ariannol yn codi i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc

Mae’r Awdurdod wedi mabwysiadau Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli'r risgiau uchod. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cyflwynir adroddiad i'r aelodau yn amlinellu’r Strategaeth Rheoli Trysorlys i'w dilyn ar gyfer y flwyddyn ac yn amlinellu'r dangosyddion darbodus ar gyfer y flwyddyn. Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ceir adroddiad yn manylu ar y cynnydd yn ôl y strategaeth ac yn adolygu'r dangosyddion darbodus os oes angen. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r adroddiad terfynol yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Nodir sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n codi o offerynnau ariannol yn yr adroddiadau trysorlys a gyflwynir i aelodau, y gellir dod o hyd iddynt yma: www.decymru-tan.gov.uk.

Mae'r risg credyd uchaf ar gyfer y buddsoddiadau ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy’r Strategaeth Rheoli Trysorlys fel y nodir uchod. Mae'r strategaeth bresennol yn nodi y bydd yr Awdurdod ond yn buddsoddi yn y tymor byr, hyd at uchafswm o 12 mis, gyda sefydliadau sydd ar restr parti i gontract yr Awdurdod. O ddydd i ddydd, caiff yr Awdurdod ei ddiweddaru gydag unrhyw newidiadau i statws credyd sefydliadau ar y rhestr parti i gontract ac, os bydd unrhyw sefydliadau yn cael eu hisraddio ac yn methu â bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys, yna byddant yn cael eu tynnu o'r rhestr. Pe bai sefydliad yn methu ag ad-dalu buddsoddiad yna gallai’r golled ariannol i'r Awdurdod fod yn fwy nag £1 miliwn. Fodd bynnag, yn sgil rheolaeth ofalus o'r portffolio, nid oes unrhyw sefydliadau wedi methu ag ad-dalu'r arian sy'n ddyledus.

Mae gan yr Awdurdod fynediad parod i fenthyciadau oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac nid oes unrhyw risg sylweddol y bydd yn methu â chodi arian i ddiwallu ei ymrwymiadau o dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn cael ei ymrwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

Mae'r dadansoddiad aeddfedrwydd o rwymedigaethau ariannol wedi'i ddarparu yn Nodyn 10 (2), Offerynnau Ariannol.

**Risg cyfradd llog** – Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, gan ddibynnu ar sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws cyfnodau offerynnau ariannol gwahanol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynyddu
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyciad yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw)
- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynyddu a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw)

Ni nodir gwerth teg benthyciadau ar y fantolen, felly ni fydd enillion a cholledion enwol ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y gwarged na'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau neu wariant ac incwm cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau mewn llog taladwy a derbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ac yn effeithio ar falans y gronfa gyffredinol, yn amodol ar ddylanwadau gan grantiau'r llywodraeth. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau graddfa sefydlog sydd â phris marchnad a ddyfynnwyd eu hadlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.

Mae gan yr Awdurdod nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Flynyddol yn casglu ynghyd ddangosyddion darbodus a thrysorlys yr Awdurdod a'i weithgareddau trysorlys rhagdybiedig, gan gynnwys disgwyliad symudiadau o ran cyfraddau llog. O'r strategaeth hon, gosodir dangosydd trysorlys sy'n darparu terfynau mwyafsymiol ar gyfer amlygiad i gyfraddau llog sefydlog ac amrywiol. Bydd tîm canolog y trysorlys yn monitro cyfraddau llog rhagolygol a'r farchnad o fewn y flwyddyn i addasu amlygiadau'n briodol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau pan fydd cyfraddau llog yn disgyn, a phan fydd amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, gellir cymryd buddsoddiadau cyfradd sefydlog am gyfnodau hirach er mwyn sicrhau enillion hirdymor gwell. Yn yr un modd, byddai benthyca ar gyfraddau sefydlog am gyfnodau hirach yn cael ei ohirio.

**Risg prisiau** – Yn gyffredinol, nid yw'r Awdurdod, ac eithrio'r gronfa bensiwn, yn buddsoddi mewn soddgyfrannau neu fondiau gwerthadwy.

**Risg cyfraddau cyfnewid tramor** – Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau neu rwymedigaethau ariannol mewn arian tramor. Felly, nid oes ganddo amlygiad i golled sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

## CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

| **2021/2022** | | **2022/2023** |
|---|---|---|
| **£000** | **Incwm i'r gronfa** | **£000** |
| | Cyfraniadau derbyniadwy: | |
| | gan y cyflogwr | |
| -8,880 | cyfraniadau arferol | -9,274 |
| -344 | cyfraniadau eraill | -332 |
| -4,200 | gan yr aelodau | -4,424 |
| -93 | Cyfraniadau gwasanaeth blaenorol (cynllun addasedig wrth gefn) | -98 |
| **-13,517** | | **-14,128** |
| -1,065 | Trosglwyddiadau i mewn oddi wrth gronfeydd pensiwn eraill | -298 |
| **-14,582** | **Cyfanswm incwm i'r gronfa** | **-14,426** |
| | | |
| | **Gwariant gan y gronfa** | |
| | Buddion sy'n daladwy: | |
| 22,140 | Taliadau pensiwn | 23,420 |
| 5,511 | Cyfnewidiadau pensiwn a chyfandaliadau buddion ymddeol | 6,190 |
| 198 | Taliadau eraill | 110 |
| **27,849** | | **29,720** |
| | Taliadau i, ac ar gyfrif pobl sy'n gadael: | |
| 0 | Trosglwyddiadau allan i awdurdodau eraill | 0 |
| **27,849** | **Cyfanswm gwariant gan y gronfa** | **29,720** |
| | | |
| **13,267** | Swm net sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn | **15,294** |
| | | |
| -13,267 | Grant atodol blynyddol sy'n dderbyniadwy oddi wrth Lywodraeth Cymru | -15,294 |
| **0** | Swm net sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn | **0** |

| 2021/2022 £000 | Datganiad Ased Net | 2022/2023 £000 |
|---|---|---|
| | Asedau cyfredol: | |
| 1,142 | Grant atodol sy'n ddyledus oddi wrth Lywodraeth Cymru | 1,791 |
| **1,142** | | **1,791** |
| | Rhwymedigaethau cyfredol: | |
| -14 | Cyfnewidiadau sy'n ddyledus i bensiynwyr | -23 |
| -1,128 | Swm sy'n ddyledus i'r gronfa gyffredinol | -1,768 |
| **0** | | **0** |

## NODIADAU I GYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

Sefydlwyd y gronfa ar 1 Ebrill 2007 ac mae'n cwmpasu Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992, 2006 a 2015, a'r Cynllun Pensiwn Addasedig Wrth Gefn, a chaiff ei gweinyddu gan yr Awdurdod.

Yn dilyn achos llys gwahaniaethu ar sail oedran diweddar, ar 1 Ebrill 2022, caewyd Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992 a 2006 a'r Cynllun Pensiwn Addasedig Wrth Gefn, a chafodd yr holl aelodau gweithredol (gweithwyr presennol) eu trosglwyddo i gynllun pensiwn 2015.

Mae cyfraniadau cyflogeion a chyflogwr (yr Awdurdod) yn cael eu talu i mewn i'r gronfa o'r gyllideb refeniw a gwneir taliadau i bensiynwyr o'r fan hon. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn destun ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Cynllun heb ei ariannu heb unrhyw asedau buddsoddi yw'r cynllun a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng buddion sy'n daladwy a chyfraniadau a dderbynnir yn cael ei dalu gan y grant atodol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun yn drosglwyddiad buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall i weithwyr newydd neu weithwyr cyfredol, ac mae trosglwyddiadau allan yn fuddion trosglwyddo ar gyfer cyflogeion sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad o swm y grant atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru, a thelir 80% o'r amcangyfrif yn ogystal â'r gwarged / diffyg (ased / rhwymedigaeth) sy'n daladwy / derbyniadwy o'r flwyddyn flaenorol. Fel y cyfryw, mae unrhyw ased / rhwymedigaeth ar y Gronfa Bensiwn yn cael ei pharu gan werth cyfatebol ar fantolen yr Awdurdod. Mae amcangyfrif 2022/23 yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sy'n ymddeol o fewn y flwyddyn ac, o ganlyniad, cyfrifir amcangyfrif o daliadau pensiwn. Yn 2022/23, ymddeolodd 69 o ddiffoddwyr tân (gan gynnwys 11 o aelodau gohiriedig) o'i gymharu â'r amcangyfrif o 48. Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth Llywodraeth Cymru'n ddyledwr i'r Gronfa Bensiwn â gwerth o £1.791 miliwn.
Nid yw Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystyried rhwymedigaethau am bensiynau a buddion eraill wedi'r cyfnod. Gellir dod o hyd i fanylion rhwymedigaethau pensiwn hirdymor yn Nodyn 21 a Nodyn 34 i'r datganiadau ariannol craidd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer cynhyrchu Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn unol â’r arferion a argymhellir, ac maen nhw'n dilyn y rheini sy'n berthnasol i brif ddatganiadau'r Awdurdod.

**Cyfraddau cyfraniadau**
O dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, cyfraddau cyfraniadau’r cyflogwr ar gyfer Cynllun 2015 oedd 27.3%. Pennir cyfraddau cyflogeion ar system haenog yn ôl bandiau cyflog, gyda'r rhai sy'n ennill y cyflogau mwyaf yn cyfrannu cyfradd uwch o gymharu â’u cyflog, h.y. cyfraddau sy'n cychwyn ar 8.5% ac yn gorffen ar 17% am y cyfnod cyfredol.